



Llywodraeth EM

Trawsnewid yr Ymateb i Gam-drin Domestig

Ymgynghoriad y Llywodraeth (fersiwn llawn)

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 8 Mawrth 2018

Mae'r ymgynghoriad hwn yn diweddu ar 31 Mai 2018



Llywodraeth EM

Trawsnewid yr Ymateb i Gam-drin Domestig

Ymgynghoriad y Llywodraeth (fersiwn llawn)

Ymgynghoriad wedi'i gynhyrchu gan Lywodraeth Ei Mawrhydi. Dyma'r fersiwn llawn sy'n cynnwys holl gwestiynau'r ymgynghoriad. Mae'r fersiwn ar-lein ar gael yn:
<https://consult.justice.gov.uk/homeoffice-moj/domestic-abuse-consultation>

Rydym hefyd wedi llunio fersiwn byrrach, symlach sydd ar gael yn:
<https://consult.justice.gov.uk/homeoffice-moj/domestic-abuse-consultation-short-version>

Mae hwn yn gofyn llai o gwestiynau, yn defnyddio iaith symlach ac yn gyflymach ac yn haws ei lenwi.

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

- I:** Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i'r cyhoedd.
- Bydd gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan ddiodefwyr a goroeswyr cam-drin domestig, sefydliadau sy'n cynrychioli diodefwyr a goroeswyr, yr heddlu, ymarferwyr cyfiawnder troseddol a theuluol, darparwyr gwasanaethau rheng flaen, gweithwyr cymdeithasol, byrddau diogelu oedolion a phlant, athrawon, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, comisiynwyr yr heddlu a throseddu, byrddau iechyd a lles, awdurdodau lleol a phartneriaethau diogelwch cymunedol.
- Hyd:** O 8 Mawrth 2018 hyd 31 Mai 2018
- Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur ar fformat gwahanol) i:** Inter-Personal Violence Team
5th Floor, Fry Building, 2 Marsham Street, London SW1P 4DF
E-bost: DomesticAbuseConsultation@justice.gsi.gov.uk
- Sut i ymateb:** I'n helpu i ddadansoddi'r ymatebion, defnyddiwch y ffurflen ar-lein ganlynol i gyflwyno eich ymateb:
<https://consult.justice.gov.uk/homeoffice-moj/domestic-abuse-consultation>
- Hefyd, mae fersiwn byrrach o'r ymgynghoriad ar gael yn:
<https://consult.justice.gov.uk/homeoffice-moj/domestic-abuse-consultation-short-version>
- Mae cwblhau hwn yn broses gyflymach a haws, oherwydd mae'n cynnwys llai o gwestiynau ac yn defnyddio iaith symlach.
- Anfonwch eich ymateb erbyn 31 Mai 2018.
- Os na allwch ddefnyddio'r system ar-lein am resymau eithriadol, er enghraifft am eich bod yn defnyddio meddalwedd mynediad hwylus arbenigol sydd ddim yn gydnaws â'r system, cewch lwytho'r ffurflen i lawr ar fformat dogfen Word a'i hanfon drwy e-bost neu drwy'r post i:
- Inter-Personal Violence Team
5th floor, Fry Building, Home Office, 2 Marsham Street, London SW1P 4DF
E-bost: DomesticAbuseConsultation@justice.gsi.gov.uk
- Hefyd, cysylltwch â'r timau Polisi Cam-drin Domestig (fel yr uchod) os oes angen gwybodaeth ar unrhyw fformat arall, megis Braille, sain neu iaith arall.
- Ni allwn ddadansoddi ymatebion nad ydynt wedi'u cyflwyno ar y fformatau penodol hyn.
- Ffyrdd ychwanegol o gyfrannu eich barn:** Byddwn hefyd yn cynnal sioeau teithio rhanbarthol ledled Cymru a Lloegr yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, a chyfres o ddiwyddiadau gyda diodefwyr/goroeswyr, eu teuluoedd, elusennau a gweithwyr proffesiynol rheng flaen i ganfasio safbwyntiau. Cysylltwch â'r timau Polisi Cam-drin Domestig (fel yr uchod) i gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiadau hyn.
- Papur ymateb:** Bwriedir cyhoeddi ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn:
<https://consult.justice.gov.uk/>

Cynnwys

Rhagair ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Cartref a'r Ysgrifennydd Cyfiawnder	3
Rhagarweiniad	5
Cefndir	6
Pennod 1: Hybu Ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig	12
Pennod 2: Amddiffyn a Chefnogi Dioddefwyr	25
Pennod 3: Ymlid a Rhwystro Drwgweithredwyr	52
Pennod 4: Gwella Perfformiad	69
Holiadur	75
Amdanoch chi	81
Datganiad Cydraddoldeb	82
Manylion cyswllt/sut i ymateb	85
Egwyddorion ymgynghori	87

Rhagair ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Cartref a'r Ysgrifennydd Cyfiawnder

Mae pob math o drais a cham-drin yn annerbyniol, ond mae'n arbennig o ysgytiol pan fo'n cael ei wneud gan y bobl agosaf at y dioddefwyr, a gan y bobl sy'n honni eu bod yn caru'r union bobl y maent yn eu cam-drin yn seicolegol, yn emosiynol ac yn gorfforol. Mae cam-drin domestig yn effeithio ar fywydau bob dydd y dioddefwyr, sy'n gallu teimlo na allant ddianc; mae hefyd yn gallu achosi goblygiadau dinistriol i blant o'r genhedlaeth nesaf.

Mae menywod a dynion yn dioddef cam-drin domestig, ac mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn am y ffordd orau o gefnogi pawb sy'n dioddef. Fodd bynnag, rydym yn gwybod mai menywod yw'r rhan fwyaf o'r dioddefwyr, yn enwedig yn yr achosion mwyaf difrifol. Dyma pam mae ymagwedd y llywodraeth tuag at gam-drin domestig wedi'i fframio o fewn y strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Genethod, sydd wedi bod yn effeithiol.

Mae'r llywodraeth hon wedi ymrwymo i wneud popeth a allwn i ddiweddu cam-drin domestig. I gyflawni hyn mae angen i ni adeiladu cymdeithas sy'n gwrthod goddef unrhyw gam-drin domestig ac sy'n cymryd camau i rymuso dioddefwyr, cymunedau a gweithwyr proffesiynol i wynebu'r ymddygiad hwn a'i herio. Rydym yn benderfynol o sicrhau bod dioddefwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi i chwilio am gymorth ac i ailadeiladu eu bywydau.

Rydym hefyd am herio a newid yr agweddau sy'n gallu rhoi sail i gam-drin domestig er mwyn ei atal rhag digwydd yn y lle cyntaf. I wneud hyn, mae angen i ni dorri'r distawrwydd ac annog pobl i siarad yn fwy agored am y peth. Rydym am sicrhau bod drwgweithredwyr yn cael eu dal yn gyfrifol am yr hyn y maent yn ei wneud ac yn wynebu cyfiawnder mewn modd sy'n cydnabod goblygiadau dinistriol eu hymddygiad yn llwyr. Mae angen i ni hefyd sicrhau bod gan bob gweithiwr proffesiynol y wybodaeth, yr offer a'r arweiniad i ymyrryd yn gynharach i amddiffyn dioddefwyr cyn i gam-drin waethygu, ac os yw'n bosibl, adsefydlu troseddwyr i atal aildroseddu.

Yn olaf, mae angen i ni sicrhau nad yw'r ymateb a roddir i ddioddefwyr, na'r camau a gymerir i gosbi ac adsefydlu troseddwyr, yn fater o loteri cod post. Rydym yn gwybod bod rhai ardaloedd eisoes wedi cyflwyno rhaglenni arloesol ac effeithiol i gefnogi dioddefwyr a'u teuluoedd ac i atal cam-drin domestig rhag digwydd, ond rydym yn gwybod nad yw'r dulliau hyn yn cael eu defnyddio'n ddigon eang. Ein huchelgais yw bod pob ardal yn codi at lefel y gorau, a bod gwasanaethau'n diwygio'n bellach ac yn gyflymach i ddiwallu anghenion pobl sy'n profi cam-drin a thrais.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn am nifer o fesurau penodol a amlinellwyd gennym yn Araith y Frenhines, yn ogystal â barn am gamau eraill y gallwn eu cymryd mewn deddfwriaeth cam-drin domestig yn y dyfodol. Ond rydym hefyd yn cydnabod yn llawn y bydd angen mwy na deddfau newydd i helpu dioddefwyr a goroeswyr i ailadeiladu eu bywydau a brwydro yn erbyn y niwed llechwraidd hwn. Felly, mae'r ymgynghoriad hefyd yn amlinellu'r camau y gallwn eu cymryd i godi ymwybyddiaeth, i gefnogi dioddefwyr, ac i sicrhau bod drwgweithredwyr yn cael eu hatal, ac mae'n ceisio barn am y camau hyn.

Rydym am i'r ymgynghoriad hwn ysgogi sgwrs genedlaethol am sut i ymdrin â cham-drin domestig a'i atal. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â sefydliadau cefnogi sy'n

gwneud gwaith rhagorol i gefnogi dioddefwyr, a byddwn yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ledled y wlad i glywed cynifer â phosibl o safbwyntiau a phrofiadau.

Rydym yn obeithiol y gallwn, drwy gydweithio, wneud mwy i atal cam-drin domestig ac amddiffyn a chefnogi'r dioddefwyr.

Y Gwir Anrhydeddus Amber Rudd AS

Y Gwir Anrhydeddus David Gauke AS

Ysgrifennydd Cartref

Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd
Gwladol dros Gyfiawnder

Rhagarweiniad

Mae'r papur hwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ynglŷn â dulliau'r llywodraeth o ymdrin â cham-drin domestig. Ei fwriad yw rhoi sylw i gam-drin domestig ar bob cam o atal hyd at adsefydlu. Mae'n cyfeirio at gysylltiadau a darpariaethau asiantaethau ac adrannau traws-sector ac yn atgyfnerthu nod y llywodraeth o **wneud cam-drin domestig yn fusnes pawb**.

Ein nod wrth ymgynghori yw harneisio gwybodaeth ac arbenigedd dioddefwyr a goroeswyr, sefydliadau cefnogi ac arbenigwyr ymchwil. Mae gennym ddiddordeb hefyd ym marn gweithwyr proffesiynol ar draws plismona, cyfiawnder troseddol, iechyd, lles, addysg ac awdurdodau lleol sy'n ymdrin â'r materion hyn bob dydd.

Ein prif nod drwy'r gwaith hwn yw **atal cam-drin domestig** drwy herio derbynioldeb cam-drin ac unioni'r agweddau a'r normau sylfaenol sy'n caniatáu iddo barhau. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn cwestiynau o dan bedair prif thema sydd i gyd yn cynnwys y nod canolog o atal:

- **hybu ymwybyddiaeth** – sicrhau bod cam-drin domestig ar ben agenda pawb, a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol
- **amddiffyn a chefnogi** – gofalu bod dioddefwyr yn fwy diogel ac yn cael gwell cefnogaeth
- **ymlid a rhwystro** – darparu ymateb effeithiol i ddrwgweithredwyr o'r ymateb asiantaeth cychwynnol hyd at euogfarnu a rheoli troseddwyr, gan gynnwys adsefydlu
- **gwella perfformiad** – hybu cysondeb a gwell perfformiad yn yr ymateb i gam-drin domestig ar draws pob ardal leol, pob asiantaeth a phob sector

Ar gyfer pob un o'r themâu hyn, byddwn yn amlinellu'r sefyllfa bresennol ac yn nodi unrhyw feysydd lle'r ydym yn meddwl y gallem wneud mwy. Bydd y meysydd hyn ar wahanol gamau datblygu, a bydd y cwestiynau cyfatebol yn adlewyrchu hyn. Mewn rhai achosion, byddwn yn gofyn am adborth am gynigion penodol, ac mewn eraill efallai y byddwn yn gofyn am dystiolaeth neu brofiadau er mwyn gallu deall y broblem yn well.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys rhai pynciau sy'n gymhleth a/neu yn dechnegol. **Nid ydym yn disgwyl i bob ateb ydd ateb pob cwestiwn; rydym yn gofyn i chi ateb y cwestiynau sy'n berthnasol i'ch profiad neu eich arbenigedd chi yn unig.**

Bydd papur ymgynghori Saesneg ar gael yn consult.justice.gov.uk/homeoffice-moj/domestic-abuse-consultation

Cefndir

Cynnydd hyd yn hyn

Ers 2010, mae'r llywodraeth wedi rhoi blaenoriaeth lwyr i ymdrin â cham-drin domestig. Rydym wedi cydweithio'n agos â phartneriaid i gyflwyno mesurau sy'n ymateb i sbardunau sylfaenol cam-drin domestig, yn rhoi sylw i anghenion goroeswyr a dioddefwyr, ac yn sicrhau bod drwgweithredwyr yn wynebu cyfiawnder.

Yn y cyfnod deg mlynedd rhwng 2007/08 a 2016/17, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi nodi bod nifer yr euogfarnau a sicrhawyd am droseddau'n ymwneud â cham-drin domestig wedi cynyddu 61% i 70,853 y flwyddyn.¹ Cyflawnwyd hyn drwy flaenoriaethu erlyn achosion cam-drin domestig a darparu arweiniad, hyfforddiant a chymorth cynhwysfawr i erlynwyr ledled Cymru a Lloegr.

Rydym wedi gwrandao ar weithwyr proffesiynol yn dweud wrthym nad trais corfforol oedd unig nodwedd y cam-drin hwn, a bod dioddefwyr cam-drin domestig yn aml yn cael eu cam-drin yn fwy cyffredinol drwy reolaeth a gorfodaeth ym mhob agwedd ar eu bywyd. Fel ymateb, cyflwynwyd trosedd newydd o ymddygiad gorfodi neu reoli mewn perthynas â phartner agos neu aelod teulu o dan Ddeddf Troseddau Difrifol 2015. Ers cyflwyno'r trosedd, mae cyhuddiadau a gwrandawriadau cyntaf wedi digwydd ar gyfer dros 300 o droseddau.² Mae'r ddeddfwriaeth arloesol hon yn anfon neges glir na ddylai pobl dorri ymddiriedaeth y bobl agosaf atynt, ac yn darparu gwell amddiffyniad i ddiodeswyr sydd wedi'u dal mewn cylchoedd o gam-drin treisgar a di-drais.

Rydym hefyd yn gweithio i wella'r gefnogaeth i bobl sy'n dioddef oherwydd cam-drin domestig yn y system cyfiawnder teulu drwy ei gwneud yn haws iddynt gael cymorth cyfreithiol, darparu mwy o amddiffyniadau ffisegol mewn llysoedd lle bo'n bosibl, a diweddarau hyfforddiant staff y llysoedd. Yn ddiweddar, daeth canllawiau newydd i rym ar gyfer barnwyr sy'n ymdrin ag achosion trefniadau plant lle mae cam-drin domestig yn ffactor. Mae'r rhain yn defnyddio diffiniad ehangach o gam-drin domestig nag o'r blaen ac yn pwysleisio'r niwed difrifol a hirdymor y mae cam-drin domestig yn ei achosi i blant.

Mae Adolygiadau Dynladdiadau Domestig wedi cael sail statudol fel bod ardaloedd lleol ac asiantaethau'n gallu dysgu'r gwersi gofynnol er mwyn helpu i atal llofruddiaethau yn y dyfodol. Rydym wedi cyflwyno Deddf Clare (y Cynllun Datgelu Trais Domestig) sy'n caniatáu i unrhyw un ofyn a oes gan eu partner hanes treisgar ac sy'n helpu'r heddlu i ddarparu gwybodaeth os ydynt wedi canfod risg. Rydym hefyd wedi cyflwyno Gorchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig i roi gwell dewisiadau i'r heddlu a'r llysoedd ar gyfer rheoli ymddygiad niweidiol drwgweithredwyr peryglus.

Rydym wedi dod ag asiantaethau Lloegr at ei gilydd drwy gyflwyno Cyd-arolygiadau Ardal wedi'u Targedu gan y Comisiwn Ansawdd Gofal, Ofsted, Arolygiaeth Cwnstablaieth a Gwasanaethau Tân Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Mae'r arolygiadau

¹ Gwasanaeth Erlyn y Goron (2016-17). Adroddiad trais yn erbyn menywod a genethod, 10^{fed} argraffiad

² Gwasanaeth Erlyn y Goron (2016-17). Adroddiad trais yn erbyn menywod a genethod, 10^{fed} argraffiad

hyn wedi rhoi blaenoriaeth i edrych ar ecsbloetio a cham-drin rhywiol yn erbyn plant ac ar blant sy'n byw ar aelwydydd lle mae cam-drin domestig yn digwydd.

Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant yn hollbwysig i deuluoedd lle mae cam-drin domestig yn digwydd. Mae'r Adran Addysg yn Lloegr yn cyflwyno diwygiadau eang i sicrhau, lle bo cam-drin domestig yn cael effaith ddifrifol, bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Mae hyn yn cynnwys gwella capasiti a gallu'r gweithlu gofal cymdeithasol, creu system gryfach o arferion cenedlaethol, a chryfhau llywodraethu ac atebolrwydd. Un ffocws pwysig i nifer o brosiectau a gefnogir drwy'r Rhaglen Arloesi mewn Gofal Cymdeithasol i Blant gwerth £200 miliwn yw atal niwed a gwella canlyniadau i blant mewn teuluoedd lle mae cam-drin domestig yn digwydd.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu £68 miliwn y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr troseddu yn eu hardaloedd lleol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau sydd wedi'u targedu'n benodol at ddiodefwyr a goroeswyr cam-drin domestig. Defnyddiwyd cyllid ychwanegol gan y llywodraeth i hybu'r gefnogaeth sydd ar gael i ddiodefwyr ac annog arloesi a thrawsnewid ymysg y gweithwyr proffesiynol sydd fwyaf cyfarwydd â'r materion hyn. Mae Cronfa Trawsnewid y Gwasanaeth Trais yn Erbyn Menywod a Genethod yn darparu £17 miliwn i 41 o ardaloedd lleol ledled Cymru a Lloegr i gefnogi diodefwyr a goroeswyr trais yn erbyn menywod a genethod, gan gynnwys trais domestig. Mae'r cyllid hwn yn rhan o ymrwymiad ehangach o £100 miliwn hyd at 2020 i frwydro yn erbyn trais yn erbyn menywod a merched, sy'n cynnwys cronfa ddwy flynedd gwerth £20 miliwn gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i awdurdodau lleol ar gyfer llochesi a gwasanaethau seiliedig ar lety. Mae'r arian hwn yn cefnogi 80 o brosiectau ac yn creu 2,200 o fannau gwely newydd mewn llochesi a mathau eraill o lety arbenigol. Mae £7.5 miliwn arall a ddyfarnwyd drwy Gronfa'r Dreth Tamponau hefyd yn cefnogi elusennau sy'n gweithio gyda diodefwyr a goroeswyr trais yn erbyn menywod a genethod.

Rydym hefyd yn falch o gefnogi dulliau arloesol â ffocws ar ymyrryd cynnar a gwaith partneriaeth. Rydym yn ariannu peilot o fodel 'Un Drws Ffrynt' SafeLives sy'n hybu llifoedd gwybodaeth effeithiol rhwng asiantaethau sy'n gweithio gyda'r un diodefwr, goroeswr, plant neu ddrwgweithredwr. Rydym hefyd yn cefnogi prosiectau eraill, gan gynnwys prosiect 'Gofyn i Mi' Cymorth i Fenywod sy'n hyfforddi llysgenhadon cam-drin domestig i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ac yn gallu cyfeirio pobl sy'n diodef at gefnogaeth, a'r bartneriaeth 'Drive'³ sy'n darparu ymyriadau arbenigol ar gyfer drwgweithredwyr parhaus â risg uchel.

Mae llawer o gynnydd wedi'i wneud o ran ymateb i gam-drin domestig a thrin diodefwyr a goroeswyr. Rydym wedi herio agweddau a gweld newid mawr mewn dealltwriaeth o gam-drin domestig a sut i drin diodefwyr a goroeswyr. Rydym yn gweld gostyngiad hirdymor yn nifer yr achosion o gam-drin domestig (o 8.9% o boblogaeth Cymru a Lloegr yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2005 i 5.9% yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2017⁴) ac rydym yn gwybod bod pobl sy'n diodef ac yna'n riportio trosedd yn fwy tebygol o gael eu cymryd o ddifrif gan yr heddlu⁵ ac o weld y drwgweithredwr yn wynebu

³ <http://driveproject.org.uk/>

⁴ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017). Troseddu yng Nghymru a Lloegr: Tablau atodol blynyddol, Tabl S39

⁵ "Mae agweddau swyddogion rheng flaen wedi dechrau gwella, ynghyd â'u dealltwriaeth o bwysigrwydd rhoi sylw i ddiodefwyr mewn ffordd gefnogol, gan ddangos cydymdeimlad", fel y nodwyd yn HMICFRS (2017). Adroddiad am gynnydd ymateb yr heddlu i gam-drin domestig

cyfiawnder.⁶ Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos cynnydd 20% o ran riportio troseddau'n ymwneud â cham-drin domestig oddi ar y flwyddyn flaenorol; mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dweud bod hyn oherwydd bod yr heddlu'n well am adnabod dioddefwyr ac oherwydd bod arferion cofnodi wedi gwella.⁷ Yn ogystal â thaflu goleuni ar fwy o welliannau sydd eu hangen, mae'r trydydd adroddiad diweddar gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi am gam-drin domestig yn rhoi manylion am welliannau parhaus pellach o ran sut y mae heddluoedd yn ymdrin â'r mater.⁸

Yn fyd-eang, cam-drin domestig yw un o'r mathau mwyaf endemig o drais yn erbyn menywod a genethod. Er enghraifft, mae ymchwil o Dde Sudan yn dangos, hyd yn oed mewn lleoliad lle mae rhyfela'n digwydd, bod menywod a genethod yn wynebu'r risg mwyaf o gam-drin corfforol, rhywiol neu emosiynol yn eu cartrefi eu hunain, dan ddwylo eu partneriaid neu aelodau o'u teuluoedd.⁹ Mae arweinyddiaeth gref gan y Deyrnas Unedig wedi ymestyn ein portffolio o raglenni'n fyd-eang ac wedi gwthio am fwy o weithredu rhyngwladol. Yn hollbwysig, mae'r Deyrnas Unedig yn arwain arloesi a thystiolaeth am yr ymyriadau mwyaf effeithiol i leihau niferoedd yr achosion yn fyd-eang. Mae rhaglen flaenllaw 'Beth sy'n Gweithio' yr Adran Datblygu Rhyngwladol yn datblygu ac yn cyflwyno dulliau arloesol o atal cam-drin ledled Affrica ac Asia. Mae hyn yn cynhyrchu tystiolaeth sy'n ddaioni cyhoeddus byd-eang a fydd yn helpu llywodraethau, rhoddwyr a chymdeithas sifil ym mhob man i wella eu hymdrechion i atal cam-drin domestig.

Mwy i'w wneud

Rydym yn falch o'r cynnydd hwn. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy. Mae cam-drin domestig yn dal i ddigwydd yn aml yn ein cymdeithas. Er bod nifer yr achosion yn gostwng yn hirdymor, mae amcangyfrif o 2 filiwn o oedolion yn dweud eu bod yn dioddef cam-drin domestig¹⁰ ac, yn dorcalonnus, cafodd 82 o fenywod a 13 o ddynion eu lladd gan bartner neu gyn-bartner yn 2016/17.¹¹ Er bod niferoedd y troseddau sy'n cael eu riportio i'r heddlu ar gynnydd¹², mae nifer yr achosion sy'n cael eu cyfeirio i Wasanaeth Erlyn y Goron wedi gostwng yn ddiweddar¹³ a dim ond un o bob pump o ddiodefwyr sy'n siarad â'r heddlu yn y lle cyntaf o hyd.¹⁴

⁶ Mae'r gyfradd euogfarnau yn 2016-17 yn 75.7% - y gyfradd uchaf i gael ei chofnodi erioed; dylid gweld hyn ochr yn ochr â gostyngiad yn nifer yr euogfarnau. Gwasanaeth Erlyn y Goron (2016-17). Adroddiad trais yn erbyn menywod a genethod, 10^{fed} argraffiad

⁷ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017). Troseddu yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn hyd at fis Medi 2017

⁸ HMICFRS (2017). Adroddiad am gynnydd ymateb yr heddlu i gam-drin domestig

⁹ Pwyllgor Achub Rhyngwladol (2017). Dim lle diogel. Oes o drais i fenywod a merched yn rhyfel De Sudan

¹⁰ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017). Cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn hyd at fis Mawrth 2017

¹¹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017). Tablau Atodiad – Ffocws ar Droseddu Treisgar a Throseddau Rhywiol, Tabl 2.05

¹² Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017). Cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn hyd at fis Mawrth 2017

¹³ Gwasanaeth Erlyn y Goron (2016-17). Adroddiad trais yn erbyn menywod a genethod, 10^{fed} argraffiad

¹⁴ Troseddu yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn hyd at fis Medi 2015 Crynodeb: Trais a cham-drin yn erbyn partneriaid personol agos, Tabl 4.28

Rydym yn gwybod bod cam-drin domestig yn cael effaith gronig ar blant a'u dyfodol, ac mae gennym dystiolaeth i ategu hyn. Yn frawychus, canfu ymchwil gan yr NSPCC fod tuag un rhan o bump o'r bobl a gyfwelwyd ganddynt wedi dod i gysylltiad â cham-drin domestig yn ystod eu plentyndod.¹⁵ Mae astudiaeth gan SafeLives yn awgrymu bod 52% o'r plant sy'n dyst i gam-drin domestig wedi cael problemau ymddygiad a phroblemau â datblygiad cymdeithasol a pherthynas, bod 39% wedi cael anhawster i addasu yn yr ysgol, a bod 25% yn dangos ymddygiad ymosodol pan nad oeddent yn cael eu cam-drin mwyach.¹⁶ Mae'r dystiolaeth yn dangos bod oedolion sydd wedi bod yn dyst i gam-drin domestig fel plentyn yn eu cartref yn llawer mwy tebygol o brofi cam-drin gan bartner fel oedolyn (34% o gymharu ag 11% nad oeddent wedi bod yn dyst i gam-drin domestig).¹⁷ Mae cam-drin domestig yn cael ei nodi fel ffactor sy'n effeithio ar hanner y plant mewn angen a asesir gan wasanaethau gofal cymdeithasol i blant.¹⁸ Ac mae canfyddiadau diweddar o ddata *Insight* SafeLives yn datgelu bod dau o bob pum plentyn (41%) mewn teuluoedd lle mae cam-drin domestig yn digwydd wedi bod yn byw gyda'r cam-drin hwnnw ers cyn iddynt gael eu geni.¹⁹

Mae ymchwil gan Sylvia Walby a Philippa Olive wedi amcangyfrif, yn 2012, bod cyfanswm cost trais seiliedig ar rywedd i ddioddefwyr ac i gymdeithas yn y Deyrnas Unedig oddeutu £26 biliwn y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys amcangyfrif o gost o £3.4 biliwn i'r economi, oherwydd absenoldebau o'r gwaith o ganlyniad i anaf.²⁰ Mae'n debygol bod goblygiadau anffafriol ychwanegol i berfformiad gwaith hefyd.

Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd y Prif Weinidog raglen waith newydd i arwain tuag at Fil Cam-drin Domestig drafft i drawsnewid y ffordd yr ydym yn meddwl am gam-drin domestig ac yn ymateb iddo. Cadarnhawyd yr ymrwymiad hwnnw yn Araith y Frenhines, a ymrwymodd i gyflwyno bil drafft sy'n cynnig:

- cynnwys diffiniad o gam-drin domestig yn y gyfraith
- cyflwyno gorchymyn amddiffyn newydd i amddiffyn dioddefwyr rhag eu camdrinwyr yn well
- cydnabod y niwed y mae cam-drin domestig yn ei wneud i blentyn
- creu Comisiynydd Cam-drin Domestig yn y gyfraith
- dangos ein hymrwymiad i gadarnhau Confensiwn Istanbul drwy ymestyn awdurdodaeth alltiriogaethol dros droseddau'n ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod a Genethod

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn am sut i gyflawni'r ymrwymadau hyn a mynd yn bellach.

¹⁵ Radford L ac eraill (2011). Cam-drin ac esgeuluso plant yn y DU heddiw

¹⁶ SafeLives (CAADA gynt) Adroddiad Polisi (2014). *In Plain Sight*: Cymorth effeithiol i blant sy'n dod i gysylltiad â cham-drin domestig

¹⁷ <https://visual.ons.gov.uk/people-who-were-abused-as-children-are-more-likely-to-be-abused-as-an-adult/>

¹⁸ Adran Addysg (2017). Nodweddion plant mewn angen: 2016-2017, Tabl C3

¹⁹ Briff Cenedlaethol *Insight* SafeLives. Ar gael yn: <http://www.safelives.org.uk/sites/default/files/resources/Insights%20National%20Dataset%20Briefing%202017%20-%20children.pdf>

²⁰ Sefydliad Cydraddoldeb Rhywiol Ewrop (2014). Amcangyfrif costau trais ar sail rhywedd yn yr Undeb Ewropeaidd. Ar gael yn: <http://eige.europa.eu/rdc/eige-publications/estimating-costs-gender-based-violence-european-union-report>

Y cyd-destun ehangach

Rydym yn gwybod bod cam-drin domestig yn cael effaith anghymesur ar y rhywiau, ac rydym wedi fframio ein hymgyngghoriad i gydnabod hyn. Yn yr un modd, dyna pam mae ein hymagwedd tuag at ymdrin â cham-drin domestig yn dal i fod o fewn cyd-destun Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Genethod ehangach. Menywod yw'r rhan fwyaf o ddiodefwyr cam-drin domestig, ac mae dynion yn llawer mwy tebygol o fod yn ddrwgweithredwyr.²¹ Mae hyn yn arbennig o wir wrth edrych ar y troseddau mwyaf difrifol, fel sydd i'w weld ym mhroffil y diodefwyr a drafodwyd mewn Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg - dim ond yr achosion mwyaf difrifol o gam-drin domestig sy'n cael sylw yma. Yn ôl amcangyfrifon SafeLives, yn 2016/17, benywod oedd y diodefwyr mewn 95% o'r achosion.²² Mae data am ddyndladdiadau domestig yn dangos mai menywod yn cael eu lladd gan ddynion yw'r rhan fwyaf o ddiodefwyr. Rhwng mis Mawrth 2014 a mis Mawrth 2016, lladdwyd 242 o fenywod gan bartner/cyn-bartner gwrywol a lladdwyd un gan bartner/cyn-bartner benywol. Yn yr un cyfnod, lladdwyd 72 o ddynion – 32 gan bartner/cyn-bartner gwrywol a 40 gan bartner/cyn-bartner benywol.²³

Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod dynion hefyd yn dioddef cam-drin domestig, ac mae'r dystiolaeth uchod yn dangos bod hyn yn cynnwys y math mwyaf treisgar o gam-drin. Ein nod yw bod pob diodefwr a goroeswr yn elwa ar y mesurau a gyflwynir ar ôl yr ymgynghoriad hwn, felly rydym yn annog safbwyntiau pob diodefwr a goroeswr: menywod, dynion a phobl sy'n nodi eu bod yn anneauidd.

Rydym hefyd yn cydnabod y cysylltiadau agos rhwng cam-drin domestig a throseddau eraill megis cam-drin rhywiol, stelcio, trais 'ar sail anrhydedd' fel y'i gelwir, priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywol. Er enghraifft, mae tystiolaeth o dros hanner (57%) yr ymosodiadau rhywiol difrifol ar fenywod 16 oed a hwn yn dangos bod y troseddwr yn bartner neu'n gyn-bartner mewn o leiaf un digwyddiad. Yn y cyfamser, roedd 24% o fenywod sy'n dioddef cam-drin domestig dan ddwylo partner neu gyn-bartner yn fwy tebygol o fod wedi cael eu stelcio.²⁴ Byddwn yn diweddarau ein cynllun i ymdrin â sbectrwm llawn troseddau trais yn erbyn menywod a genethod, gan gynnwys darpariaethau newydd i ymdrin â cham-drin domestig, mewn strategaeth newydd eleni a drwy gryfhau'r cysylltiadau ag unrhyw strategaethau cysylltiedig eraill sy'n bodoli ar draws y llywodraeth.

Rydym hefyd yn cydnabod bod cysylltiad yn aml rhwng anghenion cymhleth a cham-drin domestig, er enghraifft camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, troseddu, salwch meddwl a thlodi. Byddwn yn ceisio sicrhau, lle nad ydym eisoes wedi gwneud hynny, bod ein gwaith yn y meysydd hynny'n cynrychioli cam-drin domestig.

Rydym yn benderfynol o ddefnyddio'r cyfle hwn i adeiladu momentwm a sbarduno diwygio pellach mewn ffordd a fydd yn gwneud gwahaniaeth parhaus go iawn i ddiodefwyr a goroeswyr a'u plant. Diolch am gymryd yr amser i gwblhau'r ymgynghoriad hwn. Drwy wneud hyn, rydych yn gwneud cyfraniad pwysig at sicrhau bod y rhaglen waith hon yn llwyddiant.

²¹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017). Cam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr; Gwasanaeth Erllyn y Goron (2016-17). Adroddiad trais yn erbyn menywod a genethod, 10^{fed} argraffiad

²² SafeLives (2017). Data diweddaraf Marac. Ar gael yn: <http://www.safelives.org.uk/practice-support/resources-marac-meetings/latest-marac-data>

²³ Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017) Cam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn hyd at fis Mawrth 2017. Tabl Atodiad 14

²⁴ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016). Trais a Cham-drin yn erbyn Partneriaid Personol Agos

Y gweinyddiaethau datganoledig

Mae'r rhan fwyaf o'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn berthnasol i Loegr neu i Gymru a Lloegr yn unig, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau iechyd sy'n faterion datganoledig yng Nghymru. Wrth i ni fwrw ymlaen â'r pecyn hwn o gynigion deddfwriaethol ac anneddfwriaethol, byddwn yn parhau i'w trafod â Llywodraeth Cymru. Yn y ffordd arferol, bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ceisio cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer unrhyw fesurau deddfwriaethol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu a allai effeithio arno.

Mae'r rhan fwyaf o'r materion sy'n cael sylw yn yr ymgynghoriad hwn wedi'u datganoli i Senedd yr Alban, sydd wrthi'n ystyried y Bil Cam-drin Domestig (Yr Alban), ac i Gynulliad Gogledd Iwerddon. Serch hynny, gwahoddir ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gan unigolion a sefydliadau ledled y Deyrnas Unedig. Byddwn yn parhau i drafod â Llywodraeth yr Alban ac Adran Cyfiawnder Gogledd Iwerddon a ddylai unrhyw fesurau deddfwriaethol hefyd fod yn berthnasol i'r Alban a Gogledd Iwerddon yn ôl eu trefn, yn amodol ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol lle bo'n briodol.

Pennod 1: Hybu Ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig

"Rydym am sicrhau bod asiantaethau statudol, a'r cyhoedd yn gyffredinol, yn deall cam-drin domestig yn iawn, yn ei ystyried yn annerbyniol, ac yn mynd ati i'w herio"

Rydym yn ceisio safbwyntiau ynglŷn â sut i gyflawni hyn. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym:

- yn cynnig cyflwyno diffiniad statudol newydd o gam-drin domestig (t.12), sy'n cynnwys cam-drin economaidd fel un enghraifft o fath o brofiad dioddefwr
- yn amlinellu ymdrechion i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobl ifanc o berthynas iach ac yn gofyn sut y gallwn sicrhau addysg rhyw a pherthynas o safon uchel (t.17)
- yn canolbwyntio ar wella gallu sefydliadau ac unigolion i adnabod cam-drin domestig ac ymateb iddo (t.18)

1A: Cyflwyno diffiniad statudol newydd o gam-drin domestig

Mae cam-drin domestig yn faes cymhleth; yn aml, bydd asiantaethau, teuluoedd a ffrindiau a hyd yn oed y dioddefwyr eu hunain yn ei gamddeall ac yn methu â sylwi arno neu'n methu â'i adnabod. Mae llawer o chwedlau a stereoteipiau o gwmpas cam-drin domestig sy'n gallu golygu bod dioddefwyr yn cael ymateb negyddol, a chynghor gwael sy'n gallu gwneud y dioddef yn waeth. Er mwyn trawsnewid ein hymateb i gam-drin domestig, yn gyntaf mae angen i ni sicrhau ein bod yn deall y mater yn iawn.

Un stereoteip o gam-drin domestig yw drwgweithredwr meddw sy'n "colli rheolaeth" ac yn ymosod ar bartner. Er bod tystiolaeth o gysylltiad rhwng alcohol a cham-drin domestig²⁵ mae'r cyflwyniad hwn yn rhy syml ac nid yw'n adlewyrchu realiti cymhleth a phrofiad byw y dioddefwyr na'r ystod o wahanol fathau o berthynas lle gall cam-drin domestig ddigwydd.

*'Dydw i ddim yn meddwl y byddwn i wedi cyfaddef ei bod hi'n sefyllfa o gam-drin domestig. Roeddwn i'n meddwl mai fy nghyn-gariad oedd yn ddyn cas. Aeth yr IDVA yn yr ysbyty drwy un o'i holiaduron ac roeddwn i bron iawn â bod yn risg uchel.'*²⁶

Nid dim ond rhwng cyplau y mae cam-drin domestig yn digwydd – mae hefyd yn gallu cynnwys aelodau eraill o'r teulu, megis cam-drin rhiant gan blentyn sydd yn y glasoed neu'n oedolyn. Mae ystadegau'r Mynegai Dynladdiadau yn dangos, rhwng diwedd mis Mawrth 2014 a diwedd mis Mawrth 2016, bod 13 achos o unigolion yn lladd rhiant.²⁷ Mae cam-drin domestig hefyd yn gallu cynnwys cam-drin rhwng brodyr a chwiorydd hwn, neu'r teulu estynedig ehangach. Mae'r cam-drin hwn yn gallu bod wedi'i gyfeirio mewn modd trefnus a chydgyllwyniol gyda'r bwriad o arwahanu'r dioddefwr yn llwyr.

²⁵ Mewn un o bob tri digwyddiad trais domestig, roedd y dioddefwr yn credu bod y troseddwr dan ddylanwad alcohol. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016). Ffocws ar droseddau treisgar a throeddau rhywiol, Cymru a Lloegr: blwyddyn hyd at fis Mawrth 2016, Tabl 3.10 <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/compendium/focusonviolentcrimeandsexualoffences/yearendingmarch2016/relateddata>

²⁶ SafeLives (2016). *A Cry for Health* http://www.safelives.org.uk/sites/default/files/resources/SAFJ4993_Themis_report_WEBcorrect.pdf

²⁷ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017). Cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn hyd at fis Mawrth 2017, Tabl 1

“Fy ngŵr ddechreuodd y cam-drin corfforol, a dilynodd aelodau eraill y teulu yn fuan wedyn. Dechreuodd ei deulu ef roi anrhegion drud i'r plant, a dechreuodd fy mhlant droi yn fy erbyn i... O'r diwrnod cyntaf, fy mam yng nghyfraith, fy nhad yng nghyfraith, fy chwiorydd a'm brodyr yng nghyfraith, ac yna fy ngŵr ac nawr y plant hefyd. Beth oeddwn i'n mynd i'w wneud?”²⁸

Mae llawer o fathau o ymddygiad sy'n gallu ymddangos fel rhan o gam-drin domestig gan gynnwys dylanwadu, arwahanu, rheoli a defnyddio bygythiadau a chywilydd sy'n niweidio, yn dychryn neu'n cosbi dioddefwr. Mae disgrifiadau syml yn aml yn methu â chydabod dynameg puer a rheolaeth sy'n bresennol mewn llawer o berthnasoedd camdriniol, y risg y mae'r rheolaeth yn ei achosi i ddiogelwch y dioddefwr ac ymreolaeth a chyfrifoldeb y drwgweithredwr. Canfu ymchwil gan Jane Monckton Smith fod rheolaeth yn nodwedd allweddol mewn 92% o lofruddiaethau domestig, obsesiwn mewn 94%, ac arwahanu oddi wrth deulu a ffrindiau mewn 78%.²⁹

“Roedd hi'n rheoli pwy oedd fy ffrindiau ac yn rheoli fy nghyswllt â'm teulu. Byddai hyn yn cynnwys mewngofnodi i fy e-bost ac anfon e-bost at fy nheulu gan esgus bod yn fi.”³⁰

Rydym am sicrhau bod pobl yn deall cam-drin domestig yn iawn, a dyna pam yr ydym wedi ymrwmo i gyflwyno diffiniad statudol o gam-drin domestig. Y nod fydd cadarnhau diffiniad presennol y llywodraeth o gam-drin domestig a chysylltu â rhai o'r pwerau eraill y gellid eu cynnwys yn y bil drafft. Nid ydym yn bwriadu i'r diffiniad hwn ddisodli pob diffiniad arall sy'n bodoli yn awtomatig, na bod yn berthnasol i ddarpariaethau deddfwriaethol eraill sydd eisoes wedi'u nodi mewn statud. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried achosion lle gallai hynny fod yn briodol.

Rydym yn cynnig defnyddio'r diffiniad trawslywodraethol presennol fel sail i'r diffiniad statudol newydd. Yn unol â'r diffiniad presennol:

- **ni fyddai wedi'i gyfyngu i fenywod a genethod, a byddai'n cydnabod bod cam-drin yn digwydd ym mhob math o berthynas** h.y. partneriaid agos a theulu
 - bydd hyn yn sicrhau bod pob dioddefwr a phob math o gam-drin domestig yn cael sylw digonol ac na chaiff dim dioddefwyr eu heithrio ar ddamwain rhag amddiffyniad na rhag gallu manteisio ar wasanaethau
- **byddai'n cynnwys achosion unigol a phatrymau ymddygiad**
 - er bod y llywodraeth yn cydnabod bod cam-drin domestig bron bob amser yn rhan o batrwm o ymddygiad parhaus³¹, gallai cyfyngu'r diffiniad i batrymau o gam-drin yn unig beri risg o atal yr heddlu a gwasanaethau cyhoeddus rhag amddiffyn pobl mewn achosion sy'n ymddangos fel achosion untro

²⁸ SafeLives (2017). Eich Dewis Chi: trais ar sail 'anrhydedd', priodas dan orfod a cham-drin domestig, heb ei gyhoeddi

²⁹ Monckton-Smith, Jane a Szymanska, Karolina a Haile, Sue (2017) *Exploring the Relationship between Stalking and Homicide*

³⁰ Bates, E. (2017). *Hidden Victims: Men and their Experience of Domestic Violence*. Ar gael yn: <http://insight.cumbria.ac.uk/id/eprint/3463/>

³¹ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/482528/Controlling_or_coercive_behaviour_-_statutory_guidance.pdf

Fodd bynnag, yn wahanol i'r diffiniad presennol:

- **byddai'n cynnwys cysyniad 'cam-drin economaidd' yn hytrach na dim ond cam-drin ariannol**
 - er bod diffiniad anstatudol presennol y llywodraeth o gam-drin domestig eisoes yn cydnabod cam-drin ariannol, rydym yn ymwybodol bod hyn yn gallu bod yn gyfyngol dan amgylchiadau lle gwrthodir adnoddau sylfaenol i ddiodefwr megis bwyd, dillad a chludiant. Hefyd, efallai y bydd y drwgweithredwr yn gorfodi diodefwr i gymryd benthyciadau neu gontractau ariannol eraill. Felly, hoffem ddefnyddio dulliau mwy eang i roi sylw i'r holl fathau hyn o gam-drin
- **câi ei gyflwyno gyda chanllawiau statudol ategol i weithwyr proffesiynol ag ymrwymadau diogelu**
 - byddai hyn yn rhoi mwy o fanylion am deipoleg a manylion cam-drin domestig; yn nodi o dan ba amgylchiadau y byddem yn disgwyl i'r diffiniad gael ei ddefnyddio; ac yn ymhelaethu ac yn rhoi cyd-destun ar gyfer, er enghraifft, y cysylltiad rhwng cam-drin domestig a'r rhywiau a nodweddion perthynas gamdriniol

Felly, byddai'r diffiniad statudol arfaethedig yn diffinio cam-drin domestig fel a ganlyn:

Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad rheoli, gorfodi, bygwth, trais neu gam-drin rhwng pobl 16 oed a hŷn sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid agos neu'n aelodau teulu, beth bynnag yw eu rhywedd neu eu cyfeiriadedd rhywiol. Dyma rai o'r mathau o gam-drin sydd wedi'u cynnwys:

- *seicolegol*
- *corfforol*
- *rhywiol*
- *economaidd*
- *emosiynol*

Ymddygiad rheoli

Mae ymddygiad rheoli yn golygu amrywiaeth o weithredoedd â'r bwriad o wneud rhywun yn ddarostyngol a/neu yn ddibynnol drwy eu harwahanu oddi wrth ffynonellau cefnogaeth, ecsbloetio ar eu hadnoddau a'u galluoedd er budd personol, gwrthod y modd sydd ei angen arnynt i fod yn annibynnol neu i wrthsefyll a dianc a rheoleiddio eu hymddygiad bob dydd.

Ymddygiad gorfodi

Ymddygiad gorfodi yw gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosod, bygwth, cywilyddio a brawychu neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn y diodefwr.

1. Cwestiwn: A ydych yn cytuno â'r ffordd o gyflwyno'r diffiniad statudol arfaethedig?

Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
Cytuno	<input type="checkbox"/>
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
Anghytuno	<input type="checkbox"/>
Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
Rhowch resymau [testun rhydd]	<input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

[Cwestiwn 2 i sefydliadau yn unig]

2. Cwestiwn: A fydd y diffiniad newydd yn newid yr hyn y mae eich sefydliad yn ei wneud?

Bydd, mewn ffordd gadarnhaol	<input type="checkbox"/>
Esboniwch sut? (testun rhydd) <input type="text"/>	
Bydd, mewn ffordd negyddol	<input type="checkbox"/>
Esboniwch sut? (testun rhydd) <input type="text"/>	
Na, ni fydd yn newid	<input type="checkbox"/>
Esboniwch sut? (Testun rhydd) <input type="text"/>	
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

3. Cwestiwn: Sut y gallwn sicrhau bod y diffiniad wedi'i gynnwys mewn arferion ar y rheng flaen?

Testun rhydd

Yn 2012, ymgynghorodd y Llywodraeth am y diffiniad o gam-drin domestig, a chafodd ei ehangu i gynnwys pobl ifanc 16 i 17 mlwydd oed. Hoffem adolygu'r penderfyniad hwnnw er mwyn asesu ei effaith.³²

4. Cwestiwn: Pa effaith a gafodd y newidiadau i'r terfyn oedran yn y diffiniad o gam-drin domestig yn 2012, yn eich tyb chi? Dewiswch un.

Cadarnhaol lawn	<input type="checkbox"/>
Cadarnhaol	<input type="checkbox"/>
Dim	<input type="checkbox"/>
Negyddol	<input type="checkbox"/>
Negyddol lawn	<input type="checkbox"/>
Rhowch resymau [testun rhydd]	<input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

Rydym yn cydnabod y bydd gwahanol gyfuniadau o amrediadau oedran o fewn perthynas lle bydd cam-drin domestig yn digwydd. Rydym hefyd yn cydnabod bod plant o dan 16 yn gallu bod yn ddiodefwr cam-drin domestig naill ai yn eu perthynas eu hunain neu o ganlyniad i gam-drin yn y cartref. Mae'r llywodraeth wedi cynnal ystod o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth o'r cam-drin hwn, gan gynnwys yr ymgyrch Cam-drin mewn Perthynas yn yr Ardegau.³³ Yn y dyfodol, rydym yn pryderu y gallai cynnwys plant o dan 16 yn y diffiniad statudol o gam-drin gymylu'r llinellau rhwng beth i'w ystyried yn gam-drin domestig neu'n gam-drin plant, ac amharu ar gyflawni gweithdrefnau amddiffyn a diogelu plant. Felly, rydym yn cynnig cadw'r terfyn oedran presennol.

³² <https://www.gov.uk/government/consultations/cross-government-definition-of-domestic-violence-consultation>

³³ <https://www.gov.uk/government/publications/teenage-relationship-abuse-campaign-posters>

5. Cwestiwn: Rydym yn cynnig cadw'r terfyn oedran presennol o 16 mlwydd oed yn y diffiniad statudol – a ydych yn cytuno â'r syniad hwn? Dewiswch un.

Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
Cytuno	<input type="checkbox"/>
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
Anghytuno	<input type="checkbox"/>
Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
Rhowch resymau [testun rhydd]	<input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

1B: Gwneud cam-drin domestig yn fusnes pawb

Addysgu pobl ifanc ynglŷn â pherthynas

Fel y mae ein strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Genethod yn ei amlinellu, atal ac ymyrryd cynnar yw sylfaen ein hymagwedd tuag at ymdrin â thrais o hyd, a byddwn yn defnyddio'r un egwyddor ar gyfer cam-drin domestig yn fwy cyffredinol. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i ni herio derbynioldeb trais ac ymddygiad camdriniol ac unioni normau rhywedd sylfaenol.

"I fod yn onest, doeddwn i byth yn gwybod bod yna wasanaethau sy'n gallu eich cefnogi chi a helpu pobl yn fy sefyllfa. Oherwydd i ni, i mi, mae fel rhywbeth normal: rydw i wedi gweld fy nain, fy modrybedd, fy mam yn mynd drwy hynny i gyd... mae pobl yn meddwl mai fel yna mae pethau, fel yna mae hi i fod. Dydyn nhw ddim yn gwybod bod yna sefydliadau neu bobl sy'n gallu fy helpu."³⁴

"Am wn i, er fy mod i'n gwybod yr arwyddion ar ôl gweld fy mam yn cael ei cham-drin, roedd yr arwyddion yn wahanol i mi ac yn bwysicach doeddwn i ddim yn meddwl y byddai'n digwydd i mi."³⁵

Rydym yn cydnabod, os ydym wir am unioni agweddau, bod angen i ni ymgysylltu â phobl ifanc mor gynnar â phosibl. Mae gormod o bobl ifanc yn gweld cam-drin domestig yn eu cartrefi ac mae hyn yn gallu effeithio ar eu hymddygiad a'u perthnasoedd.

Astudiaeth achos: Ymgyrch Cam-drin mewn Perthynas yn yr Arddegau

Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi darparu £3 miliwn i'r ymgyrch cam-drin mewn perthynas yn yr arddegau 'Disrespect NoBody', gyda'r bwriad o addysgu pobl ifanc yn eu harddegau am wahanol fathau o ymddygiad camdriniol.³⁶ Mae'r ymgyrch

³⁴ SafeLives (2017). Eich dewis chi: trais ar sail 'anrhydedd', priodas dan orfod a cham-drin domestig. Heb ei gyhoeddi

³⁵ SafeLives (2017). Ffocws ar bobl ifanc a cham-drin domestig. Ar gael yma: <http://www.safelives.org.uk/knowledge-hub/spotlights/spotlight-3-young-people-and-domestic-abuse>

³⁶ <https://www.gov.uk/government/collections/disrespect-nobody-campaign>

Disrespect NoBody yn helpu pobl ifanc i ddeall beth yw perthynas iach, ailfeddwl am eu barn am ymddygiad rheoli, trais, cam-drin, cam-drin rhywiol a beth yw ystyr caniatâd yn eu perthynas. Y bwriad yw eu hatal rhag dechrau cyflawni cam-drin domestig yn oedolion drwy herio agweddau ac ymddygiad ymysg bechgyn a merched yn eu harddegau bod cam-drin mewn perthynas yn dderbyniol. Mae'r ymgyrch yn eu cyfeirio at fannau i gael cymorth a chyngor.

Rydym am helpu pob ysgol i ddarparu Addysg Perthynas, Addysg Perthynas a Rhyw ac Addysg Bersonol, Iechyd ac Economaidd o safon uchel er mwyn paratoi pob person ifanc i gael perthynas iach sy'n llawn parch, ac fel eu bod yn gadael yr ysgol â'r wybodaeth i'w paratoi am fywyd fel oedolion.

*"Wel, yn amlwg i ddechrau yma doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd yn dda a drwg mewn perthynas. ...felly popeth roedd yn arfer ei ddweud wrtho'i roeddwn i'n meddwl 'wel ie, mae hynny'n iawn, mae'n cael dweud hynny'... Ac 'o mae e wedi gwneud hyn', roeddwn i'n meddwl am ein bod ni gyda'n gilydd a phethau fel yna."*³⁷

Mae Deddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017 yn rhoi dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg i gyflwyno rheoliadau i wneud Addysg Perthynas mewn ysgolion cynradd ac Addysg Perthynas a Rhyw mewn ysgolion uwchradd yn orfodol yn Lloegr. Mae'r ddeddf hefyd yn rhoi grym i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud Addysg Bersonol, Iechyd ac Economaidd, neu elfennau arni, yn orfodol yn holl ysgolion Lloegr yn y dyfodol ac yn amodol ar ystyriaeth ofalus.

Mae'r Adran Addysg wedi bod yn cynnal proses ymgysylltu drwyadl ynglwn â chwmpas a chynnwys Addysg Perthynas ac Addysg Perthynas a Rhyw, gan gynnwys ystod eang o bartneriaid â budd. Roedd hyn yn cynnwys galwad gyhoeddus am dystiolaeth, a oedd ar agor rhwng 19 Rhagfyr 2017 a 12 Chwefror 2018. O hyn, byddant yn datblygu'r rheoliadau a'r canllawiau statudol i gyd-fynd â hwy ar gyfer y pynciau hyn, a chynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ynglwn â'r ddau.

6. Cwestiwn: Yn ogystal â'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i addysgu addysg perthynas mewn ysgolion, beth arall y gellir ei wneud i helpu plant a phobl ifanc i ddysgu am berthynas gadarnhaol a'u haddysgu am gam-drin?

Testun rhydd

Riportio cam-drin domestig i asiantaethau statudol

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig ydyw bod asiantaethau statudol a gweithwyr proffesiynol yn deall yn iawn beth yw cam-drin domestig. Heb ddealltwriaeth dda, gall yr ymateb fod yn wael a gall hyn beryglu diogelwch dioddefwyr.

"Roeddwn i'n teimlo dan bwysau i adael fy ngŵr. Fe wnes i ddweud wrthyn nhw mai fy nhŷ i oedd hwn, a doeddwn i ddim eisiau mynd i fflat cyngor ar y llawr gwaelod lle fyddwn i ddim yn teimlo'n ddiogel. Fe wnes i sôn am fy mhroblemau corfforol eraill,

³⁷ SafeLives (2017). Ffocws ar bobl ifanc a cham-drin domestig. Ar gael yma: <http://www.safelives.org.uk/knowledge-hub/spotlights/spotlight-3-young-people-and-domestic-abuse>

*ond doeddwn i ddim yn teimlo eu bod nhw'n gwrando. Roedden nhw eisiau i mi adael.*³⁸

Ym mis Mawrth 2014, pan gyhoeddodd Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi eu hadroddiad cyntaf ar gam-drin domestig, gwelsant wendidau brawychus ac annerbyniol yn ymateb yr heddlu. Roeddent yn bryderus iawn am agweddau rhai heddweision; roedd sylwadau fel “dim ond domestig” yn dangos diffyg dealltwriaeth o'r mater dan sylw ac o'r risg a allai wynebu dioddefwr.³⁹ Yn 2017 nododd yr Arolygiaeth fod gwelliannau wedi'u gwneud i arferion yr heddlu ac er bod gan lawer o heddweision agweddau cadarnhaol, gofalgar ac empathig tuag at ddiodefwyr, bod gan rai agwedd negyddol o hyd tuag at y bobl fwyaf agored i niwed.⁴⁰

Mae llawer o gamau'n cael eu cymryd i wella dealltwriaeth o gam-drin domestig ar draws llawer o asiantaethau statudol. Mae hyn yn cynnwys canllawiau statudol, adnoddau wedi'u targedu a hyfforddiant. Mae dyrnaid o enghreifftiau wedi'u rhestru isod:

Heddlu

Mae'r Coleg Plismona wedi datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer yr heddlu dan y teitl *Domestic Abuse Matters* gyda chymorth gan yr elusen SafeLives. Canfu gwerthusiad gan y Coleg Plismona ei bod wedi cael effaith gadarnhaol ar wybodaeth heddweision am reolaeth orfodol ac agweddau at gam-drin domestig.⁴¹

Tai

Comisiynodd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol hyfforddiant ymwybyddiaeth cam-drin domestig ar gyfer staff rheng flaen opsiynau tai yn awdurdodau lleol Lloegr yn 2016. Cynhaliodd y Gwasanaeth Cenedlaethol Cefnogi Ymarferwyr 14 digwyddiad ar draws naw o ranbarthau Lloegr, gan hyfforddi 232 o staff tai rheng flaen. Diben yr hyfforddiant oedd sicrhau bod swyddogion rheng flaen yn gallu darparu'r gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir i ddiodefwyr cam-drin domestig, gan gyfeirio diodefwyr at y gwasanaethau priodol. Ategwyd yr hyfforddiant gan becyn offer ar-lein.

Gwasanaeth Erllyn y Goron

Mae Gwasanaeth Erllyn y Goron wedi cyhoeddi canllawiau cyfreithiol cynhwysfawr ynglwn â cham-drin domestig i bob erlynydd ledled Cymru a Lloegr.⁴² Ategir hyn gan hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol ar fwrw ymlaen ag erlyniadau gan ddefnyddio ystod lawn o dystiolaeth, a gan gynnal archwiliadau cydymffurfiad eang.

Asiantaethau Iechyd

Ym mis Mawrth 2017, cynhyrchodd Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol llywodraeth y Deyrnas Unedig gyhoeddiad ar-lein 'Ymateb i Gam-drin Domestig – adnodd i weithwyr iechyd proffesiynol'.⁴³ Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol wedi datblygu canllaw poced i gydnabod bod angen i nyrsys, bydwagedd a gweithwyr cefnogi gofal iechyd, a phob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, ddeall effaith cam-drin domestig ar gleifion,

³⁸ SafeLives (2016). *Safe Later Lives: Pobl hwn a cham-drin domestig*

³⁹ HMIC (2014). Busnes pawb: Gwella ymateb yr heddlu i gam-drin domestig

⁴⁰ HMIC (2017). Adroddiad am gynnydd ymateb yr heddlu i gam-drin domestig

⁴¹ http://whatworks.college.police.uk/Research/Documents/Domestic_Abuse_Matters_2.0.pdf

⁴² http://www.cps.gov.uk/legal/d_to_g/domestic_abuse_guidelines_for_prosecutors/

⁴³ <https://www.gov.uk/government/publications/domestic-abuse-a-resource-for-health-professionals>

cleientiaid a chydweithwyr.⁴⁴ Yn yr un modd, mae Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol gydag Adnabod a Chyfeirio i Wella Diogelwch a Safe Lives hefyd wedi cynhyrchu canllawiau i feddygfeydd teulu i'w helpu i ymateb yn effeithiol i gleifion sy'n profi cam-drin domestig, fel y mae'r astudiaeth achos isod yn ei ddangos.⁴⁵

Gweithwyr cymdeithasol

I gydnabod y rhan allweddol y gall gweithwyr cymdeithasol ei chwarae, mae'r llywodraeth yn cyflwyno asesiad cenedlaethol newydd i weithwyr cymdeithasol plant a theuluoedd yn Lloegr. Bydd yr asesiad hwn yn achredu gweithwyr cymdeithasol yn erbyn cyfres o feini prawf sy'n disgrifio sut y mae ymarfer gwaith cymdeithasol effeithiol yn edrych.⁴⁶ Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys cam-drin domestig, ac mae disgwyl i'r asesiad ddechrau yng nghanol 2018.

Cafcass

Mae'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd agored i niwed yn y llysoedd teulu. Maent wedi datblygu offeryn sy'n rhoi fframwaith strwythuredig i ymarferwyr gwaith cymdeithasol wrth asesu achosion llys teulu a allai ymwneud â cham-drin domestig. Datblygwyd yr offeryn i ddwyn ynghyd y ddealltwriaeth bresennol o asesu risg ac effaith byw gyda cham-drin domestig ar blant mewn un fformat y gall ymarferwyr ei ddefnyddio. Mae wedi cael ei gydnabod yn eang fel model arfer gorau.

Canolfan Byd Gwaith

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ymroddedig i gryfhau eu gwaith yn y Ganolfan Byd Gwaith gyda phartneriaid lleol i sicrhau bod pobl ag anghenion cymhleth, gan gynnwys rhai sydd wedi profi cam-drin domestig, yn gallu cael budd-daliadau, yn cael y gefnogaeth a'r gofynion cywir o ran cyflogaeth, ac yn cael eu hatgyfeirio at sefydliadau lleol i roi'r gefnogaeth ehangach sydd ei hangen.

"Gallwn i siarad â'r doctor oherwydd rydw i'n ymddiried ynddo ac mae'n gwybod am y rhan fwyaf o'r pethau sy'n digwydd yn fy mywyd... roedd siarad â'r doctor yn agoriad llygad go iawn".⁴⁷

Astudiaeth achos: Cynllun Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch menywod sy'n profi trais domestig

Mae'r rhaglen hon yn hyfforddi timau ymarfer cyffredinol i adnabod cleifion â phrofiad o drais a cham-drin domestig a chynnig atgyfeiriad at gefnogaeth arbenigol. Dysgir y staff sut i weld yr arwyddion a'r symptomau sy'n awgrymu y gallai fod gan glaf brofiad o drais a cham-drin domestig, sut i ofyn am hyn ac yna roi ymateb priodol a chefnogol. Mae system atgyfeirio syml yn sicrhau bod cleifion sy'n datgelu ac a hoffai gefnogaeth yn cael eu hatgyfeirio at weithiwr arbenigol a enwir, sy'n gysylltiedig â'r feddygfa deulu - Addysgwr Eiriolwr y cynllun. Darperir gwybodaeth gyswllt i gleifion nad ydynt am gael

⁴⁴ <https://www.rcn.org.uk/professional-development/publications/pub-005985>

⁴⁵ http://www.safelives.org.uk/sites/default/files/resources/SafeLives_GP_guidance_manual_STG1_editable_0.pdf

⁴⁶ <https://www.gov.uk/government/publications/knowledge-and-skills-statements-for-child-and-family-social-work>

⁴⁷ SafeLives (2016). Safe Later Lives: Pobl hwn a cham-drin domestig. Ar gael yn: <http://safelives.org.uk/sites/default/files/resources/Safe%20Later%20Lives%20-%20Older%20people%20and%20domestic%20abuse.pdf>

eu hatgyfeirio, ac mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth am linellau cymorth cenedlaethol i ddiodefwyr a drwgweithredwyr gwrywol. Cofnodir y drafodaeth yng nghofnod meddygol y claf.

Dyfyniad gan feddyg teulu a gafodd yr hyfforddiant: "Roeddwn i wedi adnabod un o'r cleifion a ddatgelodd i mi ers 21 mlynedd. Drwy gydol yr amser hwnnw, doedd gen i ddim syniad ei bod hi'n byw gyda gu'r rheolaethol a seicolegol gamdriniol, a bod y cam-drin hwn wedi chwarae rhan allweddol yn ei phroblemau iechyd. Mae menywod yn eu chwedegau a'u saithdegau wedi datgelu i mi hefyd. Mae'r menywod hyn wedi dioddef cyhyd, ond ar ôl cael cynnig y gefnogaeth iawn maen nhw'n gallu gwneud penderfyniadau dewr iawn a newid eu bywydau er gwell."⁴⁸

Rydym yn cydnabod pa mor werthfawr y gall y sector gwirfoddol fod o ran addysgu asiantaethau statudol am gam-drin domestig. Mae swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith yn gweithio'n rheolaidd gydag elusennau lleol ar fentrau cam-drin domestig. Er enghraifft, mae Canolfan Byd Gwaith Essex wedi ffurfio partneriaeth leol â *Safer Places* yn Essex i hyfforddi staff, cefnogi creu rhwydweithiau o eiriolwyr trais domestig a chreu manau diogel i ddiodefwyr ddatgelu ledled y sir. Nod yr hyfforddiant yw paratoi staff i ymateb yn briodol ac yn effeithiol fel y gallant atgyfeirio pobl at wasanaethau priodol.

Astudiaeth achos: Menter J9

Mae'r fenter J9 wedi'i henwi er cof am Janine Mundy, mam i ddau fachgen ifanc a laddwyd gan ei chyn-ur a oedd ar fechnïaeth heddlu. Fe'i sefydlwyd gan heddlu Gwlad yr Haf a Dyfnaint a Chernyw a theulu Janine i godi ymwybyddiaeth a helpu diodefwyr cam-drin domestig. Dangosir y logo J9 mewn safleoedd lle gall diodefwyr gael gwybodaeth a fydd yn eu helpu i gael cefnogaeth a defnyddio ffôn.

Mae'r fenter yn cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth a ddatblygwyd gan *Safer Places*, elusen yn Essex, yn ogystal â chreu rhwydweithiau o eiriolwyr trais domestig a manau diogel i ddiodefwyr ddatgelu ledled y sir.

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith eisoes wedi rhoi mesurau ar waith i gefnogi diodefwyr sydd wedi dianc o aelwyd dreisgar. Mae gwasanaeth ychwanegol J9 yn galluogi staff y Ganolfan Byd Gwaith i gyfeirio at gymorth a chefnogaeth ymarferol hefyd oddi mewn y Ganolfan Byd Gwaith. Ar bob llawr yn y Ganolfan Byd Gwaith, mae pwynt J9 lle gall staff gael gwybodaeth yn rhwydd, gan gynnwys manylion cyswllt *Safer Places* a llochesi cefnogaeth lleol. Mae staff y Ganolfan Byd Gwaith sydd wedi cael hyfforddiant J9 yn gwisgo bathodyn bach neu gortyn J9.

Dim ond rhai enghreifftiau yw'r rhain o'r ymdrechion i wella dealltwriaeth asiantaethau statudol o gam-drin domestig a sut i'w adnabod. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud o hyd i sicrhau ymateb cyson ledled y wlad. Fel y mae'r Adroddiad Cyd-arylygiad Ardal wedi'i Dargedu ar yr Ymateb Amlasiantaethol i Blant sy'n Byw gyda Cham-drin Domestig⁴⁹ yn ei nodi, mae ardaloedd lleol wedi gwneud cynnydd cyffredinol da o ran ymateb i gam-drin domestig. Mae hyn yn arbennig o wir am amddiffyn plant a diodefwyr. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi bod angen newid sylweddol yn y ffordd y mae asiantaethau'n deall y mater ac yn ymateb iddo. Rydym yn edrych ar opsiynau i gyflwyno

⁴⁸ <http://irisi.org/>

⁴⁹ Cyd-arylygiad Ardal wedi'i Dargedu (2017). Yr ymateb amlasiantaethol i blant sy'n byw gyda cham-drin domestig

mwy o wybodaeth i staff Canolfan Byd Gwaith, gwasanaethau iechyd a gweithwyr *Troubled Families* (yn Lloegr) i wella eu gallu i adnabod arwyddion o gam-drin domestig a chynnig y gefnogaeth arbenigol sydd ei hangen.

7. Cwestiwn: Pa asiantaethau statudol neu grwpiau yr ydych yn meddwl y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig ganolbwyntio eu hymdrechion arnynt er mwyn gallu adnabod cam-drin domestig yn well? Ticiwch y 3 uchaf ar y rhestr.

Lluoedd arfog	<input type="checkbox"/>
Gwasanaethau i blant	<input type="checkbox"/>
Staff llys	<input type="checkbox"/>
Gweithwyr addysg proffesiynol (er enghraifft athrawon, staff ysgolion)	<input type="checkbox"/>
Brigâd dân	<input type="checkbox"/>
Gweithwyr iechyd proffesiynol	<input type="checkbox"/>
Staff tai	<input type="checkbox"/>
Staff canolfannau gwaith	<input type="checkbox"/>
Barnwyr/ynadon	<input type="checkbox"/>
Heddlu	<input type="checkbox"/>
Staff y Gwasanaeth Prawf/Cwmni Adsefydlu Troseddol	<input type="checkbox"/>
Erlynwyr	<input type="checkbox"/>
Darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion	<input type="checkbox"/>
Comisiynwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion (awdurdodau lleol a grwpiau comisiynu clinigol)	<input type="checkbox"/>
Gweithwyr cymdeithasol	<input type="checkbox"/>
Arall – nodwch os gwelwch yn dda	<input type="checkbox"/> <input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

8. Cwestiwn: Yn ogystal â gwella rhaglenni hyfforddiant a chyflwyno canllawiau, beth arall y gall y Llywodraeth ei wneud i wella dealltwriaeth asiantaethau statudol o gam-drin domestig?

Testun rhydd

Ffyrdd eraill o riportio cam-drin domestig

Mae amcangyfrifon yn seiliedig ar y bobl a gyfwelwyd yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn dangos bod tua 4 o bob 5 dioddefwr (79%) cam-drin gan bartner ddim yn ei riportio i'r heddlu.⁵⁰ Mae dioddefwyr yn llawer mwy tebygol o ymddiried yn eu teulu a'u ffrindiau. Dywedodd goroeswyr wrth Gymorth i Fenywod fod diffyg cyfleoedd i'w helpu yn eu cymunedau lleol. I unioni hyn, ac i fanteisio ar gysylltiadau cymunedol sy'n bodoli eisoes, mae Cymorth i Fenywod wedi sefydlu'r cynllun 'Gofyn i Mi'.

Astudiaeth achos: Gofyn i Mi

Mae 'Gofyn i Mi' yn gyfle i ymuno â mudiad cymunedol i dorri distawrwydd cam-drin domestig. Bydd cwrs deuddydd di-dâl a gynhelir gan Gymorth i Fenywod mewn partneriaeth â gwasanaethau cam-drin domestig lleol yn cynyddu sgiliau pobl â chyrhaeddiad o fewn eu cymunedau i gymryd swyddogaeth 'llysgennad Gofyn i Mi' lle byddant yn dysgu sut i weithredu i dorri'r tawelwch a chodi ymwybyddiaeth o fewn eu rhwydweithiau. Wrth i ni siarad mwy am gam-drin domestig, bydd ein cymunedau'n dod yn fannau lle bydd pobl yn teimlo y gallant ddweud eu dweud. Mae'r hyfforddiant hefyd yn cynnwys sut y gall llysgenhadon Gofyn i Mi ymateb mewn modd cefnogol a deallgar i unrhyw un sy'n rhannu profiad personol o gam-drin domestig. Mae'r cwrs yn gweithio ar y ddealltwriaeth bod dioddefwyr yn aml yn siarad â ffrind, aelod teulu neu gymydog – aelod o'r gymuned – yn hytrach nag awdurdodau lleol.

Swyddogaeth Llysgennad Gofyn i Mi yw:

- torri'r distawrwydd o gwmpas cam-drin domestig
- codi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig
- ymateb â pharch i unrhyw un sy'n rhannu profiadau personol

Mae'r cynllun yn cael ei gynnal fel peilot ar hyn o bryd mewn tair ardal yng Nghymru a Lloegr.⁵¹

Rydym yn gwybod bod grwpiau allweddol eraill o unigolion (nad ydynt wedi'u cyflogi gan asiantaethau statudol) a allai chwarae rhan allweddol o ran brwydro yn erbyn cam-drin domestig. Fel y nodwyd drwy ddysgu o adolygiadau dynladdiadau domestig, un o'r grwpiau hyn yw cyflogwyr.⁵² Bydd unrhyw gyflogwr â nifer sylweddol o weithwyr yn debygol o fod â rhai sydd wedi teimlo effeithiau cam-drin domestig, naill ai fel dioddefwyr neu fel drwgweithredwyr. Mae Menter Cam-drin Domestig y Cyflogwyr yn grŵp o dros 200 o gwmnïau a sefydliadau sector cyhoeddus sydd wedi dod at ei gilydd i weithredu i helpu

⁵⁰ Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016) Trais a cham-drin yn erbyn partneriaid personol agos, Tabl 4.28

⁵¹ <https://www.womensaid.org.uk/our-approach-change-that-lasts/askme/>

⁵² Y Swyddfa Gartref (2016). Adolygiadau Dynladdiadau Domestig

staff sydd wedi teimlo effeithiau cam-drin domestig.⁵³ Mae'r cyflogwyr hyn yn cydnabod bod cam-drin domestig yn amharu ar berfformiad yn y gwaith, yn cynyddu absenoldebau ac yn y pen draw'n gallu arwain at staff yn gadael. Mae'r rhwydwaith yn cyfarfod i gyfnewid gwybodaeth am arferion gorau ac i annog, hybu a datblygu camau gweithredu i helpu staff sy'n dioddef cam-drin domestig neu sy'n ei gyflawni.

Mae Iechyd Cyhoeddus Lloegr, mewn partneriaeth â Busnes yn y Gymuned, yn datblygu pecyn offer a fydd yn darparu cyngor clir a chynhwysfawr am y camau y gall cyflogwr eu cymryd. Bydd y pecyn offer yn seiliedig ar adolygiad o dystiolaeth a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr a'r adroddiad diweddar a gomisiynwyd gan Sefydliad Vodafone.⁵⁴ Yn bennaf oll, bydd yn cynnwys lleisiau a thystiolaeth y bobl hynny y mae hyn wedi effeithio'n uniongyrchol arnynt, ac astudiaethau achos o gyflogwyr sydd wedi gwneud mwy na chydymffurfio er mwyn ymdrin â'r mater a chefnogi eu gweithwyr.

Mae'r llywodraeth hefyd wedi ariannu'r Gynghrair Tai Cam-drin Domestig i ddatblygu cyfres o safonau ar gyfer sut y dylai darparwyr tai ymateb i gam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr. Mae swyddogion tai yn debygol o ddod i gysylltiad â dioddefwyr cam-drin domestig bob dydd, ac maent mewn sefyllfa ddelfrydol i adnabod pobl sy'n cyflawni cam-drin domestig a hefyd pobl sy'n wynebu risg, megis plant. Dim ond rhan o'u swyddogaeth yw sylweddoli bod cam-drin yn digwydd; mae darparu ymateb effeithiol a chefnogol yn bwysicach fyth. Mae tasgau megis cynnal asesiad risg trwyadl, datblygu cynllun gweithredu a gwneud atgyfeiriadau addas i gyd yn weithgareddau y mae swyddogion tai â'r hyfforddiant priodol mewn sefyllfa dda i'w gwneud. Mae'r gyfres o safonau⁵⁵ yn galluogi darparwyr tai i archwilio dulliau darparu gwasanaethau ac arferion, er mwyn canfod bylchau a meysydd i'w gwella.

Mae'r llywodraeth yn cydnabod bod angen darparu cyfeiriadur o wybodaeth i'r cyhoedd i amlinellu'n glir beth yw cam-drin domestig, beth i'w wneud os ydynt yn ddiodeffwr neu'n pryderu am rywun sy'n ddiodeffwr, beth i'w wneud os ydynt yn cyflawni cam-drin domestig neu'n meddwl bod rhywun y maent yn ei adnabod yn gwneud hynny, ac i ble i fynd i gael cymorth. Rydym yn ymroddedig i ddiweddarau GOV.UK i sicrhau y darperir y wybodaeth ddiweddaraf am gam-drin domestig mewn modd clir a hawdd ei ddarllen.

9. Cwestiwn: Pa gefnogaeth bellach y gallwn ei darparu i'r cyhoedd (cyflogwyr, ffrindiau, teulu, ffigyrau cymunedol) fel y gallant adnabod cam-drin a chyfeirio dioddefwyr at gymorth yn effeithiol?

Testun rhydd

⁵³ <https://eida.org.uk/about/>

⁵⁴ Sefydliad Vodafone (2017). Trais a cham-drin domestig: cydweithio i drawsnewid ymatebion yn y gweithle

⁵⁵ <http://accreditation.dahalliance.org.uk/>

Pennod 2: Amddiffyn a Chefnogi Dioddefwyr

"Rydym am wella gwasanaethau cefnogi a gwella i holl ddiodefwyr cam-drin domestig ac i'r plant sy'n byw gydag ef"

Rydym yn ceisio safbwyntiau ynglŷn â sut i gyflawni hyn. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym:

- yn nodi enghreifftiau o ddarpariaeth bresennol gwasanaethau a modelau ariannu'r llywodraeth - rydym yn gofyn am flaenoriaethau ar gyfer cyllid gan lywodraeth ganolog a sut y gall y llywodraeth annog gwaith amlasiantaethol effeithiol sy'n rhoi cefnogaeth gyfannol i ddiodefwyr (tudalen 25)
- yn cydnabod bod gan lawer o ddiodefwyr anghenion penodol a/neu luosog ac yn gofyn beth arall y gall y Llywodraeth ei wneud i roi gwell cefnogaeth i'r diodefwyr hynny sy'n wynebu rhwystrau rhag cefnogaeth (tudalen 32), gan gynnwys ymysg troseddwy'r benywaidd (tudalen 33) sy'n aml â hanes o gam-drin domestig. Rydym hefyd yn trafod yr heriau i'r diodefwyr hynny sy'n methu â throi at arian cyhoeddus (tudalen 35) ac sydd felly'n arbennig o agored i niwed.
- yn cynnig creu Gorchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig newydd sy'n cymryd yr elfennau cryfaf ar y gorchymynion sy'n bodoli i sicrhau y diogelir diodefwyr ac i atal cam-drin rhag gwaethygu (tudalen 36), gan amlinellu'n fanwl y broses ymgeisio a'r amodau posibl
- yn ceisio safbwyntiau am newidiadau deddfwriaethol diweddar sy'n ei gwneud yn haws i ddiodefwyr gofrestru'n ddiennw i bleidleisio gan gadw eu manylion personol yn ddiogel (tudalen 43) – bydd hyn yn sicrhau na chânt eu rhoi mewn perygl wrth arfer eu hawl ddemocrataidd
- yn cynnig gwneud y Cynllun Datgelu Trais Domestig (tudalen 44) yn gyfraith er mwyn sicrhau y'i defnyddir yn amlach ac yn fwy cyson ledled y wlad - Drwy wneud y cynllun yn fwy gweladwy, rydym yn gobeithio rhybuddio mwy o ddiodefwyr a phobl a allai fod yn ddiodefwyr o'r peryglon y gallai eu partner eu peri
- yn ystyried beth y gellir ei wneud i helpu diodefwyr cam-drin economaidd i ddianc a gwella (tudalen 47)
- yn adlewyrchu ar sut y gellir defnyddio technoleg mewn cysylltiad â cham-drin domestig – fel offeryn i gam-drin diodefwyr, ac er mwyn cefnogi ac amddiffyn diodefwyr (tudalen 48)

2A: Gwella gwasanaethau cefnogaeth i holl ddiodefwyr cam-drin domestig a'u plant

Mae'r llywodraeth yn glir y bydd sicrhau bod yr offer, yr adnoddau, y gwasanaethau a'r pwerau cywir ar gael i amddiffyn a chefnogi diodefwyr cam-drin domestig yn gwneud unigolion a theuluoedd yn ddiogel, yn gynt. Rydym yn cydnabod y gall fod angen gwahanol fathau o gefnogaeth ar wahanol adegau, ac rydym yn gweithio ar ffyrdd o wella'r rhain – gan gynnwys drwy'r gwasanaethau a ddarperir i deuluoedd gan ofal cymdeithasol i blant.

Fel y nodwyd yn y rhagarweiniad, dros y deg mlynedd diwethaf rydym wedi cefnogi amrywiaeth o wasanaethau cefnogi wedi'u harwain gan y sector gwirfoddol, gan gynnwys llinellau cymorth, eiriolaeth a gwasanaethau mewn llety.

Llochesi a llety diogel

Rydym yn gwybod ei bod yn bwysig iawn bod gan ddiodefwyr cam-drin domestig ystod o ddewisiadau llety diogel, fel y gallant symud i le diogel ac ailadeiladu eu bywydau. Gellir darparu llety diogel mewn lloches, yn ogystal â drwy gyfrwng cynlluniau noddfa⁵⁶ a thai gwasgaredig⁵⁷, gyda chymorth fel y bo'r angen yn y ddau achos.⁵⁸ Gall tai gwasgaredig a chynlluniau noddfa helpu'r diodefwyr hynny sy'n dewis aros yn eu cartrefi neu'n agos atynt gyda'r gwasanaethau cefnogi cywir. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gomisiynu llochesi a llety diogel arall yn eu hardaloedd, gan gydnabod anghenion amrywiol diodefwyr a'u plant. Mae hefyd yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu llety i ddiodefwyr cam-drin domestig sy'n wynebu digartrefedd.

Mae'r llywodraeth yn credu mai awdurdodau lleol, yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau megis yr heddlu a chyrrff iechyd a darparwyr gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol, sydd yn y sefyllfa orau i asesu a diwallu'r angen am llety diogel i ddiodefwyr oddi mewn eu hardal leol a thu hwnt. Mae Blaenoriaethau Gwasanaethau Cam-drin Domestig y llywodraeth, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016, yn glir y dylai awdurdodau lleol ddarparu ar gyfer diodefwyr cam-drin domestig o'r tu allan i'w hardal leol, i gydnabod bod angen i lawer o ddiodefwyr symud i ardal arall i gadw'n ddiogel. Hefyd, mae disgwyl i awdurdodau lleol gydweithio â'i gilydd i'w gwneud yn hawdd i ddiodefwyr symud o un ardal i un arall gan sicrhau eu diogelwch.

Ers 2014, rydym wedi darparu £33.5 miliwn o gyllid grant uniongyrchol i ardaloedd lleol ar gyfer llochesi a gwasanaethau llety arbenigol eraill ac i ddiwygio gwasanaethau lleol. Gallai diwygio gwasanaethau gynnwys comisiynu gwasanaethau'n well, gwella llwybrau diodefwyr i gael cefnogaeth drwy deilwra'r ddarpariaeth i'w hanghenion, gweithio mewn partneriaeth o fewn ffiniau awdurdodau lleol ac ar draws y ffiniau hyn, a chryfhau trefniadau llywodraethu. Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ariannu 80 o brosiectau ledled y wlad, mewn 258 o awdurdodau lleol, a fydd yn cefnogi dros 19,000 o ddiodefwyr. Mae'r prosiectau'n darparu llety diogel mewn llochesi, tai gwasgaredig a chynlluniau noddfa, yn ogystal â gwasanaethau cefnogi eraill i ddiodefwyr cam-drin domestig a'u plant.

Er enghraifft, mae prosiect o dan arweiniad Cyngor Dinas Newcastle wedi ffurfio partneriaeth ag ystod eang o asiantaethau gan gynnwys cynghorau cyfagos, gwasanaethau arbenigol cam-drin domestig, partneriaethau iechyd a darparwyr tai. Gyda'i gilydd, maent yn bwriadu gwella a chryfhau'r llochesi sydd ar gael ochr yn ochr â llety arbenigol arall, gan gynnwys fflatiau hunangynhwysol. Mae hyn yn cyd-fynd â gwell ymweliadau cefnogi a gofal pwrpasol i ddiodefwyr ag anghenion cymhleth, megis camddefnyddio cyffuriau. Drwy weithio ar draws cynghorau a'r asiantaethau perthnasol, mae'r prosiect yn gobeithio canfod anghenion diodefwyr yn llawer cynharach.

⁵⁶ Mae cynlluniau noddfa'n galluogi aelwydydd sy'n wynebu risg i aros yn eu cartrefi eu hunain ac yn helpu i atal pobl rhag diodeff fwy nag unwaith drwy ddarparu mesurau diogelwch a chefnogaeth

⁵⁷ Tai gwasgaredig yw tai â chymorth sy'n lled-annibynnol, gyda chymorth cofleidiol i breswylwyr llochesi sydd heb fod angen cefnogaeth mor ddwys ag a ddarperir mewn lloches mwyach

⁵⁸ Mae cymorth fel y bo'r angen yn wasanaeth hyblyg sy'n cefnogi preswylwyr i fanteisio ar wasanaethau arbenigol priodol

Mae'r cynllun '*Hampshire Making Safe*' yn cael ei arwain gan Gyngor Dosbarth Hart ac mae'n cynnwys 11 awdurdod lleol yn Hampshire. Y nod yw ariannu tri dull o gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig. Y cyntaf yw tai diogel yn yr ardal fel dewis arall yn lle llety mewn llochesi. Yr ail yw darparu gwell mesurau diogelwch a chefnogaeth o fewn cartrefi'r cleientiaid eu hunain i'w galluogi i aros yn ddiogel ac osgoi'r angen am lety lloches. Y trydydd yw cefnogaeth i ddarparu llwybrau effeithiol allan o lety twdiogel/lloches. Mae hyn yn cefnogi unigolion i symud ymlaen pan fo'n briodol, sydd yn ei dro'n golygu y gellir darparu cymorth i fwy o unigolion. Mae wedi'i dargedu'n benodol at bobl o gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, neu at bobl ag anghenion cymhleth.

Mae Cysyniad Cefnogaeth a Llety Lloeren Suffolk yn bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Suffolk, Cyngor Bwrdeistref Ipswich a saith cyngor dosbarth, gyda chymorth gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Suffolk, Phoebe, Ymddiriedolaeth Gofal Anglia a llochesi lleol. Nod y prosiect yw darparu mwy o lety i ddioddefwyr cam-drin domestig nad ydynt yn bodloni'r meini prawf i gael cefnogaeth mewn llety lloches. Ceir tai ychwanegol drwy'r awdurdod lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r sector rhentu preifat. Gan gydweithio'n agos â llochesi sy'n bodoli, y nod yw creu dewis arall hyblyg sydd hefyd yn cynnig cefnogaeth arbenigol i ddioddefwyr ag anghenion cymhleth.

Adolygu cyllid i wasanaethau cam-drin domestig, gan gynnwys Llochesi

Yn ein Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Genethod, roeddem yn glir ein bod am weithio gyda chomisiynwyr lleol i ddarparu dyfodol diogel i lochesi. Er bod niferoedd y mannau gwely wedi cynyddu ers 2010, mae'r llywodraeth yn ymroddedig i adolygu cyllid i wasanaethau cam-drin domestig, gan gynnwys llochesi, yn enwedig y costau cefnogaeth a gofal critigol. I roi sail i'n hadolygiad, rydym wedi comisiynu archwiliad annibynnol, allanol o wasanaethau cam-drin domestig. Bydd hwn yn rhoi darlun cyflawn i ni o'r ddarpariaeth i bob dioddefwr ledled Lloegr ac yn ein galluogi i asesu pa effaith y mae gwasanaethau'n ei chael a chanfod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Llunnir adroddiad o'r archwiliad yng ngwanwyn 2018, a chwblheir yr adolygiad erbyn haf 2018. Rydym yn ymroddedig i gydweithio'n agos â'r sector ac awdurdodau lleol ar yr archwiliad a'r adolygiad cyffredinol, gan alw ar eu harbenigedd a'u gwybodaeth, i sicrhau bod gennym sail dystiolaeth gadarn i wneud penderfyniadau yn y dyfodol ynglŵn ag ariannu'r gwasanaethau hollbwysig hyn.

Bydd ein hadolygiad yn ategu gwaith mwy cyffredinol ar ariannu tai â chymorth tymor byr, sy'n cynnwys llochesi. Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal ymgynghoriad ynglŵn â dylunio model costau tai newydd i ariannu tai â chymorth ar gyfer argyfyngau a chyfnodau tymor byr yn Lloegr. Mae'r Datganiad Polisi a'r Ymgynghoriad ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/655990/Funding_supported_housing_-_policy_statement_and_consultation.pdf

Caeodd yr ymgynghoriad ar 23 Ionawr 2017. Caiff y diwygiadau Tai â Chymorth eu rhoi ar waith ym mis Ebrill 2020 ac rydym yn ymgynghori ac yn ymgysylltu'n agos â'r sector i'n helpu i lunio manylion y model ariannu. Rydym yn glir ein bod yn fodlon ystyried pob opsiwn er mwyn cyflawni ein nodau a sicrhau na chaiff y gefnogaeth ofynnol ei gwrthod i neb.

Darparu tai cymdeithasol i ddioddefwyr cam-drin domestig

Rydym hefyd yn gwybod ei bod yn hollbwysig sicrhau nad yw dioddefwyr cam-drin domestig sy'n barod i adael llochesi a llety diogel arall gyda chymorth yn wynebu anfantais wrth ymgeisio am dai cymdeithasol.

Ym mis Tachwedd 2017, lansiodd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ymgynghoriad ynglŵn â chynigion am ganllawiau statudol newydd i awdurdodau lleol, gyda'r bwriad o helpu dioddefwyr cam-drin domestig sydd ar hyn o bryd yn byw mewn lloches neu fath arall o lety dros dro diogel i symud i dai cymdeithasol. Byddai'r canllawiau newydd yn adeiladu ar y canllawiau statudol presennol ar gyfer dyraniadau tai cymdeithasol i'w gwneud yn haws i ddioddefwyr cam-drin domestig gael tai cymdeithasol drwy:

- ei gwneud yn glir bod disgwyl i awdurdodau lleol hepgor unrhyw brofion preswyllo ar gyfer dioddefwyr sydd wedi dianc i ardal arall
- amlinellu sut y gall awdurdodau lleol roi blaenoriaeth briodol i'r grŵp hwn

Rydym hefyd yn cynnig y dylai'r canllawiau gynghori awdurdodau lleol ynglŵn â sut y gallant ddefnyddio eu pwerau presennol i gefnogi tenantiaid sy'n dioddef cam-drin domestig i aros yn eu cartrefi'n ddiogel os ydynt yn dewis gwneud hynny, er enghraifft, drwy droi'r drwgweithredwr allan a chaniatáu tenantiaeth un person i'r dioddefwr.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 5 Ionawr 2018, ac rydym yn disgwyl cyhoeddi'r canllawiau newydd yng ngwanwyn 2018.

Ar 19 Rhagfyr 2017, cyflwynodd y Weinyddiaeth y Bil Tenantiaethau Diogel (Dioddefwyr Cam-drin Domestig). Bydd y bil yn mynnu bod awdurdodau lleol yn Lloegr, wrth ailgartrefu tenant oes presennol sydd ag angen symud neu wedi symud yn ddiweddar o gartref cymdeithasol i ddianc rhag cam-drin domestig, yn caniatáu tenantiaeth oes i'r tenant yn eu cartref newydd. Bydd y mesurau yn y bil hwn yn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar y dioddefwyr hyn i adael sefyllfa gamdriniol. Mae'r bil yn berthnasol i denantiaid oes awdurdodau lleol a Darparwyr Cofrestredig Preifat tai cymdeithasol (cymdeithasau tai).

Mae'r Bil Tenantiaethau Diogel (Dioddefwyr Cam-drin Domestig) yn cyflawni ymrwymiad a wnaethpwyd wrth basio Deddf Tai a Chynllunio 2016 ('Deddf 2016'). Mae Deddf 2016 yn diwygio tenantiaethau diogel awdurdodau lleol ac felly, pan fydd mewn grym, bydd y rhan fwyaf o denantiaid yn cael tenantiaeth am gyfnod penodol, yn hytrach na thenantiaeth oes fel sy'n digwydd nawr. Pan luniwyd Adroddiad yr Arglwyddi ar gyfer Deddf 2016, ymrwymodd y llywodraeth i sicrhau y byddai awdurdodau lleol yn caniatáu i ddioddefwyr cam-drin domestig â thenantiaeth oes gael tenantiaeth arall o'r fath pe bai'n annioelg iddynt aros yn eu cartref presennol.

Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig

Mae cynghorwyr annibynnol ar drais domestig yn edrych ar ddiogelwch dioddefwyr a goroeswyr sy'n wynebu risg uchel o niwed gan bartneriaid agos, cyn-bartneriaid neu aelodau teulu i sicrhau eu diogelwch a diogelwch eu plant. Mae'r cynghorwyr hyn yn gweithredu fel prif bwynt cyswllt i ddioddefwyr, ac fel arfer yn gweithio gyda hwy o'r pwynt argyfwng ymlaen. Maent yn asesu'r risg a berir gan y drwgweithredwr ac yn trafod yr ystod o opsiynau addas. Mae hyn yn cynnwys datblygu cynlluniau diogelwch a'u rhoi ar waith, trafod gwaharddebau a sancsiynau a allai fod ar gael drwy'r llysoedd, opsiynau tai a gwasanaethau cefnogi.

Mae data gan SafeLives yn dangos bod cyfanswm o 815 cynghorydd annibynnol ar drais domestig cywerth ag amser llawn yn gweithio ledled Cymru a Lloegr. Mae'r dystiolaeth yn dangos, ar ôl cefnogaeth ac ymyriadau gan un o'r gwasanaethau hyn, bod dioddefwyr yn profi llawer llai o gam-drin a newidiadau cadarnhaol i'w diogelwch a'u hansawdd bywyd: dywedodd 84% o'r dioddefwyr eu bod yn teimlo'n fwy diogel, roedd 82% yn teimlo bod eu

hansawdd bywyd wedi gwella, a dywedodd 57% o'r dioddefwyr nad oedd y cam-drin yn digwydd mwyach erbyn adeg cau'r achos.⁵⁹

Amddiffyn plant

Mae'r llywodraeth hefyd glir bod diogelwch plant yn hollbwysig mewn achosion o gam-drin domestig. Adrannau gofal cymdeithasol plant awdurdodau lleol sy'n statudol gyfrifol am ddiogelu plant a hybu eu lles, a cham-drin domestig yw'r ffactor mwyaf cyffredin a nodir gan weithwyr cymdeithasol wrth asesu anghenion plant.⁶⁰ Mae'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant gorau'n darparu cymorth a chefnogaeth ragorol i blant a theuluoedd. Ac eto, er bod llawer o waith cymdeithasol da yn y system a bod cynnydd wedi'i wneud o ran gosod y sylfeini ar gyfer gwelliant systemig, mae'r gwasanaethau y mae plant yn eu derbyn yn dal i fod yn anghyson – ac mae mwy i'w wneud, er mwyn i bob plentyn gael y cymorth iawn ar yr adeg iawn. Drwy ddiwygiadau eang i ofal cymdeithasol plant, mae'r llywodraeth yn gyrru gwelliannau ar draws y system, o dargedu gweithwyr cymdeithasol da i'w recriwtio a'u cadw mewn gofal cymdeithasol plant, i annog arloesi a datblygu dulliau newydd o atal cam-drin domestig, ei ganfod ac ymateb iddo.

Drwy Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017, rydym yn cyflwyno trefniadau diogelu amlasiantaethol newydd a chaiff Byrddau Lleol Diogelu Plant eu disodli gan drefniadau diogelu lleol newydd, o dan arweiniad tri phartner diogelu (awdurdodau lleol, prif swyddogion heddlu, a grwpiau comisiynu clinigol). Drwy fynnu bod ardaloedd lleol yn cydweithio i ddatblygu trefniadau gwaith cryfach, pwrpasol rhwng y tair asiantaeth allweddol ac asiantaethau perthnasol eraill, rydym yn disgwyl gweld gwelliant yn safon y gwaith rhyngasiantaeth i ddiogelu plant. Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn darparu pwerau ychwanegol i sicrhau cyfranogiad effeithiol gan asiantaethau allweddol ac yn cytuno ar gynlluniau i gryfhau rhannu gwybodaeth.

Rydym hefyd wedi ariannu peilot o fodel 'Un Drws Ffrynt' SafeLives mewn saith ardal ledled y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn symud oddi wrth ddull sy'n ystyried holl aelodau'r teulu ar wahân tuag at ddull teulu cyfan, gan ganfod risgiau i holl aelodau'r teulu a gweithio gyda hwy i ddatblygu ymateb diogelu. Gallwch gael gwybod mwy yn www.safelives.org.uk/one-front-door

Mae'r Swyddfa Gartref hefyd wedi lansio'r 'Gronfa Ymddiried mewn Perthynas' sy'n dyrannu £13m dros bedair mlynedd i fentrau lleol sy'n gwella'r gefnogaeth i bobl ifanc 10-17 oed sy'n wynebu risg o ecsbloetio a cham-drin, gan gynnwys cam-drin gan gyfoedion ac mewn perthynas. Gall awdurdodau lleol ymgeisio am gyllid i gynnal prosiectau â'r ffocws o hwyluso perthynas o ymddiriedaeth rhwng pobl ifanc agored i niwed a'r oedolion sydd yno i'w cefnogi, gyda'r nod o gynyddu ffactorau amddiffynnol gan gynnwys rhwydwaith cefnogi cadarnhaol, gwytnwch personol a hunan-barch.⁶¹

⁵⁹ Arolwg 2016 SafeLives o ddarpariaeth Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yng Nghymru a Lloegr (2016). Arolwg Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig. Ar gael yn: <http://www.safelives.org.uk/news-views/safelives-idva-survey-2016>

⁶⁰ Adran Addysg (2017). Nodweddion plant mewn angen: 2016-2017, Tabl C3

⁶¹ Bydd cyfanswm y cyllid a fydd ar gael ar draws yr ardaloedd lleol yn £2.45m yn 2018/19 a £3m yn 2019/20. Mae pot o £3m yn 2020/21 a £2.6m yn 2021/22 wedi'i awgrymu, ond bydd hyn yn dibynnu ar sefyllfa ariannu'r adran a'i blaenoriaethau ar ôl Adolygiad o Wariant 2019. Mae arian ychwanegol wedi'i ddyrannu i helpu i roi'r rhaglen ar waith a'i gwerthuso.

Anghenion lleol

Rydym wedi bod yn glir o'r cychwyn mai cymunedau lleol sydd yn y sefyllfa orau i asesu a diwallu anghenion lleol. Dyna pam mae llawer o arian cenedlaethol wedi'i gyfeirio at gomisiynu lleol. Mae hyn yn caniatáu i arweinwyr lleol sydd â dealltwriaeth glir o anghenion eu hardal leol a'r gwasanaethau a ddarperir yno ar hyn o bryd, i ffocysu'r arian hwn yn y manau lle caiff yr effaith fwyaf. Er enghraifft, dyrannodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder tua £96 miliwn yn 2016/17 ac eto yn 2017/18 i ariannu gwasanaethau cefnogi hanfodol i ddiodefwyr troseddu, ac aeth tua £68 miliwn o hwn i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu. Dywedodd y comisiynwyr hyn eu bod wedi gwario tuag £11.6 miliwn o grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ddarparu gwasanaethau i ddiodefwyr cam-drin domestig yn 2016/17. Dywedodd y comisiynwyr hefyd eu bod wedi gwario £9.2 miliwn o ffynonellau cyllid heblaw grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n golygu bod cyfanswm eu gwariant ar gam-drin domestig oddeutu £20.8 miliwn.

Hefyd, dyfarnwyd £17 miliwn i 41 ardal leol drwy Gronfa Trawsnewid Gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod a Genethod y Swyddfa Gartref, i annog darparu gwasanaethau lleol cydgysylltiedig rhwng awdurdod lleol, iechyd a chomisiynwyr heddlu a throseddu, â ffocws ar ymyrryd cynnar ac atal.

Astudiaeth achos: Prosiectau amlasiantaeth a ariennir gan y Llywodraeth

Prosiect ASSIST Birmingham: dan arweiniad Grŵp Comisiynu Clinigol Dinas Birmingham:

Mae'r llywodraeth wedi darparu £600,000 i'r Prosiect ASSIST sy'n cael ei arwain gan Grŵp Comisiynu Clinigol Dinas Birmingham, mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol a ddarparwyr arbenigol. Bydd y prosiect yn cynnig cymorth arbenigol seiliedig ar drawma i fenywod sy'n agored iawn i niwed ac sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, gan gynnwys gwaith â ffocws gyda menywod sy'n wynebu risg y caiff eu plant eu symud.

Bwrdeistref Southwark, Llundain:

Mae'r prosiect hwn yn creu model newydd ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig sy'n wynebu risg uchel, ac yn aml ag anghenion cymhleth, sydd â phlant ar gynlluniau amddiffyn plant a/neu sydd wedi cael eu hatgyfeirio at Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth, ac nad ydynt am amrywiaeth o resymau'n ymgysylltu â'r gwasanaethau cefnogi sy'n bodoli. Mae'r prosiect yn darparu cefnogaeth bwrpasol bersonol sy'n rhoi pwyslais ar ymchwilio, cynllunio a chanfod dulliau ymgysylltu wedi'u teilwra. Mae'r cynnig hefyd yn cyflwyno cefnogaeth therapiwtig i blant i sicrhau eu bod yn rhoi sylw i effeithiau gweld camdriniaeth ac yn lleihau'r effeithiau hirdymor.

De Cymru:

Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a gafodd y dyfarniad unigol mwyaf (£1.4 miliwn) o'r Gronfa Trawsnewid Gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod a Genethod. Bydd y prosiect yn treialu'r model 'Newid sy'n Para', mewn partneriaeth â Chymorth i Fenywod Cymru. Maent yn gweithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a mudiadau trydydd sector arbenigol i ddatblygu strategaeth ranbarthol ar y cyd i ymdrin â thrais yn erbyn menywod a genethod. Byddant yn cyflwyno'r cynllun 'Gofyn i Mi', gan hyfforddi 30 o bobl fel Llysgenhadon Cymunedol a fydd yn gwella dealltwriaeth o gam-drin domestig yn eu cymunedau, gan gynnwys drwy sefydlu salonau gwallt, siopau a chlybiau chwaraeon fel 'mannau diogel' lle gall menywod riportio cam-drin domestig

heb fynd i orsaf heddlu. Byddant hefyd yn gwella ymatebion gwasanaethau cefnogi drwy gyflwyno model gweithwyr proffesiynol dibynadwy ac yn datblygu, yn darparu ac yn gwerthuso rhaglenni newydd o ymyriadau i weithio gyda chyflawnwyr cam-drin i newid eu hymddygiad, gan gynnwys â dulliau teulu cyfan.

Llywodraeth ganolog

Mae gan lywodraeth ganolog ran bwysig i'w chwarae drwy ddarparu cyfeiriad a chefnogaeth i ardaloedd lleol i wella'r ymateb i ddiodefwr. Rydym wedi cyhoeddi Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol newydd ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod a Genethod.⁶² Mae hwn yn amlinellu beth mae angen i ardaloedd lleol ei roi ar waith i sicrhau bod eu hymateb i drais yn erbyn menywod a genethod yn effeithiol. Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi safonau ansawdd ar gyfer gwasanaethau mewn llety yn ogystal â blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig i awdurdodau lleol.

Bydd y Weinyddiaeth yn cynnal archwiliad o gomisiynu gwasanaethau cam-drin domestig mewn awdurdodau lleol yn Lloegr a byddant yn rhannu mwy o fanylion am eu cynlluniau ar gyfer yr archwiliad ag awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol cam-drin domestig cyn bo hir. Bydd y dystiolaeth o'r archwiliad yn cyfrannu at yr adolygiad o'r dulliau presennol o ddarparu llochesi yn Lloegr.

Cyhoeddodd y llywodraeth £20 miliwn ychwanegol i wasanaethau cam-drin domestig yng Nghyllideb Gwanwyn 2017 i gynorthwyo eu gwaith i drawsnewid yr ymateb i gam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr.⁶³ Rydym yn dyrannu rhywfaint o'r arian hwn i gefnogi plant sydd wedi gweld cam-drin domestig a throseddwr benywol, ac i helpu i ganfod yr arfer gorau o ran ymateb i gam-drin domestig mewn lleoliadau gofal iechyd. Rydym yn awyddus i sicrhau bod yr ymgynghoriad hwn yn rhoi sail i ddyrannu gweddill yr arian hwn, ac yn helpu i oresgyn rhwystrau eraill sy'n atal diodefwr rhag ceisio cefnogaeth briodol. Rydym am i'r cyllid gael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n cefnogi perchenogaeth leol ac yn blaenoriaethu'r meysydd lle gall cyllid cenedlaethol gael yr effaith fwyaf o ran cefnogi diodefwr.

10. Cwestiwn: Rydym yn y broses o ganfod meysydd o flaenoriaeth i gyllid Llywodraeth ganolog ar gyfer cam-drin domestig. Pa rai o'r meysydd canlynol yr ydych yn meddwl y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig eu blaenoriaethu? Dewiswch hyd at 3.

Eiriolaeth i ddiodefwr i'w galluogi i aros yn ddiogel yn eu cartref eu hunain (Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig neu gywerth)	<input type="checkbox"/>
Gwasanaethau therapiwtig i helpu diodefwr cam-drin domestig i wella ar ôl eu profiad	<input type="checkbox"/>
Gwasanaethau llety	<input type="checkbox"/>
Gwasanaethau llinell gymorth i bobl sy'n	<input type="checkbox"/>

⁶² <https://www.gov.uk/government/publications/violence-against-women-and-girls-national-statement-of-expectations>

⁶³ <https://www.gov.uk/government/news/spring-budget-2017-21-things-you-need-to-know>

dioddef oherwydd cam-drin domestig eu ffonio i gael cyngor a chefnogaeth	
Ymyriadau sy'n seiliedig ar iechyd	<input type="checkbox"/>
Rhaglenni drwgweithredwyr sy'n ceisio newid ymddygiad troseddwr ac atal aildroseddu	<input type="checkbox"/>
Cyflwyno dulliau amlasiantaethol newydd	<input type="checkbox"/>
Arall (testun rhydd)	
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

11. Cwestiwn: Beth arall all y Llywodraeth ei wneud i annog a chefnogi gwaith amlasiantaethol effeithiol, er mwyn cefnogi ac amddiffyn dioddefwyr yn llawn? Dewiswch hyd at 3.

Arweiniad	<input type="checkbox"/>
Cymhellion drwy gyllid	<input type="checkbox"/>
Rhannu arferion effeithiol	<input type="checkbox"/>
Hyfforddiant	<input type="checkbox"/>
Arall (testun rhydd)	
Dim un o'r uchod	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod/ Dim ateb	<input type="checkbox"/>

2B: Cefnogi dioddefwyr ag anghenion penodol

Gall cam-drin domestig effeithio ar unrhyw un, o unrhyw grŵp oed, rhywedd, statws economaidd-gymdeithasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, crefydd neu ethnigrwydd.

"Dydy partner Maria, menyw anabl, ddim yn gadael iddi weld y nyrs arbenigol ar gyfer ei chyflwr; mae'r partner yn gwrthod gosod rheiliau llaw yn eu cartref. Mae hi'n atal Maria rhag defnyddio ffon gerdded, ac mae Maria yn ceisio cerdded hebddi, mae'n gwawdio ei cherdded ac yn dweud wrthi am sefyll yn syth gan wybod y bydd hi'n syrthio ac yn brifo."⁶⁴

Rydym yn gwybod y gall rhai grŵpiau wynebu rhwystrau ychwanegol rhag riportio, a dyna pam yr ydym wedi ariannu gwasanaethau penodol sy'n darparu cefnogaeth wedi'i thargedu, er enghraifft dioddefwyr sy'n fenywod anabl; yn bobl hwn; yn ddynion; ac yn bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol.

⁶⁴ SafeLives (2016). Goroeswyr anabl hefyd: pobl anabl a cham-drin domestig

- drwy'r Dreth Tamponau rydym yn ariannu 'Siapio Ein Bywydau' a fydd yn sicrhau bod anghenion menywod anabl sy'n profi trais neu gam-drin, neu'n wynebu risg o hynny, yn cael eu diwallu drwy'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd
- hefyd drwy'r Dreth Tamponau rydym yn ariannu'r sefydliad 'Jackson's Lane' yn Haringey, Llundain i ymgysylltu â phobl hwn mewn gweithgareddau cymunedol i wella eu dealltwriaeth o les, aflonyddu a cham-drin domestig a darparu'r gwasanaethau cefnogi sydd eu hangen i ymdrin â'r materion hyn
- rydym yn darparu cyllid i linell gyngor i ddynion a llinell gymorth i bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig yn uniongyrchol
- drwy gronfa arbenigol cefnogaeth mewn llety gwerth £20 miliwn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, rydym yn ariannu Cyngor Dinas Manceinion i ddarparu llety byw annibynnol i 10 i 15 o oroeswyr cam-drin domestig sy'n bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol – mae hyn hefyd yn cynnwys cefnogaeth gweithwyr achos a chefnogaeth allgymorth dwys i 20 o bobl eraill yn ogystal â gwaith i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau ymysg y gymuned hon yn ehangach

Gallai ffactorau eraill megis statws economaidd-gymdeithasol neu amddifadedd yr ardal hefyd effeithio ar sut y mae dioddefwyr yn ceisio cymorth – gallai fod yn anoddach i bobl â llai o adnoddau adael drwgweithredwyr neu chwilio am gymorth. Rydym hefyd yn ymwybodol, mewn rhai cymunedau, y gallai fod rhwystrau ychwanegol megis diffyg ymddiriedaeth mewn asiantaethau statudol (megis yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, neu awdurdodau tai), neu ofn o gael eu gwrthod gan eu cymuned os ydynt yn ceisio cymorth. Gall statws mewnfudo ansicr hefyd effeithio ar benderfyniad dioddefwr i geisio cymorth.

Rydym hefyd yn gwybod nad dim ond cam-drin rhwng partneriaid yw cam-drin domestig. Mae'n gallu bod yn oedolyn yn cam-drin ei riant hwn, plentyn yn y glasoed yn cam-drin nain neu daid neu'n gam-drin rhwng pobl ifanc yn eu harddegau (16+) mewn perthynas agos. Gall gael ei gyflawni gan bobl sy'n gofalu am bobl agored i niwed (er enghraifft pobl hwn neu bobl anabl). Gall gael ei gyflawni hefyd mewn perthynas ofalu anffurfiol oherwydd pwysau'r amgylchiadau hyn. Gall hyn effeithio ar y ffordd y bydd dioddefwr yn ceisio cymorth, a sut y derbynnir hyn.

Astudiaeth achos: Profiad dioddefwr

Roedd diffynnydd a dioddefwr mewn priodas wedi'i threfnu, ac ers iddynt gyrraedd Lloegr yn 2012 roedd y dioddefwr wedi cael ei chadw mewn caethiwed. Roedd y diffynnydd wedi cymryd gemwaith priodas oddi ar ei wraig fel ffordd o'i hecsbloetio a'i rheoli hi. Aeth y dioddefwr yn ariannol ddibynnol ar ei gu r, a hi a oedd yn gyfrifol am wneud yr holl waith twyr oedd ef yn ei fynnu. Nid oedd hi'n cael gadael y twar ei phen ei hun, a phan oedd hi gartref ar ei phen ei hun, roedd ef yn ffonio bob deg munud i wneud yn siur nad oedd y ffôn yn brysur. Cafodd ef ddedfryd o 2 flynedd yn y carchar am gadw ei wraig mewn caethiwed ac am ymosodiad a achosodd niwed corfforol gwirioneddol, gan dorri ei thrwyn. Hefyd, cafodd gorchymyn atal ei roi. Credir mai hwn oedd yr euogfarn cyntaf o'r math hwn yng Nghymru a Lloegr.

Yn olaf, rydym yn cydnabod bod gan lawer o ddioddefwyr cam-drin domestig anghenion cymhleth a lluosog, ac y gall fod yn anodd iddynt ddefnyddio gwasanaethau i'w cefnogi. Er na ddylid tybio bod presenoldeb ffactorau agored i niwed yn golygu yn awtomatig y bydd gan ddioddefwyr anghenion cymhleth, mae'n bwysig eu cydnabod oherwydd gall hynny dynnu sylw at angen i ddefnyddio dulliau gwahanol.

Rydym wedi cael trafodaethau helaeth ag awdurdodau lleol a phartneriaid cam-drin domestig er mwyn deall maint y broblem a chanfod yr arfer gorau. Mae prosiectau o dan arweiniad awdurdodau lleol yn Lloegr, sy'n canolbwyntio ar gefnogi dioddefwyr ag anghenion cymhleth, wedi cael eu hariannu o gronfa arbenigol cefnogaeth mewn llety gwerth £20 miliwn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Rydym wedi uno ar draws y llywodraeth i sicrhau ymagwedd gydlynol at wella'r gwasanaeth a'r gefnogaeth a gynigiwn i ddioddefwyr cam-drin domestig ag anghenion cymhleth, a byddwn yn parhau i gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol a phartneriaid cam-drin domestig wrth i'r gwaith hwn ddatblygu ymhellach.

12. Cwestiwn: Beth arall all y Llywodraeth ei wneud i roi gwell cefnogaeth i ddioddefwyr sy'n wynebu amryw o rwystrau rhag cael cefnogaeth?

Testun rhydd

Cefnogi troseddwr benywol

Rydym yn gwybod bod troseddwr benywol yn aml mewn sefyllfa gymhleth, gan gynnwys cefndir o gamdriniaeth. Rydym yn cydnabod bod cam-drin domestig yn gallu chwarae rhan fawr mewn troseddu gan fenywod; mae dros 60% o droseddwr benywol yn dweud eu bod wedi profi cam-drin domestig.⁶⁵

Astudiaeth achos: Troseddwr benywol⁶⁶

Disgrifiodd un fenyw sut y trodd hi at droseddu er mwyn cynnal ei defnydd o gyffuriau, o dan reolaeth ei phartner:

"Roeddwn i wedi bod yn ysmegu heroin cyn i mi gyfarfod ag ef. Fe wnaeth ef fy chwistrellu i am y tro cyntaf; roedd yn dweud ei fod eisiau i mi fod yn ddiogel. O hynny ymlaen, roeddwn i allan ohoni – roedd e'n mynd allan i ddwyn ac yna'n dod yn ôl ac yn fy chwistrellu i ac roeddwn i jyst yn gorwedd yno. Dim ond 18 oeddwn i fy hun, ac roeddwn i gydag ef am saith neu wyth mlynedd. Roeddwn i'n gwbl ddibynnol arno ef, yn gwbl emosiynol ddibynnol. Roedd ef eisiau i mi ofalu am y nwyddau wedi'u dwyn a'u gwerthu nhw. Dyna oedd yr unig ffordd o gael arian ar gyfer yr heroin. Yn y diwedd, es i i'r carchar drosto ef am ddwyn."

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn buddsoddi £1 miliwn o gyllid sbarduno mewn chwe ardal leol i ddatblygu 'Dull System Gyfan' o ymdrin â throseddwr benywol. Mae'r model hwn yn dod ag asiantaethau lleol (cyfiawnder troseddol, statudol a gwirfoddol) at ei gilydd i ddarparu cefnogaeth gyfannol, gydgysylltiedig wedi'i thargedu er mwyn diwallu anghenion troseddwr benywol, sy'n aml yn gymhleth, gan gynnwys cam-drin domestig. Mae canolfannau menywod yn ganolog i lawer o'r modelau hyn.

13. Cwestiwn: Sut y gallwn weithio'n well gyda throseddwr benywol a menywod agored i niwed sydd mewn perygl o droseddu i ganfod eu cam-drin domestig yn gynt? Dewiswch y 3 pwysicaf.

⁶⁵ O'r menywod a aseswyd gan ddefnyddio'r system asesu troseddwr, dywedodd 67% o'r rhai a oedd yn y ddalfa neu'n cael eu rheoli yn y gymuned gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, a 61% o'r rhai a oedd yn cael eu rheoli yn y gymuned gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, eu bod wedi dioddef trais domestig. Gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr (2015). Canlyniadau Gwell i Fenywod sy'n Droseddwr

⁶⁶ Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2017). Mae rheswm pam yr ydym mewn trwbll

Asiantaethau cyfiawnder troseddol i fabwysiadu ymchwiliadau priodol i hanes o gam-drin ar bob cam yn y broses cyfiawnder troseddol	<input type="checkbox"/>
Cefnogaeth bwrpasol a/neu gynghorwyr annibynnol ar drais domestig mewn gwasanaethau i fenywod	<input type="checkbox"/>
Annog defnyddio cynlluniau sy'n dargyfeirio menywod agored i niwed allan o'r system cyfiawnder troseddol (lle bo'n briodol) ac i mewn i wasanaethau	<input type="checkbox"/>
Ei gwneud yn haws i ddioddefwyr cam-drin domestig gael cefnogaeth mewn carchardai	<input type="checkbox"/>
Cefnogi cyfeirio menywod sy'n dod i gysylltiad â'r heddlu at wasanaethau priodol	<input type="checkbox"/>
Arall (testun rhydd)	<input type="checkbox"/> <input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

14. Cwestiwn: Sut y gallwn ddefnyddio mwy o wasanaethau penodol i fenywod i ddarparu ymyriadau mewn amgylcheddau diogel, menywod-yn-unig? Dewiswch y 3 pwysicaf.

Sicrhau bod meddyg teulu ar gael mewn gwasanaethau menywod-yn-unig	<input type="checkbox"/>
Sicrhau bod nyrs ar gael mewn gwasanaethau menywod-yn-unig	<input type="checkbox"/>
Sesiynau cyswllt â phlant fel y gall menywod nad ydynt yn byw gyda'u plant weld eu plant o dan oruchwyliaeth	<input type="checkbox"/>
Darparu ymyriadau iechyd megis triniaeth iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau mewn gwasanaethau menywod-yn-unig	<input type="checkbox"/>
Lleoli cynghorwyr annibynnol ar drais domestig mewn gwasanaethau menywod-yn-unig neu eu cysylltu â hwy	<input type="checkbox"/>

Darparu mwy o gynghorwyr budd-daliadau, cyllid a llety mewn gwasanaethau menywod-yn-unig	<input type="checkbox"/>
Darparu ymyriadau gan gyflogwyr mewn gwasanaethau menywod-yn-unig i helpu i baratoi unigolion am eu gwaith, gan gynnwys cynnig profiad gwaith a/neu fentora	<input type="checkbox"/>
Arall (testun rhydd)	<input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

Pobl sy'n methu â derbyn arian cyhoeddus

Rydym yn cydnabod nad oes gan bobl sy'n byw yn y Deyrnas Unedig ar fisa eu priod hawl i gael cymorth ariannol gan y wlad ar ffurf y rhan fwyaf o fudd-daliadau, credydau treth na chymorth â thai. Cyfeirir at hyn fel 'cyflwr methu â derbyn arian cyhoeddus'. Fodd bynnag, mae gan y bobl hyn yr hawl i weithio. Serch hynny, rydym hefyd yn cydnabod y gallai fod yn anodd i rai o'r bobl hyn gael cymorth ariannol pe bai eu perthynas yn chwalo o ganlyniad i gam-drin domestig.

Mae'r Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd⁶⁷ ar gael i ddarparu arian cyhoeddus am gyfnod o dri mis i unigolion cymwys y tu allan i'r rheolau mewnfudo er mwyn eu cefnogi, ymysg pethau eraill, i ymgeisio am hawl amhendiant i aros. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio i greu sail dystiolaeth er mwyn adolygu a gwella'r modd y mae'r system mewnfudo'n darparu ar gyfer unigolion sydd wedi dioddef cam-drin domestig. Mae hyn yn cynnwys darparu £250,000 o gyllid drwy'r Dreth Tamponau i Southall Black Sisters i gynnal cynllun peilot i gefnogi menywod a'u plant sydd wedi dioddef oherwydd trais a cham-drin ar fisâu dibriad na allant gael arian cyhoeddus.

15. Cwestiwn: Yn ogystal ag adolygu pwy sy'n gymwys i gael y Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd, beth arall y gallai'r Llywodraeth ei ystyried er mwyn amddiffyn dioddefwyr cam-drin domestig na allant gael arian cyhoeddus?

Testun rhydd

2C: Cynigion i gadw dioddefwyr yn ddiogel

Creu Gorchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig newydd

Mae gwneud gorchymynion amddiffyn yn erbyn drwgweithredwyr yn ffordd bwysig o gadw dioddefwyr yn ddiogel ac atal cam-drin rhag parhau neu waethygu. Mae'r rhain hefyd yn gallu rhoi'r lle i anadlu sydd ei angen ar ddioddefwyr wrth iddynt ystyried yr opsiynau sydd ar gael iddynt, a rhoi mwy o amser a thystiolaeth i'r heddlu i ffurfio achos yr erlyniad.

Gorchymynion amddiffyn presennol:

⁶⁷ <https://www.gov.uk/government/publications/application-for-benefits-for-visa-holder-domestic-violence>

Gellir defnyddio ystod o orchmynion ar hyn o bryd i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig. Mae Gorchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig⁶⁸ yn benodol i achosion o drais domestig – ond gellir gwneud gorchmynion eraill, gan gynnwys gorchmynion atal, gorchmynion peidio ag ymyrryd, a gorchmynion meddiannaeth, o dan wahanol amgylchiadau. Mae'r gorchmynion hyn yn amrywio o ran pwy sy'n cael ymgeisio amdanynt, yr amodau cysylltiedig a beth sy'n digwydd os cânt eu torri. Gall gwahanol bartion, gan gynnwys dioddefwyr, asiantaethau a'r heddlu, ymgeisio am wahanol orchmynion ac nid oes un gorchymyn sy'n berthnasol ar draws awdurdodaethau'r llysoedd troseddol, teulu a sifil. Gall hyn arwain at ddryswch i ddiodefwyr ac ymarferwyr mewn achosion cam-drin domestig ac at broblemau â gorfodi. Mae rhai ymarferwyr heddlu a sefydliadau sy'n cynrychioli dioddefwyr hefyd wedi dweud bod diffyg posibilrwydd o gosb droseddol ar ôl torri amodau gorchymyn amddiffyn rhag trais domestig presennol yn cyfyngu ar effeithiolrwydd y gorchymyn.

Hysbysiad a gorchymyn amddiffyn newydd arfaethedig

Rydym yn cynnig creu Hysbysiad Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig newydd, y gellid ei wneud gan yr heddlu, a Gorchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig, y gellid ei wneud gan y llysoedd o dan ystod eang o amgylchiadau. Byddai'r mesurau hyn yn uno'r elfennau cryfaf ar y gorchmynion amddiffynnol presennol a ddefnyddir mewn achosion cam-drin domestig, gan greu un llwybr hyblyg i ddiodefwyr, yr heddlu ac ymarferwyr eraill.

Er ein bod yn cynnig bod y drefn newydd hon yn disodli'r hysbysiad a'r gorchymyn amddiffyn rhag trais domestig sy'n bodoli, bydd gorchmynion eraill sy'n bodoli, megis gorchmynion atal, gorchmynion peidio ag ymyrryd a gorchmynion meddiannaeth, yn parhau i fodoli gan fod y rhain yn amddiffyn diodefwyr mewn sefyllfaoedd heblaw cam-drin domestig.

Cynigion penodol ar gyfer yr Hysbysiad Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig:

Rydym yn cynnig y byddai'r hysbysiad newydd wedi'i fodelu'n agos ar yr hysbysiad presennol. Mae hyn oherwydd ein bod yn ei ystyried yn ffordd effeithiol o roi seibiant i ddiodefwyr ar unwaith. Y prif newid o sylwedd fyddai y byddai'r amgylchiadau lle gellid gwneud yr hysbysiad yn gysylltiedig â'r diffiniad statudol newydd o gam-drin domestig; byddai hyn yn ei ymestyn i gynnwys achosion o gam-drin lle nad oes trais neu'r bygythiad o drais (yn wahanol i'r hysbysiad presennol sy'n gyfyngedig i achosion sy'n cynnwys trais neu fygythiadau o drais).

16. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylai'r Hysbysiad Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig arfaethedig wedi'i gyflwyno gan yr heddlu weithio yn yr un ffordd yn fras â'r hysbysiad presennol (heblaw y gellid ei gyflwyno hefyd mewn achosion o gam-drin nad ydynt yn cynnwys trais neu fygythiad o drais)?

Ydw	<input type="checkbox"/>
Na allai	<input type="checkbox"/>

⁶⁸ Mae gorchymyn amddiffyn rhag trais domestig yn orchymyn sifil sy'n cael ei wneud gan lys ynadon ar ôl cyhoeddi hysbysiad amddiffyn rhag trais domestig, sy'n amddiffyn diodefwyr am hyd at 28 diwrnod drwy atal y drwgweithredwr rhag ymyrryd â'r diodefwyr. Mae hefyd yn gallu atal y drwgweithredwr rhag mynd i gartref y mae'n ei rannu â'r diodefwyr.

Rhowch resymau (testun rhydd)	
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

Cynigion penodol ar gyfer y Gorchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig:

Ar gyfer y Gorchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig, rydym yn cynnig yr elfennau allweddol canlynol er mwyn amddiffyn dioddefwyr yn well:

- Fel yr hysbysiad arfaethedig, byddai'r amgylchiadau lle gellid gwneud y gorchymyn newydd yn gysylltiedig â'r diffiniad statudol newydd o gam-drin domestig; byddai hyn yn ei ymestyn i gynnwys achosion o gam-drin lle nad oes trais neu'r bygythiad o drais.
- Gellid gwneud y gorchymyn newydd mewn llys ar ôl cais annibynnol, gan gynnwys gan y dioddefwr a rhai partïon ar ran y dioddefwr (er enghraifft, aelod o'r teulu neu wasanaeth cefnogi), a gellid hefyd ei wneud mewn llys yn ystod unrhyw achos sy'n mynd rhagddo, gan gynnwys ar adeg euogfarnu neu ryddfarnu mewn unrhyw achos troseddol. Byddai gan yr heddlu hefyd y grym i ymgeisio am y gorchymyn newydd, gan gynnwys ar ôl iddynt wneud Hysbysiad Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig. Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu y gellid gwneud Gorchymynion Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig mewn llysoedd teulu, sifil a throseddol. Drwy ganiatáu i'r gorchymynion hyn gael eu gwneud ar draws pob awdurdodaeth, ein bwriad yw darparu hyblygrwydd a galluogi'r gwahanol awdurdodaethau i ymateb yn well i gam-drin domestig.
- Byddai'r gorchymyn newydd hefyd yn fwy hyblyg o ran yr amodau y gellid eu cysylltu ag ef, gan gynnwys gwaharddiadau (er enghraifft gofynion i beidio â chysylltu â'r dioddefwr, gan gynnwys ar-lein, peidio â dod o fewn pellter penodol i'r dioddefwr, a pheidio ag yfed alcohol neu gymryd cyffuriau) a gofynion cadarnhaol. Gallai'r gofynion cadarnhaol hyn gynnwys presenoldeb mewn rhaglenni i ddrwgweithredwyr, rhaglenni triniaeth alcohol a chyffuriau a rhaglenni magu plant. Hefyd, gellid defnyddio monitro electronig (er enghraifft, monitro lleoliad neu fonitro alcohol) a gofynion hysbysu (er enghraifft, gofyniad i rai drwgweithredwyr roi gwybodaeth bersonol i'r heddlu megis eu cyfeiriad a manylion eu perthynas a'u hamgylchiadau teuluol) fel amodau ynghlwm wrth y gorchymyn newydd.
- Byddai hyblygrwydd o ran hyd y cyfnod y gallai'r gorchymyn newydd fod ar waith: gallai fod am gyfnod i'w bennu gan y llys neu hyd nes i'r llys wneud gorchymyn pellach, yn wahanol i uchafswm hyd y gorchymyn amddiffyn rhag trais domestig presennol, sef 28 diwrnod.
- Byddai torri amodau Gorchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig yn drosedd.

17. Cwestiwn: Pa rai o'r unigolion/sefydliadau canlynol a ddylai allu ymgeisio am Orchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig? Dewiswch bob un sy'n berthnasol:

Y dioddefwr	<input type="checkbox"/>
Rhai unigolion sy'n gysylltiedig â'r dioddefwr (er enghraifft, rhai aelodau teulu) ar ran y dioddefwr	<input type="checkbox"/>
Yr heddlu (ar ôl cyhoeddi Hysbysiad Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig neu ar unrhyw adeg arall)	<input type="checkbox"/>
Trydydd partïon perthnasol, wedi'u pennu gan reoliadau, ar ran dioddefwyr (gweler Cwestiwn 18 am fanylion pellach)	<input type="checkbox"/>
Gyda chaniatâd y llys, unrhyw unigolyn neu sefydliad arall	<input type="checkbox"/>
Arall (testun rhydd)	<input type="checkbox"/>
Rhowch resymau (testun rhydd)	<input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

18. Cwestiwn: Pa unigolion neu gyrff y dylai rheoliadau eu pennu'n 'drydydd partïon perthnasol' a gaiff ymgeisio am Orchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig ar ran dioddefwr? Dewiswch bob un sy'n berthnasol:

Gweithwyr proffesiynol diogelu neu ofal cymdeithasol awdurdodau lleol	<input type="checkbox"/>
Darparwyr gwasanaethau prawf	<input type="checkbox"/>
Cynghorwyr cam-drin domestig arbenigol/Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig	<input type="checkbox"/>
Gwasanaethau cefnogi anstatudol arbenigol (er enghraifft staff cefnogi mewn llochesi)	<input type="checkbox"/>
Arall (testun rhydd)	<input type="checkbox"/>
Dim un o'r uchod	<input type="checkbox"/>
Rhowch resymau (testun rhydd)	<input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

19. Cwestiwn: Rydym yn cynnig y dylid caniatáu amryw o lwybrau i ymgeisio am Orchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig, gan gynnwys:

- gan yr heddlu mewn llys ynadon ar ôl cyhoeddi Hysbysiad Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig neu ar unrhyw adeg arall
- fel cais annibynnol gan, er enghraifft, y dioddefwr neu unigolyn neu sefydliad ar ran y dioddefwr mewn llys teulu
- gan barti yn ystod unrhyw achos teulu, sifil neu droseddol

A ydych yn cytuno? Dewiswch un.

Ydw	<input type="checkbox"/>
Na allai	<input type="checkbox"/>
Rhowch resymau (testun rhydd)	<input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

20. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylai llysoedd teulu, sifil a throseddol allu gwneud Gorchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig o'u dewis eu hun yn ystod unrhyw achos?

Byddai hyn yn cynnwys os nad yw'r dioddefwr na thrydydd partion perthnasol wedi ymgeisio. Mewn llys troseddol, gallai hyn gynnwys ar ôl euogfarn neu ryddfarn. Dylai hyn alluogi gwahanol awdurdodaethau i ymateb yn well i gam-drin domestig drwy roi llwybr clir i bob llys i amddiffyn unigolion y nodwyd eu bod yn wynebu risg.

Ydw	<input type="checkbox"/>
Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Rhowch resymau (testun rhydd)	<input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

Amodau'r gorchymyn

Dim ond rhai amodau gwahardd y mae'r gorchymyn amddiffyn rhag trais domestig presennol yn gallu eu gosod, er enghraifft atal y camdriniwr rhag ymyrryd â'r dioddefwr neu fynd i mewn i adeilad a rennir â'r dioddefwr. Ar gyfer y gorchymyn newydd, rydym yn cynnig y dylai'r llysoedd allu gosod gofynion cadarnhaol, yn ogystal â gwaharddiadau, os ydynt o'r farn eu bod yn angenrheidiol er mwyn lleihau'r risg o gam-drin domestig pellach. Gallai'r gofynion cadarnhaol gynnwys presenoldeb mewn rhaglenni i ddrwgweithredwyr, rhaglenni magu plant neu driniaeth alcohol a chyffuriau. Bwriad y rhain yw lleihau'r risg a berir gan y drwgweithredwr ac annog newid i'w ymddygiad a'i agwedd. Gan ein bod yn cynnig y dylai'r gorchymyn newydd fod ar gael i'w wneud mewn llysoedd teulu, sifil a throseddol, gellid gwneud y gofynion cadarnhaol neu'r gofynion gwahardd hyn o dan

amgylchiadau lle nad oes cyhuddiad troseddol, ar adeg rhyddfarnu, neu ar adeg euogfarnu os yw'r llys o'r farn bod eu hangen er mwyn atal cam-drin pellach. Rydym yn cynnig y byddai torri unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y gorchymyn newydd yn drosedd.

21. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylai'r llysoedd allu gosod gofynion cadarnhaol, yn ogystal â gwaharddiadau, fel rhan o'r amodau sydd ynghlwm wrth y gorchymyn arfaethedig? Dewiswch un.

Ydw	<input type="checkbox"/>
Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Rhowch resymau (testun rhydd)	<input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

Gofynion hysbysu

Rydym yn cynnig y dylai'r llysoedd allu mynnu bod unigolion sy'n destun Gorchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig yn hysbysu'r heddlu am rai manylion personol os ydynt o'r farn y byddent yn helpu i atal cam-drin yn y dyfodol.

Byddai hyn yn golygu y gellid mynnu o dan rai amgylchiadau bod yr unigolyn yn rhoi gwybodaeth bersonol i'r heddlu, er enghraifft manylion ynglŵn â ble mae'n byw a gyda phwy, ac ynglŵn ag unrhyw berthynas agos ac unrhyw blant cysylltiedig. Byddai hyn yn cynorthwyo swyddogion i asesu'n gywir y risg y gallai unigolyn ei beri i unrhyw ddiodefwrwr posibl ac i gymryd camau priodol i'w hamddiffyn. Er enghraifft, mewn rhai achosion, gallai hyn gynnwys datgelu gwybodaeth am droseddu blaenorol i bartner newydd, neu'r heddlu'n gweithio gyda gwasanaethau plant i sicrhau y canfyddir anghenion plant sy'n ymuno ag aelwyd lle mae cam-drin domestig wedi digwydd. Mae system debyg, fwy estynedig o ofynion hysbysu eisoes ar gael i'r heddlu i'w helpu i reoli troseddwr rhyw cymwys (yr enw cyffredin ar y system hon yw'r Gofrestr Troseddwr Rhyw).

22. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylai'r llysoedd allu mynnu bod unigolion sy'n destun Gorchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig yn hysbysu'r heddlu am fanylion personol?

Ydw	<input type="checkbox"/>
Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Rhowch resymau (testun rhydd)	<input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

23. Cwestiwn: Os ydych, pa fanylion personol y dylai'r llysoedd allu mynnu bod unigolion yn eu rhoi i'r heddlu? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

Enw/newid enw	<input type="checkbox"/>
Cyfeiriad cartref/newid cyfeiriad cartref	<input type="checkbox"/>
Ffurio perthynas newydd â phartner agos	<input type="checkbox"/>
Newid amgylchiadau yn ymwneud â'r aelwyd – gan gynnwys plentyn newydd yn cael ei eni neu'n ymuno â'r aelwyd mewn modd arall	<input type="checkbox"/>
Manylion gorchmynion trefniadau plant ar gyfer ble y bydd plentyn yn byw a gyda phwy, a gyda phwy y bydd plentyn yn treulio amser neu mewn cysylltiad fel arall	<input type="checkbox"/>
Dim un o'r uchod	<input type="checkbox"/>
Arall (testun rhydd)	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

Gorchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig – torri'r amodau

Byddai gwneud torri amodau'r gorchymyn arfaethedig yn drosedd yn anfon y neges bod diffyg cydymffurfio'n cael ei drin fel mater difrifol. Byddai hyn yr un fath â throsedd torri amodau gorchmynion atal a gorchmynion peidio ag ymyrryd. Dylai hyn, yn ei dro, atal drwgweithredwyr a'u hannog i gydymffurfio â thelerau'r gorchymyn, gan amddiffyn dioddefwyr yn well.

Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod cam-drin domestig yn fater cymhleth, ac y gallai rhai dioddefwyr bryderu am riportio achos o dorri amodau gorchymyn pe gallai hynny arwain at erlyn y camdriniwr. Felly, ceir risg y gallai troseddoli torri'r amodau atal pobl rhag gwneud cais am y gorchymyn arfaethedig, neu rhag riportio torri amodau gorchymyn sydd wedi'i wneud. Un ffordd bosibl o ymateb i'r pryderon hyn fyddai amodi bod torri amodau Gorchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig hefyd yn gallu cael ei gosbi fel dirmyg llys a, phe bai'r tor amodau'n cael ei gosbi fel dirmyg llys, na ellid hefyd euogfarnu'r drwgweithredwr yn droseddol. Dyma'r model a ddefnyddir ar gyfer y gorchymyn peidio ag ymyrryd.

24. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylai torri amodau'r gorchymyn arfaethedig fod yn drosedd?

Ydw	<input type="checkbox"/>
Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Rhowch resymau (testun rhydd)	<input style="width: 100px; height: 20px;" type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

25. Cwestiwn: Os ydych yn cytuno y dylai torri amodau'r gorchymyn arfaethedig fod yn drosedd, a ddylai fod yn bosibl cosbi'r tor amodau fel dirmyg llys?

Dylai	<input type="checkbox"/>
Na ddylai	<input type="checkbox"/>
Rhowch resymau (testun rhydd)	<input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

Gorchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig – monitro electronig

Rydym yn credu y byddai'n bosibl defnyddio monitro electronig fel rhan o'r gorchymyn arfaethedig i helpu i atal cam-drin pellach. Wrth i dechnolegau monitro electronig newydd gael eu datblygu, gellid eu defnyddio fel rhan o Orchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig i fonitro cydymffuriad y drwgweithredwr ag un o'r amodau eraill a osodwyd, megis cydymffurfio â pharth eithrio, neu wahardd rhywun rhag yfed alcohol. Gallai hefyd alluogi monitro lleoliad drwgweithredwr i sefydlu patrymau ymddygiad neu roi tystiolaeth o symudiadau rhywun, a allai yn ei dro helpu i atal stelcio neu frwychu. Byddem am i'r ddarpariaeth fod yn hyblyg er mwyn galluogi'r llysoedd i dargedu ac atal ymddygiadau neu risgiau penodol, yn hytrach na chanolbwyntio ar dechnoleg benodol.

Mae'r amgylchiadau lle gallai llysoedd ystyried defnyddio monitro electronig, heb rym deddfwriaethol penodol i wneud hynny, yn gyfyngedig. I gefnogi bwriad y bil drafft, rydym felly yn cynnig rhoi grym penodol i lysoedd i ddefnyddio monitro electronig fel un o amodau'r gorchymyn newydd.

Rydym hefyd yn cynnig cynnwys cyfres statudol o fesurau diogelu i sicrhau na chaiff monitro electronig ei ddefnyddio oni bai ei fod yn angenrheidiol i atal cam-drin pellach, a'i fod yn gam cymesur i'w gymryd. Byddai hyn yn cynnwys mynnu bod trothwy yn cael ei gyrraedd cyn i'r llys allu cynnwys amod monitro electronig mewn Hysbysiad Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig. Gallai gofyniad i dreialu defnyddio monitro electronig hefyd helpu i asesu a yw'n fesur ataliol effeithiol yng nghyd-destun cam-drin domestig, cyn dechrau'r ddarpariaeth yn genedlaethol.

26. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylai'r llysoedd gael grym penodol i ddefnyddio monitro electronig fel un o amodau Gorchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig?

Ydw	<input type="checkbox"/>
Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Rhowch resymau (testun rhydd)	<input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

27. Cwestiwn: Pa fesurau diogelu statudol penodol ynglŷn â defnyddio monitro electronig gyda Gorchmynion Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig y dylid eu rhoi ar waith?

Testun rhydd

Cofrestru dienw

Rydym am sicrhau, cyn gynted â bod dioddefwr wedi gadael perthynas gamdriniol, bod cynlluniau ar gael i'w cefnogi i gadw eu manylion personol yn ddiogel.

Pan fydd unigolion yn cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau, bydd eu henw a'u cyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae hyn yn helpu i ddiogelu uniondeb ein democratiaeth.

Sefydlwyd cofrestru dienw i helpu unigolion a fyddai mewn perygl (neu y byddai pobl eraill yn yr un cyfeiriad â hwy mewn perygl) pe bai eu henw neu eu cyfeiriad wedi'i restru ar y gofrestr etholiadol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, tystion mewn achosion troseddol a phobl sy'n dianc rhag trais domestig.

Pan fydd unigolyn yn ymgeisio i gofrestru'n ddiennw, rhaid cynnwys tystiolaeth y byddent hwy, neu rywun sy'n byw yn yr un cyfeiriad â hwy, mewn perygl pe bai eu henw a'u cyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol. Yn y gorffennol, nid yw hyn wedi bod yn hawdd i oroeswyr cam-drin domestig.

Ym mis Medi 2017, cyhoeddodd y Llywodraeth becyn o newidiadau deddfwriaethol i'w gwneud yn haws cofrestru i bleidleisio'n ddiennw.⁶⁹ Mae disgwyl i'r newidiadau ddod i rym cyn etholiadau lleol Mai 2018 yn Lloegr. Mae'r newidiadau'n helpu goroeswyr cam-drin domestig i brofi eu bod mewn perygl drwy:

- ehangu'r ystod o bobl sy'n gallu tystio'n ffurfiol bod ymgeisydd mewn perygl (i gynnwys rheolwyr llochesi, gweithwyr iechyd proffesiynol ac arolygwyr heddlu)
- ymestyn y rhestr o dystiolaeth ddogfennol i gynnwys gorchmynion amddiffyn rhag trais domestig a gorchmynion amddiffyn rhag anffurfio organau cenhedlu benywod.

Fodd bynnag, mae'r llywodraeth yn awyddus i ymchwilio ymhellach i welliannau posibl yn y maes hwn.

28. Cwestiwn: Faint yn haws fydd hi, yn eich tyb chi, i ddioddefwyr cam-drin domestig gofrestru i bleidleisio'n ddiennw, wedi i'r newidiadau a grynhoir uchod ddigwydd?

Llawer haws	<input type="checkbox"/>
Haws	<input type="checkbox"/>
Haws i raddau	<input type="checkbox"/>

⁶⁹ <https://www.gov.uk/government/news/domestic-abuse-survivors-given-a-voice-to-vote>

Ychydig bach yn haws	<input type="checkbox"/>
Dim haws	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

29. **Cwestiwn: Pa gefnogaeth bellach y gellid ei rhoi i oroeswyr i brofi y byddent mewn perygl pe bai eu henw a'u cyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol? Cyflwynwch un awgrym.**

Testun rhydd

30. **Cwestiwn: A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach ynglŷn â sut i'w gwneud yn haws i oroeswyr cam-drin domestig gofrestru i bleidleisio'n ddiennw?**

Testun rhydd

31. **Ar wahân i gofrestru'n ddiennw, sut arall y gallwn gadw cyfeiriadau dioddefwyr yn ddiogel?**

Testun rhydd

Y Cynllun Datgelu Trais Domestig

Mae'r Llywodraeth wedi treialu, ac yna wedi cyflwyno'n genedlaethol, y Cynllun Datgelu Trais Domestig, neu Ddeddf Clare.⁷⁰ Mae'r cynllun yn seiliedig ar bwerau cyfraith gyffredin yr heddlu, ac mae canllawiau manwl i'w danategu.

Nid oedd y Cynllun hwn yn cyflwyno deddfwriaeth newydd. Mae'r cynllun yn seiliedig ar bu er cyfraith gyffredin yr heddlu i ddatgelu gwybodaeth os oes angen gwneud hynny i atal troseddau. Mae'r cynllun yn darparu strwythur a phrosesau er mwyn arfer y pwerau. Nid yw'n darparu'r pu er i ddatgelu nac i atal datgeliadau rhag cael eu gwneud mewn sefyllfaoedd sydd y tu hwnt i gwmpas y cynllun hwn. Rhaid i unrhyw ddatgeliad o dan y cynllun fod o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol ac, yn benodol, ystyried cyfraith achosion sydd wedi'i sefydlu, Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Diogelu Data.

Mae'r cynllun yn darparu cyfres o weithdrefnau a gydnabyddir ar gyfer rhannu gwybodaeth â dioddefwr neu ddioddefwr posibl, ynglwn â throseddau treisgar blaenorol eu partner ac euogfarnau wedi'u disbyddu. Diben y cynllun yw gwneud y cyhoedd yn fwy diogel ac amddiffyn dioddefwyr cam-drin domestig yn well drwy eu helpu i wneud penderfyniad mwy deallus ynglwn â pharhau mewn perthynas ai peidio. Rydym am sicrhau bod y Cynllun Datgelu Trais Domestig yn cael ei ddefnyddio'n gyson gan heddluoedd, yn enwedig o ran sut y byddant yn rheoli datgeliadau.

⁷⁰ Y Swyddfa Gartref (2016). Y Cynllun Datgelu Trais Domestig. Un flwyddyn yn ddiweddarach – asesiad y Swyddfa Gartref o gyflwyno'r cynllun yn genedlaethol. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/505434/2016-03-08_DVDS_report__final_.pdf

Nododd adroddiad thematig cam-drin domestig Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi yn 2017 fod angen i heddluoedd godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun ymysg dioddefwyr a sicrhau y cysylltir dioddefwyr â sefydliadau cam-drin domestig arbenigol a all ddarparu cefnogaeth a chyngor ychwanegol.⁷¹ Canfu'r adroddiad anghysondebau yn y ffordd yr oedd heddluoedd yn defnyddio'r cynllun, gan nodi nifer isel y datgeliadau a'r gwahaniaeth rhwng defnyddio datgeliadau 'hawl i wybod' a 'hawl i ofyn'.

I sicrhau y caiff y Cynllun ei ddefnyddio'n amlach ac yn fwy cyson, rydym yn cynnig gwneud y canllawiau sy'n tanategu'r cynllun yn gyfraith, a fyddai'n rhoi dyletswydd ar yr heddlu i ystyried y canllawiau. Rydym yn credu y byddai hyn yn gwneud y cynllun yn fwy gweladwy, ac felly y câi ei ddefnyddio mwy, gan olygu y byddai mwy o ddioddefwyr a dioddefwyr posibl yn cael eu rhybuddio o'r peryglon a berir gan bartner ac felly'n atal achosion pellach o gam-drin.

Byddem hefyd yn croesawu syniadau ynglŵn â sut arall y gallwn gynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio'r cynllun, a'i effeithiolrwydd, a rhannu arfer gorau o ran ei ddefnyddio.

32. Cwestiwn: Cyn darllen yr ymgynghoriad hwn, a oeddech yn ymwybodol o'r Cynllun Datgelu Trais Domestig (Deddf Clare)?

Oeddwn	<input type="checkbox"/>
Nac oeddwn	<input type="checkbox"/>

33. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylai'r canllawiau sy'n tanategu'r Cynllun Datgelu Trais Domestig gael eu gwneud yn gyfraith?⁷² Dewiswch un.

Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
Cytuno	<input type="checkbox"/>
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
Anghytuno	<input type="checkbox"/>
Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
Rhowch resymau (testun rhydd)	<input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

⁷¹ HMIC (2017). Adroddiad am gynnydd ymateb yr heddlu i gam-drin domestig

⁷² https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/575361/DVDS_guidance_FINAL_v3.pdf

34. Cwestiwn: Beth yr ydych yn meddwl yw'r ffordd orau i ni hybu ymwybyddiaeth o'r Cynllun Datgelu Trais Domestig ymysg y cyhoedd?

Deunyddiau marchnata (er enghraifft posteri, taflenni)	<input type="checkbox"/>
Teledu a radio	<input type="checkbox"/>
Cyfryngau (er enghraifft papurau newydd, cylchgronau)	<input type="checkbox"/>
Cyfryngau cymdeithasol (er enghraifft Facebook, YouTube, WhatsApp, Twitter, Instagram)	<input type="checkbox"/>
Ar-lein drwy ddefnyddio peiriant chwilio	<input type="checkbox"/>
Arall (testun rhydd)	<input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>
Rhowch resymau (testun rhydd)	<input type="text"/>

2D: Ffurfiâu cam-drin domestig

Cam-drin economaidd

Nid dim ond mater corfforol neu seicolegol yw cam-drin domestig – gall hefyd fod yn economaidd neu'n ariannol. Fel y nodwyd eisoes, rydym yn ystyried cydnabod cam-drin economaidd (sy'n cynnwys cam-drin ariannol) a'i gynnwys yn benodol yn y diffiniad statudol.

"Roedd hi'n rheoli fy nghyflog ac yn rhoi £20 yr wythnos i mi ohono"⁷³

Mae cam-drin economaidd yn mynd yn bellach na dim ond cam-drin ariannol ac mae'n gallu cynnwys ymddygiad sy'n rheoli gallu unigolyn i ennill, defnyddio a chadw adnoddau economaidd – gan fygwth eu diogelwch economaidd a'u potensial i fod yn hunangynhaliol. Mae dyled wedi'i gorfodi'n gallu gadael dioddefwyr â dyledion na allant eu talu, neu â sgôr credyd isel. Fel arall, os yw partner camdriniol yn rheoli arian yr aelwyd, gall hyn adael y dioddefwr â ffeil gredyd denau pan fydd yn gadael perthynas. Mae'r materion hyn yn gallu bod yn rhwystrau sylweddol sy'n atal dioddefwyr rhag dianc rhag cam-drin domestig, ac yn ei gwneud yn anoddach iddynt ailadeiladu eu bywydau.⁷⁴

"Roedd y berthynas yn fy rheoli i'n llwyr. Fe es i o fod yn fenyw annibynnol i ddim byd. Roedd e'n fy rheoli i'n llwyr. Pan wnes i ei gyfarfod ef, roedd gen i yrfa dda, cynilion a fy nghar fy hun. Roedd ef eisiau ffordd anhygoel o fyw, ac fy incwm i oedd yn gorfod

⁷³ Bates, E. (2017). *Hidden Victims: Men and their Experience of Domestic Violence*. Ar gael yn: <http://insight.cumbria.ac.uk/id/eprint/3463/>

⁷⁴ Mwy o wybodaeth am fathau o gam-drin economaidd yn: Cymorth i Fenywod (2012). Pennod 2 – Cam-drin domestig a cham-drin ariannol: Golwg gyffredinol

cynnal hynny. Fe gymerodd gar ar brydles gan fenthyca arian ar gyfer y blaendal yn fy enw i. Fe ddefnyddiodd fy nghardiau credyd a fy nghyfrifon siopau i brynu nwyddau iddo ei hun. Fe gymerodd arian o fy nghyfrif cyfredol gan ddefnyddio fy ngherdyn banc, ac fe wnaeth ddwyn o fy mhws. Roeddwn i'n cael fy ngorfodi i dalu am bethau neu i roi arian iddo. Y mwyaf roeddwn i'n ei fuddsoddi'n ariannol yn y berthynas, yr anoddaf oedd hi i mi adael.

*Yn y diwedd, oherwydd ei ymddygiad ef fe gollais i fy swydd a fy ngyrfa fel athrawes. Yn y pen draw, cafodd ef ei arestio a'i anfon i'r carchar. Er nad ydw i'n cael fy ngham-drin mwyach, rydw i'n dal i dalu'r pris am fod yn y berthynas. Gan fy mod i'n cael fy monitro'n gyson, doeddwn i ddim yn gallu ateb galwadau a llythyrau gan y banc. Cafodd hysbysiad diffygdlu ei gyflwyno a chafodd y balans ar fy ngherdyn credyd ei gofnodi fel bod heb ei setlo. Rydw i wedi apelio at yr Ombwdsmon Ariannol i gael gwared â hyn oherwydd mae'n golygu nad ydw i'n gallu symud ymlaen â fy mywyd.*⁷⁵

Yn 2013, sefydlodd y llywodraeth reoleiddiwr gwasanaethau ariannol a fyddai'n canolbwyntio ar ymddygiad, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, i sicrhau bod buddiannau defnyddwyr a chyfranogwyr yn ein marchnadoedd ariannol yn ganolog i'r system reoleiddio ac yn cael y flaenoriaeth y maent yn ei haeddu. Un o dri amcan gweithredol yr Awdurdod yw sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn yn briodol ac mae eu rheolau'n mynnu bod sefydliadau ariannol yn trin cwsmeriaid yn deg.⁷⁶

Mae gennym ddiddordeb mewn canfod materion ymarferol sy'n ei gwneud yn anoddach i ddiodeffwr ddianc rhag cam-drin ariannol neu wella pethau wedi iddo ddiogwydd. Mae'r corff masnach cyllid a bancio, UK Finance, yn archwilio ymchwil diweddar ac yn gweithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol megis Cyngor ar Bopeth a Refuge i ganfod sut y gall y diwydiant gwasanaethau ariannol gyfrannu at y frwydr yn erbyn cam-drin ariannol a helpu diodeffwyr. Eu nod yw datblygu cod ymarfer gwirfoddol i'r diwydiant i helpu i arwain ymateb sefydliadau ariannol wrth ymdrin â diodeffwyr. Bydd hyn hefyd yn sefydlu sut y gall y diwydiant gwasanaethau ariannol gyfrannu at helpu i godi ymwybyddiaeth o gam-drin ariannol, ac yn grymuso diodeffwyr i adennill rheolaeth dros eu harian drwy wneud penderfyniadau deallus yn seiliedig ar eu hamgylchiadau personol.

Hefyd, efallai y byddai cyfnod o seibiant – heb ffioedd, taliadau a chamau gorfodi i ddefnyddwyr â llawer gormod o ddyled – o fudd ymarferol i ddiodeffwyr cam-drin ariannol. Yn ddiweddar, mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi galwad am dystiolaeth ar gyfer seibiant, a chât hyn ei ddilyn, lle bo'n briodol, gan gynllun statudol i ad-dalu'r ddyled.⁷⁷

35. Cwestiwn: Pa rwystrau ymarferol sy'n wynebu diodeffwyr cam-drin domestig o ran dianc rhag cam-drin economaidd neu wella pethau ar ôl cam-drin economaidd, a sut y gellid goresgyn y rhain?

Testun rhydd

Bygythiadau ar-lein a defnyddio technoleg i gam-drin

Mae datblygiadau technolegol wedi gwneud gwelliant radical i fywydau llawer o bobl. Fodd bynnag, mae ochr dywyllach i hyn hefyd, lle mae'r holl dechnoleg yn ein bywyd bob

⁷⁵ <http://www.survivingeconomicabuse.org/>

⁷⁶ <https://www.fca.org.uk/publication/corporate/fca-approach-advancing-objectives-2015.pdf>

⁷⁷ <https://www.gov.uk/government/consultations/breathing-space-call-for-evidence>

dydd, a'i phwysigrwydd, yn creu cyfleoedd newydd ar gyfer cam-drin domestig. Mae hyn yn gallu cynnwys cam-drin rhywun ar-lein ar gyfryngau cymdeithasol, atal dioddefwyr rhag defnyddio eu ffonau symudol, neu osod dyfeisiau olrhain er mwyn gallu dilyn symudiadau dioddefwyr drwy'r amser. Gall dioddefwyr deimlo fel nad oes dianc, yn gorfforol ac yn rhithiol, a bod technoleg yn cael ei defnyddio i'w harwahanu, eu cosbi a'u cywilyddio. Rydym wedi gweld y cynnydd hwn mewn cam-drin cysylltiedig â thechnoleg yn cael ei adlewyrchu yn niferoedd yr erlyniadau. Ers ei gyflwyno, mae llawer o'r erlyniadau am ymddygiad gorfodi neu reoli wedi ymwneud â rheoli dioddefwyr drwy'r rhyngwrwd, meddalwedd olrhain a gwefannau cyfryngau cymdeithasol. Hefyd, bu cynnydd yng nghyfran y troseddau cysylltiedig â cham-drin domestig o gyfathrebu anweddus neu ddifrifol dramgwyddus.⁷⁸

“Ar ôl rhai misoedd gyda'n gilydd, roedden ni'n gwybod cyfrineiriau Facebook ein gilydd ond ar y pryd roeddwn i'n meddwl bod hynny'n beth normal i'w wneud. Yn fuan wedyn, dechreuodd fynd ar fy Facebook yn eithaf aml nes ei fod arno bob dydd”⁷⁹

Rydym yn gwybod bod rhaid i ni wneud mwy i ymdrin â cham-drin domestig cysylltiedig â thechnoleg ac i rymuso dioddefwyr posibl a goroeswyr i deimlo'n fwy diogel ar-lein. Ar 11 Hydref 2017, cyhoeddodd y Llywodraeth y Papur Gwyrdd Strategaeth Diogelwch ar y Rhyngwrwd.⁸⁰ Ei nod yw gwneud Prydain y lle mwyaf diogel yn y byd i ddefnyddwyr ar-lein drwy ddatblygu cymunedau ar-lein mwy diogel a grymuso pobl i gymryd camau i wella eu diogelwch ar-lein. Mae'r strategaeth yn ystyried cyfrifoldebau cwmnïau i'w defnyddwyr, defnyddio datrysiadau technegol i atal niwed ar-lein a swyddogaeth y llywodraeth o ran cefnogi'r cyhoedd ar-lein.

Bydd y llywodraeth yn gweithio drwy'r mesurau a amlinellir yn y strategaeth i atal ac ymdrin ag ymddygiad ar-lein sy'n niweidiol ond yn gyfreithlon. Mae eu mentrau'n cynnwys:

- Sefydlu cod ymarfer cyfryngau cymdeithasol i ymdrin ag ymddygiad sy'n bwlio defnyddwyr neu'n eu sarhau, neu ymddygiad arall sy'n debygol o frwychu neu gywilyddio defnyddwyr. Bydd y cod yn rhoi arweiniad i ddarparwyr y cyfryngau cymdeithasol ynglŷn â'r trefniadau i unigolion hysbysu'r gwefannau am yr ymddygiad hwn a'r prosesau i ymateb i'r hysbysiadau hyn.
- Cyflwyno adroddiad blynyddol ar dryloywder diogelwch ar y rhyngwrwd i roi data ar lefel y Deyrnas Unedig ynglŷn â pha gynnwys ar-lein tramgwyddus sy'n cael ei riportio, sut y mae cwmnïau cyfryngau cymdeithasol yn ymateb i gwynion, a pha ddeunydd sy'n cael ei ddileu. Bydd adroddiadau blynyddol yn helpu i osod llinellau sylfaen i gymharu cynnydd cwmnïau â hwy, ac yn annog cwmnïau i rannu arfer gorau â'i gilydd.
- Gweithio gyda chwmnïau technoleg newydd a sefydledig i gynnwys nodweddion a gosodiadau diogelwch mewn cynhyrchion a llwyfannau o'r dechrau, fel bod offer technegol ar gael i bob defnyddiwr i helpu i'w gadw'n ddiogel ar-lein.
- Mae'r Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'r Adran Addysg yn cynhyrchu'r agweddau 'diogelwch ar-lein' ar bynciau gorfodol newydd: 'Addysg

⁷⁸ Gwasanaeth Erlyn y Goron (2016-17). Adroddiad trais yn erbyn menywod a genethod, 10^{fed} argraffiad

⁷⁹ SafeLives (2017). Ffocws ar bobl ifanc a cham-drin domestig. Ar gael yn: <http://www.safelives.org.uk/knowledge-hub/spotlights/spotlight-3-young-people-and-domestic-abuse>

⁸⁰ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/650949/Internet_Safety_Strategy_green_paper.pdf

Perthynas' ac 'Addysg Perthynas a Rhyw'. Rydym yn cydnabod mai hon yw'r genhedlaeth gyntaf o blant sy'n dysgu am berthynas a rhyw mewn byd ar-lein, felly mae'n bwysig bod plant yn magu sgiliau llythrennedd ddigidol fel eu bod wedi'u harfogi i wneud dewisiadau doeth ar-lein.

- Edrych ar sut y gellir rhoi cefnogaeth well i holl ddefnyddwyr y rhyngwrwd, gan gynnwys dioddefwyr cam-drin domestig ac oedolion agored i niwed eraill, i reoli risgiau ar-lein drwy gyfrwng arweiniad ac offer technolegol.
- Adolygiad gan Gomisiwn y Gyfraith o'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â chyfathrebu tramgwyddus ar-lein i sicrhau bod deddfau'n cyd-fynd â'r dechnoleg ddiweddaraf.

Astudiaeth achos: Ymdrin â cham-drin technolegol

"Roedd ef wedi integreiddio gweithgaredd fy iPhone ar ei iPad ... roedd yn gwyllo ac yn monitro popeth. Gwnaeth hynny i mi roi'r gorau i gysylltu â phobl. Roedd yn fy ngwneud i'n fwy unig fyth."

Mae Refuge, gyda chyllid gan y Dreth Tamponau, Google.org a Comic Relief, yn ddiweddar wedi lansio rhaglen gyda'r nod o ddiogelu a grymuso menywod yn erbyn camddefnyddio technoleg fodern.

Mae technoleg fodern yn gallu rhoi ffyrdd newydd i ddrwgweithredwyr o reoli, arwahanu a chywilyddio a rheoli dioddefwyr gan ddefnyddio eitemau megis ffonau, gliniaduron a hyd yn oed offer llywio â lloeren.

Bydd prosiect arloesol Refuge yn cadw dioddefwyr yn ddiogel rhag bygythiadau technolegol drwy eu haddysgu sut i ddiogelu eu dyfeisiau, grymuso dioddefwyr i ddefnyddio technoleg, hyfforddi 300 o staff rheng flaen i ymdrin â cham-drin technolegol a recriwtio arbenigwyr technoleg i gael gwybod am y tueddiadau diweddaraf.

Er bod technoleg yn cael ei defnyddio fel ffordd o gyflawni cam-drin, ceir cyfleoedd i ddefnyddio technoleg arloesol fel ffordd o frwydro yn erbyn cam-drin domestig a hefyd i ddarparu mwy o gefnogaeth i ddioddefwyr.

Astudiaeth achos: Technoleg er gwell

Mae TecSOS (*Technical S.O.S.*) yn fenter ddielw sy'n ceisio cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig sy'n wynebu risg uchel drwy ddarparu ffôn symudol wedi'i addasu'n arbennig sy'n ei gwneud hi'n haws cysylltu â'r heddlu mewn argyfwng. Mae'r ffonau'n cysylltu'n uniongyrchol â'r gwasanaeth 999, a chaiff y galwadau eu hadnabod ar unwaith a'u cyhoeddi i'r heddwys sy'n ateb y ffôn fel galwad TecSOS. Mae TecSOS hefyd yn gallu canfod lleoliad ac olrhain yn fyd-eang, gan anfon y wybodaeth i ystafelloedd rheoli'r heddlu.

Mae TecSOS ar waith mewn 40 o heddluoedd yn y Deyrnas Unedig ac mae hefyd ar gael mewn nifer o wledydd eraill yn Ewrop. Mae ganddo dros 81,000 o ddefnyddwyr. Mae gwerthusiadau annibynnol wedi dangos ystod o fuddion gan gynnwys gwell amseroedd ymateb gan yr heddlu, mwy o symudedd a hunanhyder i ddefnyddwyr ac arbedion costau. Mae TecSOS wedi'i achredu a'i drwyddedu gan Secured by Design.

36. Cwestiwn: Beth arall y gallwn ei wneud i frwydro yn erbyn cam-drin domestig sy'n digwydd ar-lein, neu drwy reoli technoleg?

Categoriâu riportio priodol ar wefannau cyfryngau cymdeithasol a chyfeirio dioddefwyr at gymorth oddi ar y wefan, megis llinellau cymorth	<input type="checkbox"/>
Arweiniad clir gan gwmnïau cyfryngau cymdeithasol am osodiadau preifatrwydd i ddefnyddwyr sy'n wynebu risg neu ddioddefwyr cam-drin domestig am gam-drin domestig ar-lein	<input type="checkbox"/>
Defnyddio a thrin tystiolaeth o gyfryngau cymdeithasol yn effeithiol o fewn y prosesau ymchwilio ac erlyn	<input type="checkbox"/>
Y llywodraeth/elusennau ac eraill yn hybu ymwybyddiaeth o risgiau ar-lein a risgiau technoleg mewn perthynas â cham-drin domestig, er enghraifft drwy hysbysebu	<input type="checkbox"/>
Y llywodraeth yn codi ymwybyddiaeth o ddrwgweithredwyr yn defnyddio ysbïwedd neu leolyddion GPS ar ffonau neu gyfrifiaduron	<input type="checkbox"/>
Adwerthwyr, rhaglenni a'r diwydiant technoleg ehangach yn codi ymwybyddiaeth am ddrwgweithredwyr yn defnyddio ysbïwedd neu leolyddion GPS ar ffonau neu gyfrifiaduron	<input type="checkbox"/>
Arall – nodwch os gwelwch yn dda	<input type="checkbox"/> <input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

Testun rhydd i esbonio eich dewis ymhellach

Pennod 3: Ymlid a Rhwystro Drwgweithredwyr

"Hoffem reoli drwgweithredwyr o'r ymateb cychwynnol gan asiantaeth hyd at euogfarn ac adsefydlu gan ddefnyddio ymyriadau effeithiol gyda'r nod o atal cam-drin a gwneud dioddefwyr yn fwy diogel"

Rydym yn ceisio safbwyntiau ynghlwn â sut i gyflawni hyn. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym:

- yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn ddiweddar i wella ymateb yr heddlu ac yn gofyn sut y gallwn wella cydymffuriad ymhellach (tudalen 53)
- yn ystyried sut y gallwn wella profiad y dioddefwyr o'r system cyfiawnder, i sicrhau bod dioddefwyr yn cysylltu â'r system ac yn cynorthwyo'r erlyniad hyd at ei gasgliad (tudalen 55)
- yn trafod y trosedd gorfodi neu reoli a gyflwynwyd yn 2015 ac yn ystyried a yw'n gweithio'n effeithiol (tudalen 59)
- yn amlinellu cynigion i sicrhau bod dedfrydu troseddau cysylltiedig â cham-drin domestig yn rhoi cydnabyddiaeth briodol i effaith ddinistriol cam-drin domestig ar ddiodefwyr ac unrhyw blant cysylltiedig (tudalen 60)
- yn disgrifio dulliau'r llywodraeth o fodloni awdurdodaeth alltirogaethol a gofynion aflonyddu rhywiol Confensiwn Istanbul (tudalen 62)
- yn archwilio a fyddai'n briodol defnyddio mwy o rybuddiadau amodol mewn achosion o gam-drin domestig (tudalen 65) er mwyn lleihau aildroseddu
- yn ystyried pa newidiadau a fyddai'n gwella dulliau rheoli drwgweithredwyr mynych (tudalen 66) a beth arall y gellid ei wneud i weithio gyda drwgweithredwyr i newid eu hymddygiad troseddol (tudalen 67)

Atal cam-drin domestig yn y lle cyntaf yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddiweddu cam-drin domestig. Mae angen i hyn fod yn flaenoriaeth i'r llywodraeth, cymdeithas sifil a'r cyhoedd yn gyffredinol. Fodd bynnag, pan fydd atal yn methu, mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein system cyfiawnder yn gallu erlyn drwgweithredwyr yn effeithiol, gan amddiffyn dioddefwyr⁸¹ rhag mwy o drallod.

Mae'r data sydd gennym am gam-drin domestig yn ddarniog; mae gwahanol sefydliadau'n casglu gwahanol fesurau, ar wahanol amserlenni a gan ddefnyddio gwahanol ddulliau casglu. Fodd bynnag, mae'r data'n dangos, yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2015, nad oedd pedwar o bob pump dioddefwr cam-drin domestig yn riportio'r cam-drin i'r heddlu.⁸² Yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2016, o'r digwyddiadau a'r troseddau cysylltiedig â cham-drin domestig a riportwyd i'r heddlu, cofnodwyd 41% fel troseddau.⁸³

⁸¹ Noder ein bod yn defnyddio'r gair 'dioddefwr' drwy'r bennod hon i gyd fel llawfer ar gyfer 'dioddefwr honedig'. Mae'r hawl i dreial teg yn ganolog i'n system cyfiawnder, yn ogystal â'r syniad bod y diffynnydd yn ddieuog nes y profir ei fod yn euog.

⁸² Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016). Troseddu yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn hyd at fis Medi 2015 Crynodeb: Trais a cham-drin yn erbyn partneriaid personol agos, Tabl 4.28

⁸³ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017). Troseddu yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn hyd at fis Medi 2016 Crynodeb: Cam-drin domestig, ymosodiadau rhywiol a stelcio

Er bod nifer yr euogfarnau wedi cynyddu 61% dros y 10 mlynedd diwethaf i 70,853⁸⁴, rydym yn gwybod bod rhaid i ni wneud mwy i sicrhau bod drwgweithredwyr yn cael eu herio.

3A: Gwella ymateb yr heddlu

Ym mis Medi 2013, cafodd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi eu comisiynu gan yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd i adolygu'r ymateb i ddiodefswyr cam-drin domestig gan bob un o'r 43 heddlu yng Nghymru a Lloegr.⁸⁵ Nododd yr adroddiad fethiannau o ran diwylliant, agwedd a sgiliau craidd. Fel ymateb, sefydlodd yr Ysgrifennydd Cartref gru p goruchwylio cenedlaethol i sicrhau gweithredu yn erbyn yr argymhellion ac i arwain dulliau newydd arloesol i'r heddlu ymateb i gam-drin domestig.

Mae'r gru p wedi goruchwylio pob heddlu wrth iddynt gyhoeddi cynllun gwella ar gyfer cam-drin domestig, y Coleg Plismona wrth iddynt gyhoeddi cyhoeddi canllawiau newydd, hyfforddiant newydd yn cael ei dreialu, a'r heddlu wrth iddynt gasglu data yn erbyn safon genedlaethol ar gyfer pob trosedd cam-drin domestig a gofnodir.⁸⁶

Hoffem barhau i ateb yr heriau sy'n wynebu diodefswyr o ran riportio troseddau a hybu pwysigrwydd y cyswllt cychwynnol da ac ymateb cyntaf amserol gan yr heddlu i ddiodefswyr.

Mae'r Coleg Plismona yn y broses o ddiffinio sut y byddant yn rhoi system 'Trwydded i Ymarfer' ar waith.⁸⁷ Bydd hyn yn gam mawr tuag at godi safonau archwilwyr arbenigol. Y nod yw sicrhau bod staff a swyddogion sy'n gweithio mewn meysydd â llawer o niwed, megis cam-drin domestig, bob amser yn gallu cael y datblygiad, y sgiliau a'r wybodaeth gywir sydd eu hangen i wneud eu gwaith.

Yn baralel, mae'r llywodraeth wedi rhoi nifer o wahanol fesurau ar waith, ac yn treialu mwy ohonynt, i wella ymateb yr heddlu i gam-drin domestig. Mae'r rhan fwyaf o heddluoedd Cymru a Lloegr yn defnyddio'r model Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu a Thrais ar Sail Anrhydedd⁸⁸ i asesu risg mewn achosion cam-drin domestig a stelcio. Yn 2014, canfu adolygiad gan y Coleg Plismona nad oedd heddwision rheng flaen yn defnyddio'r offeryn risg yn gyson ac nad oedd yn llwyddo i hybu ymwybyddiaeth o gam-drin di-drais, megis rheolaeth orfodol.

O ganlyniad, bu tri heddlu'n cymryd rhan mewn cynllun peilot gan y Coleg Plismona gyda'r nod o gynorthwyo swyddogion rheng flaen i ganfod patrymau ymddygiad camdriniol ac, yn benodol, gwella dealltwriaeth swyddogion o'r risgiau sy'n gysylltiedig â rheolaeth orfodol. Mae'r Coleg Plismona'n disgwyl cyhoeddi canlyniadau'r cynllun peilot hwn yn gynnar yn 2018. Yn y cyfamser, mae Arolygiaeth Ei Mawrhydi a Chyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Heddlu wedi bod yn glir y dylai heddluoedd barhau i wella'r ffordd y maent yn

⁸⁴ Gwasanaeth Erllyn y Goron (2016-17). Adroddiad trais yn erbyn menywod a genethod, 10^{fed} argraffiad

⁸⁵ <https://www.gov.uk/government/news/home-secretary-leads-action-on-police-response-to-domestic-violence-and-abuse>

⁸⁶ HMIC (2015). Mwy o fusnes i bawb: Adroddiad am gynnydd ymateb yr heddlu i gam-drin domestig

⁸⁷ <https://www.gov.uk/government/speeches/home-secretarys-college-of-policing-speech-on-vulnerability>

⁸⁸ <http://www.dashriskchecklist.co.uk/wp-content/uploads/2016/09/DASH-2009.pdf>

defnyddio'r offeryn presennol, sef y model Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu a Thrais ar Sail Anrhydedd.

Rydym hefyd yn deall na fydd ar ddiodefwyr eisiau ceisio ymateb cyfiawnder troseddol bob amser, ac rydym yn edrych ar ffyrdd o gryfhau ein gallu i gasglu tystiolaeth berthnasol i'w hychwanegu at dystiolaeth y diodefwyr er mwyn ei defnyddio mewn erlyniadau lle bo'n briodol.

Mae camerâu fideo i'w gwisgo gan yr heddlu, neu fideo gwisgo ar y corff, yn gallu cryfhau achos erlyniad os y'u defnyddir i recordio ar ôl adroddiadau o gam-drin domestig. Mae'r recordiad yn gallu rhoi cofnod union ar unwaith o'r hyn a ddigwyddodd yn y safle, ac o'r effaith emosiynol ar ddiodefwyr a'u teulu neu dystion eraill a fyddai yno. Cynhaliodd y Coleg Plismona ymchwiliad yn 2014 i effaith fideo gwisgo ar y corff ar ganlyniadau cyfiawnder troseddol digwyddiadau cam-drin domestig, a chanfu hwn y gallai rhoi fideo gwisgo ar y corff i swyddogion fod yn ffordd effeithiol o gynyddu nifer y cyhuddiadau a wneir, sy'n lleihau athreuliad achosion cam-drin domestig drwy'r system cyfiawnder troseddol.⁸⁹ Rydym eisoes wedi buddsoddi £1.4 miliwn drwy Gronfa Arloesi'r Heddlu ar gyfer camerâu fideo gwisgo ar y corff i helpu swyddogion i gasglu tystiolaeth yn y safle.

Yn ogystal â'r mesurau hyn, rydym wedi ariannu chwe heddlu yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr i dreialu 'dull system gyfan' o ymdrin â cham-drin domestig.

Astudiaeth achos: Cronfa Trawsnewid yr Heddlu

Mae Cronfa Trawsnewid yr Heddlu yn ariannu chwe heddlu yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr i dreialu 'dull system gyfan' o ymdrin â cham-drin domestig. Mae'r prosiect eisoes wedi bod yn llwyddiannus yn Northumbria, gan ddod ag ystod o ddulliau a phartneriaid at ei gilydd i helpu i frwydro yn erbyn cam-drin domestig, a bydd yr arian newydd hwn yn ei alluogi i dyfu a datblygu dros y 3 mlynedd nesaf.

Mae 3 llinyn canolog i'r prosiect, â'r ffocws canlynol: gwaith mewn partneriaeth agos â'r system cyfiawnder troseddol; llysoedd sifil a llysoedd teulu; a chymorth amlasiantaeth i ddiodefwyr a rheoli troseddwy. Y cynllun yw y bydd heddluoedd Gorllewin Swydd Efrog, Gogledd Swydd Efrog, Humberside, Cleveland, a Durham, ynghyd â Northumbria gyda'i gilydd yn datblygu strategaeth cam-drin domestig i'r chwe heddlu, gan alluogi dysgu cryf ar y cyd a chydweithio agos o ran plismona ac ar draws asiantaethau partner.

37. Cwestiwn: Sut y gallwn barhau i annog a chefnogi gwelliannau i ymateb yr heddlu i gam-drin domestig ar draws pob heddlu, a gwella'r canlyniadau i ddiodefwyr?

Testun rhydd

⁸⁹ Y Coleg Plismona (2014). Treial Fideo Gwisgo ar y Corff Essex

3B: Gwella profiad dioddefwyr o'r system cyfiawnder

Hoffem sicrhau bod gan ddiodefwyr hyder yn y system cyfiawnder. Hyder ei bod yn system deg, ddiuedd sy'n cydnabod sbectwm llawn cam-drin domestig.

Rydym yn cydnabod y gall y system cyfiawnder godi ofn ar bobl ac y gall diodefwyr cam-drin domestig gefnu ar y broses neu fod yn erbyn ymwneud â hi o gwbl am nifer o resymau. Er enghraifft, oherwydd yr ofn a'r rheolaeth a achosir gan y drwgweithredwr neu bryder na fydd neb yn eu credu. Mae data Gwasanaeth Erlyn y Goron am achosion y nodwyd eu bod yn gam-drin domestig yn dangos bod dros hanner yr erlyniadau (54%) nad ydynt yn sicrhau euogfarn yn methu oherwydd bod diodefwyr yn tynnu eu datganiadau'n ôl, yn methu â dod i'r llys i roi tystiolaeth, neu'n methu â chynorthwyo'r achos mewn modd arall.⁹⁰

Un dechneg sydd wedi'i defnyddio i osgoi oediad sy'n debygol o achosi i ddiodefwyr dynnu eu datganiadau'n ôl yw trefnu treialon cyflymach.

Astudiaeth achos: cyflymu achosion llys

Mewn un Ganolfan Llys y Goron, roedd achosion cam-drin domestig yn cael eu gwranddo ar gyfartaledd rhwng 6 a 9 mis ar ôl y digwyddiad. Roedd yr oediad hwn yn golygu y gallai amgylchiadau'r diodefwyr fod wedi newid, ac yn bron bob achos roedd y diodefwyr wedi "symud ymlaen â'u bywyd" ac nid oedd am ymwneud â'r treial mwyach.

Gan gydweithio ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill a'r amddiffyniad, mae'r Barnwr Preswyl wedi dechrau treialu proses 'llwybr carlam' ar gyfer achosion cam-drin domestig. I wneud i'r drefn hon weithio yn ymarferol, dim ond mewn achosion syml y caiff ei defnyddio lle mae'r materion yn gyfyngedig, fel bod yr achosion fel rheol yn cael eu cwblhau o fewn dwy awr. Mae'r achosion cam-drin domestig syml hyn i gyd yn cael eu gwranddo o fewn pythefnos a diwrnod ar ôl i'r Barnwr Preswyl adolygu'r achos gyntaf.

Er mwyn cyflawni'r broses gyflym hon, mae'r heddlu wedi cytuno i gyflwyno ffeil lawn o dystiolaeth yn yr achosion hyn (gan gynnwys fideo o gamera wedi'i wisgo ar y corff) pan anfonir yr achos o'r llys ynadon. Adolygir y ffeil hon gan ddau erlynydd pwrpasol yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron. Mae eiriolwyr amddiffyn lleol hefyd wedi cefnogi'r fenter hon, ar ôl ymgysylltu lleol rhagorol.

Er bod y fenter hon yn gweithio'n dda yn y llys y goron penodol hwn, mater i'r uwch farnwriaeth fydd penderfynu a yw'n addas i ganolfannau llys y goron eraill o ystyried eu maint, eu capasiti, eu beichiau gwaith a ffactorau cyd-ddibynnol eraill.

Mae ystod o fecanweithiau wedi'u llunio i helpu i gefnogi diodefwyr i roi eu tystiolaeth orau. Mae hyn yn cynnwys mesurau arbennig i dystion agored i niwed a thystion ofnus, gwahardd diffynyddion heb gynrychiolaeth rhag croesholi diodefwyr, cefnogaeth gan yr Uned Gofalu am Dystion (yr un pwynt cyswllt i ddiodefwyr a thystion ar gyfer gwybodaeth ynglwn â hynt eu hachosion), y gwasanaeth tystion yn y llys (sy'n gallu darparu cefnogaeth emosiynol a chyngor a gwybodaeth ymarferol i dystion mewn achosion troseddol), a

⁹⁰ Gwasanaeth Erlyn y Goron (2016-17). Adroddiad trais yn erbyn menywod a genethod, 10^{fed} argraffiad

gweithwyr proffesiynol cyfiawnder troseddol sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig mewn cam-drin domestig. Mae Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig ar gael mewn llawer o ardaloedd i gefnogi dioddefwyr drwy'r system cyfiawnder.

Astudiaeth achos: Cydleoli'r heddlu a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig

Yn Durham, mae'r Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig wedi'u cydleoli gyda'r heddlu. Hwy yw'r un pwynt cyswllt â'r dioddefwr, ac maent yn cysylltu'n agos â'r Uned Gofalu am Dystio'n a'r erlyniad ar ran y dioddefwr. Maent yn hysbysu'r dioddefwr am hynt yr achos ac yn rhoi cefnogaeth emosiynol ac ymarferol iddynt. Mae'r Cynghorwyr yn mynd gyda'r dioddefwyr ar ymweliadau ymgyfarwyddo cyn y treial. Maent yn sicrhau bod copi o Ddatganiad Personol y Dioddefwr yn cyrraedd y llys fel ei fod gan yr erlynwyr ar ddiwrnod y treial. Maent yn siarad yn rheolaidd â'r erlyniad i sicrhau bod yr holl wybodaeth a thystiolaeth sydd ar gael ar gyfer y treial ar gael iddynt. Mae systemau Xhibit y llysoedd ar gael i'r Cynghorwyr i'w galluogi i adolygu rhestriadau dyddiol y llysoedd a statws yr achosion. Maent hefyd yn cynnig cyngor ymarferol i'r llysoedd megis cymorth i ddrafftio gorchmynion atal.

Un enghraifft o'n hymdrechion i wella ein hymateb yn gyson yw'r gwaith gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol, o dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd dros Gyfiawnder. Mae'r Bwrdd hwn wedi goruchwyllo ymarfer ar draws y system cyfiawnder troseddol ar gam-drin domestig – y prosiect 'dadansoddiad dwfn' cam-drin domestig – i ddatblygu a phrofi fframwaith arfer gorau i'w ddefnyddio ym mhob Llys Ynadon. Mae'n brosiect amlasiantaethol a ddilynodd ardaloedd llysoedd a oedd yn perfformio'n dda (o ran cyfraddau euogfarnau uchel i droseddau'n ymwneud â cham-drin domestig) i ganfod y rhesymau allweddol dros eu perfformiad a sut y gellid ymestyn yr arferion hyn i lysoedd eraill.

Mesurau arbennig mewn achosion troseddol

Efallai y bydd mesurau arbennig eisoes ar gael i ddiodefwyr cam-drin domestig os yw'r llys yn fodlon bod ofn neu drallod mewn cysylltiad â rhoi tystiolaeth yn debygol o amharu ar ansawdd y dystiolaeth a roddir gan y dioddefwr. Mae ystod o fesurau arbennig ar gael, ond yr un a ddefnyddir amlaf yw sgrin – sy'n galluogi tystion i roi tystiolaeth yn ystafell y llys heb i'r diffynnydd a'r oriel gyhoeddus eu gweld.

Ar hyn o bryd, mae erlynwyr yn ymgeisio am y mesurau arbennig hyn ar gyfer diodefwyr cam-drin domestig yn y gwrandawriad llys cyntaf ar y sail eu bod yn gymwys i gael cymorth ar sail ofn neu drallod o dan a17(1) y Ddeddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol.

Gallem greu tybiaeth ddeddfwriaethol y dylid ystyried bod pob dioddefwr cam-drin domestig yn gymwys i gael cymorth ar sail ofn neu drallod, os oes ar y dioddefwr eisiau cymorth o'r fath. Os ystyrir bod y dioddefwr yn gymwys i gael cymorth, bydd y llys yna'n penderfynu a fyddai unrhyw fesurau arbennig sydd ar gael yn debygol o wella ansawdd y dystiolaeth a roddir gan y tyst ac a allai'r mesur atal parti rhag profi'r dystiolaeth honno'n effeithiol. Mae hyn yn debyg i'r dybiaeth ar gyfer diodefwyr troseddau penodol eraill megis troseddau rhywiol a throseddau caethwasiaeth fodern.

O ganlyniad, ni fyddai'n rhaid i'r erlyniad sefydlu cymhwysedd am fesurau arbennig ar sail "ofn neu drallod", dim ond dweud bod y mesur arbennig (megis sgrin neu dystiolaeth dros gyswllt fideo) yn debygol o wella ansawdd y dystiolaeth a roddir ac na fyddai'n atal unrhyw barti rhag profi'r dystiolaeth honno'n effeithiol. Byddai hyn yn golygu y byddai gan

ddioddefwyr fwy o sicrwydd o'r dechrau na fyddai'n rhaid iddynt wynebu'r sawl a gyhuddwyd yn y llys.

38. **Cwestiwn: A ydych yn meddwl y bydd creu tybiaeth ddeddfwriaethol y dylid ystyried bod pob dioddefwr cam-drin domestig yn gymwys i gael cymorth ar sail ofn neu drallod (os oes ar y dioddefwr eisiau cymorth o'r fath) yn cefnogi mwy o ddiodefwyr i roi tystiolaeth? Dewiswch un.**

Ydw, rhowch eich rhesymau	<input type="text"/>
Nac ydw, rhowch eich rhesymau	<input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

39. **Cwestiwn: A allai'r llywodraeth hon wneud mwy i esbonio amrediad a chwmpas y mesurau presennol i ddiodefwyr i helpu i'w cefnogi yn y broses cyfiawnder troseddol? Dewiswch un.**

Gallai, disgrifiwch os gwelwch yn dda	<input type="text"/>
Na allai	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

Croesholi mewn achosion troseddol

Ar hyn o bryd, os nad oes gan ddiffynnydd gynrychiolaeth mewn achos troseddol, gall y llys wneud gorchymyn i atal y dioddefwr rhag cael ei groesholi'n bersonol gan y diffynnydd. Yn hytrach, cyfarwyddir cyfreithiwr i wneud hynny ar ran y diffynnydd. Gall y llys wneud hyn drostynt eu hunain neu ar gais gan yr erlyniad.

40. **Cwestiwn: A ydych yn gwybod am enghreifftiau mewn achosion troseddol lle mae cais i atal diffynnydd heb gynrychiolaeth rhag croesholi dioddefwr wedi cael ei wrthod mewn achos cam-drin domestig? Dewiswch un.**

Lle bo'n bosibl, rhowch dystiolaeth neu fanylion o'r profiad i ategu eich ateb.

Ydw, disgrifiwch os gwelwch yn dda	<input type="text"/>
Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

Mewn achosion troseddau rhywiol, mae diffynnyddion heb gynrychiolaeth wedi'u gwahardd rhag croesholi diodefwyr. Mae hyn yn golygu bod diodefwyr yn gwybod o'r dechrau na chânt eu croesholi'n bersonol gan y sawl a gyhuddwyd. Gellid ymestyn hyn i gynnwys diodefwyr cam-drin domestig mewn achosion troseddol.

41. Cwestiwn: A ydych yn meddwl y byddai ymestyn y gwaharddiad rhag croesholi mewn achosion troseddol yn cefnogi mwy o ddiodefwr cam-drin domestig i roi tystiolaeth? Dewiswch un.

Ydw, rhowch eich rhesymau	<input type="text"/>
Nac ydw, rhowch eich rhesymau	<input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

Er bod gan lysoedd teulu ystod o bwerau i wneud yn siur bod sefyllfaoedd anodd mewn ystafelloedd llys yn cael eu rheoli'n sensitif ar gyfer tystion agored i niwed, nid oes ganddynt, yn wahanol i'r llysoedd troseddol, bu er penodol i atal cyflawnwyr cam-drin (honedig neu fel arall) rhag croesholi eu diodefwr yn bersonol. Mae'r llywodraeth yn ymroddedig i unioni hyn a byddant yn deddfu i roi'r pu er i lysoedd teulu i atal yr arfer hwn cyn gynted â bod amser deddfwriaethol yn caniatáu hynny.

Erlyn heb dystiolaeth gan y diodefwr

Os (oherwydd ofn neu am ryw reswm arall) nad yw diodefwr yn bresennol yn y llys i roi tystiolaeth, nid yw hynny'n golygu o reidrwydd na ellir erlyn yr achos – efallai y bydd tystiolaeth berthnasol arall o'r trosedd. Er enghraifft, mae tystiolaeth wedi'i recordio megis tâp 999, neu fideo wedi'i recordio gan yr heddlu â camera wedi'i wisgo ar y corff, yn caniatáu i lysoedd glywed a gweld natur y digwyddiad (gan gynnwys stori'r diodefwr) ac ymddygiad y sawl sydd dan amheuaeth a'r diodefwr ar y pryd. Os yw'r amddiffyniad yn gwrthwynebu'r dystiolaeth hon, lle'r erlyniad fydd dadlau ei bod yn dderbyniadwy.

Gwella darpariaethau

42. Cwestiwn: A oes gennych awgrymiadau ar gyfer sut y gallwn gefnogi erlyniadau'n well hyd at eu casgliad, gan gynnwys darparu gwell cefnogaeth i dystion sydd ar hyn o bryd yn cefnu ar y broses? Dewiswch un.

Lle bo'n bosibl, rhowch dystiolaeth neu fanylion o'r profiad i ategu eich ateb.

Gallai, disgrifiwch os gwelwch yn dda	<input type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

43. Cwestiwn: Beth arall all yr heddlu, unedau gofalu am dystion a Gwasanaeth Erlyn y Goron ei wneud i gynorthwyo diodefwr drwy'r broses gyfiawnder o adeg riportio ymlaen?

Lle bo'n bosibl, rhowch dystiolaeth neu fanylion o'r profiad i ategu eich ateb.

Testun rhydd

Diogelu yn y llys teulu

Hoffem hefyd wneud yn siur bod unigolion yn y system cyfiawnder teulu'n cael eu cefnogi a'u diogelu'n ddigonol. Rydym wedi cydweithio'n agos ag uwch farnwyr teulu a'r Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Teulu i gyflwyno rheolau llys newydd a chyfarwyddyd ymarfer newydd ar gyfer partion agored i niwed a thystion sy'n ymwneud ag achosion teulu. Mae'r rheolau newydd yn mynnu bod y llys yn ystyried a yw cyfranogiad parti yn yr achos llys yn debygol o gael ei wanhau am ei fod yn agored i niwed, neu a yw ansawdd tystiolaeth parti neu dyst yn debygol o gael ei wanhau am ei fod yn agored i niwed. Os ydyw, rhaid i'r llys ystyried a oes angen cymorth mesur penodol ar yr unigolyn, megis sgrin amddiffynnol neu gyswllt fideo. Rydym wedi datblygu hyfforddiant newydd i staff llysoedd teulu i'w helpu i adnabod a chefnogi defnyddwyr llys sy'n agored i niwed. Bydd hyn yn cyfrannu at brofiad mwy cadarnhaol yn y llys y tu hwnt i'r ystafell llys i bobl agored i niwed.

44. Cwestiwn: A allai'r llys teulu ddysgu o unrhyw agweddau eraill ar y ffordd y mae'r llys troseddol yn trin pobl agored i niwed? Dewiswch un.

Gallai, disgrifiwch os gwelwch yn dda	<input type="text"/>
Na allai	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

3C: Erlyn cam-drin domestig

Trosedd ymddygiad rheoli neu orfodi

“Wrth i'n perthynas ni ddatblygu, aeth e'n fwy a mwy paranoid a rheolaethol. Doeddwn i ddim yn cael ymweld â fy nheulu na fy ffrindiau, a doeddwn i ddim yn cael gweithio. Dim ond £70 yr wythnos oedd gen i i fyw arno, ac roedd rhaid i hyn dalu am bopeth: bwyd, trydan, biliau a dillad i'r babi. Roeddwn i'n gorfod torri fy ngwallt hir yn fyr, doeddwn i ddim yn cael defnyddio colur ac roedd rhaid i mi wisgo dillad llac, di-siâp. Doeddwn i ddim hyd yn oed yn cael ateb y drws.”⁹¹

Gellir erlyn digwyddiadau cam-drin domestig o dan ystod eang o droseddau, gan gynnwys ymosodiad neu droseddau perthnasol eraill yn erbyn unigolyn, troseddau rhywiol, difrod troseddol, troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus a llofruddiaeth. Ym mis Rhagfyr 2015, cyflwynwyd trosedd newydd yn benodol i gam-drin domestig, sef Ymddygiad Rheoli neu Orfodi mewn Perthynas â Phartner Agos neu Aelod Teulu (adran 76 Deddf Troseddau Difrifol 2015). Mae'r trosedd yn caniatáu erlyn drwgweithredwyr sy'n cyflawni cam-drin seicolegol ac emosiynol, ond heb achosi niwed corfforol neu drais. Mae'r trosedd hwn nawr ochr yn ochr â throseddau perthnasol eraill a ddefnyddir yn aml i erlyn cam-drin domestig. Mae'r trosedd hwn wedi cau'r bwll yn y gyfraith o gwmpas patrymau o ymddygiad rheoli neu orfodi yn ystod perthynas rhwng partneriaid agos, cyn-partneriaid sy'n dal i fyw gyda'i gilydd, neu aelodau teulu, ac mae troseddau perthnasol eraill yn dal i fod ar gael i erlynwyr.

⁹¹ SafeLives (2015). *Getting it Right First Time*.

Ers cyflwyno'r trosedd, mae cyhuddiadau a gwrandawiadau cyntaf wedi digwydd ar gyfer dros 300 o achosion.⁹² Er ei bod yn gynnar eto, rydym yn awyddus i ganfod meysydd a allai gryfhau'r trosedd.

45. Cwestiwn: A ydych yn meddwl y gallai'r llywodraeth gymryd camau pellach i gryfhau effeithiolrwydd y trosedd ymddygiad rheoli neu orfodi? Dewiswch un.

Ydw	<input type="checkbox"/>
Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

Rhowch fanylion pellach, os gwelwch yn dda

Ffactorau gwaethgol wrth ddedfrydu

Mae'n hanfodol bod y fframwaith cyfreithiol cywir ar gael i alluogi'r llysoedd i ymdrin yn effeithiol â chyflawnwyr cam-drin. Dylai dedfrydau gydnabod effaith ddinistriol cam-drin domestig ar ddiodefwyr. Mae'r rhain yn cynnwys plant sydd naill ai'n dystion neu'n cael eu defnyddio'n emosiynol i boenydio'r diodefwyr. Er enghraifft, mewn achosion lle caiff plentyn ei atal dro ar ôl tro rhag cysuro'r rhiant sydd wedi cael ei gam-drin, neu rhag cyfathrebu ag ef/hi, mewn ymdrech i'w harwahanu ymhellach. Dangosodd dadansoddiad diweddar Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, blwyddyn hyd at fis Mawrth 2016, fod oedolion sydd wedi bod yn dyst i drais neu gam-drin domestig fel plentyn (o dan 16 oed) yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig gan bartner fel oedolyn (34% o gymharu ag 11% nad oeddent wedi bod yn dyst i gam-drin domestig).⁹³

Cyhoeddodd y Cyngor Dedfrydu annibynnol gyfres ddiwygiedig o ganllawiau ar gyfer dedfrydu mewn achosion cam-drin domestig ar 22 Chwefror 2018.⁹⁴ Er nad oes trosedd penodol o gam-drin domestig, mae'r canllaw'n nodi egwyddorion sy'n berthnasol i ddedfrydu achosion sy'n cynnwys cam-drin domestig.

Mae'r canllawiau'n amlinellu pa mor ddifrifol yw cam-drin domestig, ac yn nodi:

“Mae cyd-destun domestig yr ymddygiad troseddol yn gwneud y trosedd yn fwy difrifol, gan ei fod yn golygu torri'r ymddiriedaeth sydd fel arfer yn bodoli rhwng pobl mewn perthynas agos neu mewn teulu. Hefyd, gall fod bygythiad parhaus i ddiogelwch y diodefwyr, ac yn yr achosion gwaethaf, bygythiad i fywyd y diodefwyr neu i fywydau pobl eraill o'u cwmpas.”

⁹² Gwasanaeth Erlyn y Goron (2016-17). Adroddiad Trais yn Erbyn Menywod a Genethod. 10^{fed} argraffiad

⁹³ Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017) Pobl a gafodd eu cam-drin yn blant yn fwy tebygol o gael eu cam-drin yn oedolyn. <http://visual.ons.gov.uk/people-who-were-abused-as-children-are-more-likely-to-be-abused-as-an-adult/>

⁹⁴ <https://www.sentencingcouncil.org.uk/publications/item/overarching-principles-domestic-abuse-definitive-guideline/>

Mae'r canllawiau'n berthnasol i ddedfrydu pob trosedd sy'n ymwneud â cham-drin domestig, gan wneud y trosedd yn fwy difrifol ac felly'n debygol o arwain at ddedfryd uwch.

Mae'r canllawiau'n rhestru ffactorau gwaethgol a lliniarol penodol a allai fod yn arbennig o berthnasol i droseddau a gyflawnir mewn cyd-destun o gam-drin domestig. Fel rhan o restr o ffactorau gwaethgol a awgrymir, mae'r canllaw'n cyfeirio at ffactorau megis cam-drin ymddiriedaeth neu os yw'r drwgweithredwr yn cymryd camau i atal y dioddefwr rhag riportio digwyddiad neu gael cymorth. Mae'r canllawiau hefyd yn tynnu sylw at yr angen i ystyried effaith y trosedd ar blant (drwy ddod i gysylltiad yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â cham-drin domestig) neu os defnyddir trefniadau cyswllt â phlant i ddechrau cyflawni trosedd.

Cyn gynted ag y mae canllawiau dedfrydu mewn grym, rhaid i farnwyr eu dilyn, oni bai eu bod o'r farn bod gwneud hynny'n groes i bennaf fudd cyfiawnder.

Mae'r llywodraeth yn croesawu'r canllawiau cyffredinol newydd hyn gan y Cyngor Dedfrydu, ond maent yn dal i ystyried ffyrdd o gryfhau'r gyfraith.

Un enghraifft o newidiadau posibl fyddai ategu'r canllawiau drwy greu ffactor waethgol statudol a fyddai'n berthnasol i bob trosedd wrth ddedfrydu, yn debyg i'r rhai sydd eisoes yn y gyfraith ar gyfer troseddau casineb (lle ystyrir gelyniaeth y troseddwr tuag at y dioddefwr yn seiliedig ar nodwedd warchoddedig benodol). Byddai ffactor waethgol statudol yn golygu y gellid mynnu bod y llys yn ystyried y ffactor honno, ac yn datgan mewn llys agored eu bod wedi gwneud hynny. Gellid drafftio'r ffactor waethgol i fod yn berthnasol i amgylchiadau cam-drin domestig, gan gynnwys ymddygiad sy'n cynnwys plentyn, neu'n effeithio'n benodol ar blentyn. Wrth weithio fel hyn, byddai'r llysoedd yn ystyried unrhyw ffactorau gwaethgol ac yn cynyddu'r dedfrydau'n unol â hynny o fewn y gosb uchaf sydd ar gael yn statudol am y trosedd. Fodd bynnag, byddai ffactor waethgol statudol yn golygu bod rhaid sefydlu'r gwaethgiad cam-drin domestig y tu hwnt i amheuaeth resymol, sy'n peri risg o roi baich tystiolaeth ychwanegol ar yr heddlu a Gwasanaeth Erllyn y Goron (lle ceir anghytuno ynglŷn â'r amgylchiadau ffeithiol) ac yn cynyddu'r potensial i fwy o ddiffynyddion bledio'n ddieuog i'r cyhuddiadau.

46. Cwestiwn: A ydych yn meddwl bod y dull presennol o ddefnyddio canllawiau dedfrydu, yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018, yn effeithiol o ran sicrhau bod y dedfrydau a roddir yn adlewyrchu difrifoldeb cam-drin domestig sy'n cynnwys plant? Dewiswch un.

Ydw	<input type="checkbox"/>
Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

Testun rhydd i esbonio'r ateb

47. Cwestiwn: A oes angen ffactor waethybol statudol er mwyn i'r llys adlewyrchu difrifoldeb troseddau sy'n cynnwys cam-drin domestig a phlant wrth ddedfrydu? Dewiswch un.

Oes	
Nac oes	
Ddim yn gwybod/dim ateb	

Testun rhydd i esbonio'r ateb

48. Cwestiwn: Rhannwch unrhyw farn arall ynglŷn â sut i sicrhau yr ystyrir cam-drin domestig a'i effaith ar blant wrth ddedfrydu.

Testun rhydd

Confensiwn Istanbul

Erlyn troseddau a gyflawnwyd dramor (awdurdodaeth alltirogaethol)

Mae Confensiwn Istanbul Cyngor Ewrop⁹⁵ yn gyfres ryngwladol o safonau sydd wedi'u llunio i atal trais domestig a thrais yn erbyn menywod. Mae'r Deyrnas Unedig wedi llofnodi'r Confensiwn, ac mae'r llywodraeth yn ymroddedig i gadarnhau'r Confensiwn yn ein cyfraith genedlaethol cyn gynted â phosibl.

Un o elfennau allweddol y Confensiwn yw gwneud yn siur bod y gwladwriaethau sy'n ei gadarnhau'n gallu defnyddio eu cyfraith genedlaethol i erlyn troseddau sy'n ofynnol gan y Confensiwn⁹⁶ pan fydd eu dinasyddion yn eu cyflawni dramor.⁹⁷ Yn gyffredinol, yn y Deyrnas Unedig, rhaid i ymddygiad troseddol ddigwydd yn ein tiriogaeth er mwyn cael ei erlyn. Y term cyfreithiol am bwerau i ganiatáu i droseddau a gyflawnwyd gan ddinasyddion dramor gael eu herlyn yn y Deyrnas Unedig yw 'awdurdodaeth alltirogaethol'. Mae angen deddfwriaeth sylfaenol i gymryd pwerau o'r fath.⁹⁸ Yn gyffredinol, polisi'r llywodraeth ar awdurdodaeth alltirogaethol yw mai'r peth gorau yw i ymddygiad troseddol gael sylw gan system cyfiawnder troseddol y wlad lle mae'n digwydd. Mae hyn oherwydd mai cyfraith y wlad honno sydd wedi'i thorri, a dyna lle mae'r gymuned sydd wedi dioddef y trosedd, lle bydd y dioddefwr yn aml yn byw a lle bydd y dystiolaeth angenrheidiol i'w chael fel arfer. Mae hyn yn cyd-fynd â'r fframwaith cyfreithiol rhyngwladol cyffredinol.

Fodd bynnag, er mwyn rhoi sylw effeithiol i rai mathau difrifol o droseddu, efallai y bydd angen awdurdodaeth alltirogaethol ar wledydd. Mae ymrwymiad rhyngwladol i sefydlu awdurdodaeth alltirogaethol yn adlewyrchu'r consensws y gallai fod rhai achosion eithriadol lle na chaiff trosedd ei erlyn yn y wlad lle mae'n digwydd ond y dylai wynebu cyfiawnder mewn man arall, er enghraifft trais difrifol yn erbyn menywod a thrais

⁹⁵ <https://rm.coe.int/168046031c>. Llofnodwyd y Confensiwn gan y Llywodraeth glymblaid yn 2012. Gweler hefyd y Memorandwm Esboniadol <https://rm.coe.int/16800d383a>

⁹⁶ Erthyglau 33-39

⁹⁷ Erthygl 44 wedi'i darllen gydag Erthygl 78 (eithriadau).

⁹⁸ Bydd y Bil Cam-drin Domestig drafft yn cynnwys y ddeddfwriaeth ofynnol ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'r ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r Confensiwn yn fater i'r gweinyddiaethau datganoledig.

domestig. Yn yr achosion hyn, dylai gwledydd allu defnyddio pwerau awdurdodaethol estynedig i gamu i mewn, lle bo'n briodol, ac erlyn y troseddau eithriadol hyn a gyflawnir mewn gwlad arall gan un o'u dinasyddion neu gan dramorwr sy'n byw fel rheol yn eu tiriogaeth genedlaethol.

Yn gyffredinol, ni ystyrir ei bod yn deg rhoi euogfarn i unigolyn yn y wlad hon am rywbeth nad yw'n drosedd yn y wlad lle digwyddodd. O ganlyniad, fel rheol mae angen i'r ymddygiad troseddol fod yn drosedd yn y wlad lle digwyddodd, yn ogystal ag yng Nghymru a Lloegr, er mwyn i bwerau alltiriogaethol fod yn berthnasol. Troseddoldeb deuol yw hyn.

Mae gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth alltiriogaethol eisoes dros rai o'r troseddau sy'n ofynnol gan y Confensiwn: trosedd cyfraith gyffredin llofruddiaeth; rhai troseddau rhywiol lle mae'r dioddefwr o dan 18; troseddau priodas dan orfod; a throseddau anffurfio organau cenhedlu benywod. Mae'r deddfau hyn yn cydymffurfio'n rhannol â gofynion y Confensiwn ar gyfer awdurdodaeth alltiriogaethol. Byddai deddfwriaeth newydd, felly, yn ymestyn awdurdodaeth alltiriogaethol yng Nghymru a Lloegr i gynnwys troseddau eraill sy'n ofynnol gan y Confensiwn ac nad ydynt yn destun y fath awdurdodaeth ar hyn o bryd.

Mae'r Confensiwn yn mynnu bod cyfraith ddomestig yn gallu erlyn troseddau perthnasol a gyflawnir y tu allan i'r DU. Fel pob trosedd, fodd bynnag, mater i Wasanaeth Erlyn y Goron fyddai'r penderfyniad i erlyn.

Mae'r llywodraeth yn cynnig cymryd awdurdodaeth alltiriogaethol dros bob trosedd sydd wedi'i restru yn y tabl isod pan gyflawnir y trosedd y tu allan i'r Deyrnas Unedig gan un o ddinasyddion neu breswylwyr y Deyrnas Unedig; a (heblaw'r troseddau sydd wedi'u marcio â *) lle ceir troseddoldeb deuol.⁹⁹

TROSEDD	ERTHYGL(AU)
Peri i bobl ofni trais* : adran 4 Deddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997 Ymddygiad rheoli neu orfodi mewn perthynas â phartner agos neu aelod teulu*: adran 76 Deddf Troseddau Difrifol 2015	33
Stelcio gan gynnwys ofni trais neu fraw neu drallod difrifol* : adran 4A Deddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997	33, 34
Niwed corfforol gwirioneddol : adran 47 Deddf Troseddau yn Erbyn Unigolion 1861	33 ¹⁰⁰ , 35, 39
Niwed corfforol difrifol : adran 20 Deddf Troseddau yn Erbyn Unigolion 1861	33, 35, 39
Niwed corfforol difrifol gyda bwriad : adran 18 Deddf Troseddau yn Erbyn Unigolion 1861	33, 35, 39
Caffael erthylid : adran 58 Deddf Troseddau yn Erbyn Unigolion 1861	39
Trais rhywiol : adran 1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003	36
Ymosod drwy dreiddio : adran 2 Deddf Troseddau Rhywiol 2003	36

⁹⁹ Mae'r troseddau sydd wedi'u marcio â * yn cynnwys patrwm o ymddygiad neu ffordd o ymddwyn yn hytrach nag un weithred, a gallai gofyniad troseddoldeb deuol gyfyngu ar y gallu i erlyn y troseddau hyn o dan rai amgylchiadau, er enghraifft math penodol o ymddygiad ar draws gwahanol awdurdodaethau

¹⁰⁰ Mae niwed corfforol gwirioneddol a difrifol yn cynnwys anaf seiciatrig (ond nid seicolegol)

Ymosod rhywiol: adran 3 Deddf Troseddau Rhywiol 2003	36
Achosi i unigolyn gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol heb ganiatâd: adran 4 Deddf Troseddau Rhywiol 2003	36

Rydym yn credu bod y troseddau hyn yn ddigon difrifol i gadw at fwriad y Confensiwn yn ogystal â safbwynt cyffredinol y Deyrnas Unedig ynglŵn ag awdurdodaeth alltiriogaethol.

49. Cwestiwn: A ydych yn cytuno bod cymryd awdurdodaeth alltiriogaethol dros y troseddau hyn yn ddigon i fodloni gofynion y Confensiwn?

Ydw	<input type="checkbox"/>
Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

50. Cwestiwn: Os nad ydych, pa droseddau ychwanegol yr ydych yn meddwl y dylem gymryd awdurdodaeth alltiriogaethol drostynt a pham?

Testun rhydd

Aflonyddu rhywiol

Mae'r Confensiwn hefyd yn mynnu bod cosbau cyfreithiol troseddol neu eraill (er enghraifft, sifil) yn cael eu rhoi am aflonyddu rhywiol¹⁰¹.

Mae Deddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997 yn gwahardd unigolyn rhag ymddwyn mewn modd sy'n gyfystyr ag aflonyddu, ac y mae'r unigolyn yn gwybod, neu y dylai wybod, ei fod yn gyfystyr ag aflonyddu¹⁰²; ac mae'n darparu dulliau cyfreithiol troseddol a sifil o wneud iawn am dorri'r gwaharddiad hwnnw.¹⁰³ Mae'r gofyniad "modd o ymddwyn" hefyd yn bodloni bwriad y Confensiwn o gynnwys ymddygiad ailadroddus, yn hytrach na dim ond achosion unigol o aflonyddu.

Mae'r llywodraeth yn credu bod y diffiniad o aflonyddu yn Neddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997 yn ddigon eang i fodloni'r Confensiwn. Os yw rhywun (yn nhermau'r Confensiwn) yn cyflawni "ymddygiad geiriol, aneiriol neu gorfforol o natur rywiol" er mwyn creu amgylchedd bygythiol neu dramgwyddus, "dylai'r unigolyn wybod" (yn nhermau'r diffiniad yn Neddf 1997) bod ei ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu. Yn unol â hyn, mae'r llywodraeth yn cynnig dibynnu ar y rhwymedi cyfraith sifil yn Neddf 1997 i fodloni rhwymedigaethau'r Confensiwn yn hyn o beth.

¹⁰¹ Wedi'i ddiffinio yn Erthygl 40 fel "...unrhyw fath o ymddygiad dieisiau geiriol, aneiriol neu gorfforol o natur rywiol â'r diben neu'r effaith o dreisio urddas unigolyn, yn enwedig os yw'n creu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, iselhaol neu dramgwyddus ..."

¹⁰² Adran 1(1)

¹⁰³ Adrannau 2 a 3

51. Cwestiwn: A ydych yn cytuno bod dibynnu ar y rhwymedi cyfraith sifil yn Neddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997 yn ddigonol i fodloni gofynion y Confensiwn ar aflonyddu rhywiol?

Ydw	<input type="checkbox"/>
Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

52. Cwestiwn: Os nad ydych, beth ydych yn meddwl sydd ei angen i fodloni'r gofynion hynny?

Testun rhydd

3D: Atal aildroseddu

Nid yw'r frwydr yn erbyn cam-drin domestig yn gorffen ag erlyniad llwyddiannus. I ddiweddu'r cylch cam-drin, rhaid i ni ystyried swyddogaeth y system cyfiawnder troseddol o unioni'r materion sy'n achosi cam-drin domestig yn y bôn, ac atal aildroseddu.

Rhybuddiadau Amodol

Mae penderfyniadau y tu allan i'r llys yn fesurau sy'n caniatáu i'r heddlu ymdrin â throsteddu lefel isel mewn modd cymesur heb erlyniad. Un math o benderfyniad y tu allan i'r llys yw rhybuddiad amodol sy'n mynnu bod troseddwr sy'n oedolyn yn cydymffurfio ag amodau i'w adsefydlu, i wneud iawn neu i'w gosbi. Os yw'r troseddwr yn methu â chydymffurfio, gellir ei erlyn am y trosedd.¹⁰⁴

Ar hyn o bryd, mae canllawiau'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn cyfyngu ar ddefnyddio rhybuddiadau amodol ar gyfer cam-drin domestig, gan ddweud mai prin iawn y byddant yn briodol (dim ond o dan amgylchiadau eithriadol oherwydd natur y trosedd neu amgylchiadau'r troseddwr, a dim ond gyda chymeradwyaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron).

Mae canlyniadau'r treial Prosiect CARA¹⁰⁵, lle rhoddwyd caniatâd i ddefnyddio mwy o rybuddiadau amodol ar gyfer digwyddiadau cam-drin domestig llai difrifol, a oedd yn drosedd cyntaf fel arfer, yn awgrymu bod darparu rhaglen adsefydlu effeithiol yn gynnar i droseddwr risg isel yn gallu lleihau niwed y trosedd, y siawns o aildroseddu ac amllder aildroseddu. Mae gwerthusiad CARA yn argymhell y dylid gwneud mwy i brofi dulliau adsefydlu effeithiol ar gyfer cam-drin domestig i gynyddu'r sail dystiolaeth.

¹⁰⁴ Am wybodaeth bellach, gweler y cod ymarfer ar gyfer rhybuddiadau amodol i oedolion <https://www.gov.uk/government/publications/code-of-practice-for-adult-conditional-cautions-a-chanllawiau'r-Cyfarwyddwr-Erlyniadau-Cyhoeddus-ynglwn-â-rhybuddiadau-amodol-i-oedolion> <https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/adult-conditional-cautions-directors-guidance>

¹⁰⁵ Strang, H., Sherman, L., Ariel, B., Chilton, S., Braddock, R., Rowlinson, T., Cornelius, N., Jarman, R., a Weinborn, C. (2017). *Reducing the Harm of Intimate Partner Violence: Randomized Controlled Trial of the Hampshire Constabulary CARA Experiment*. Ar gael yn: <https://link.springer.com/article/10.1007/s41887-017-0007-x>

Hefyd, mae tri heddlu wedi treialu fframwaith syml ar gyfer penderfyniadau y tu allan i'r llys¹⁰⁶, a chawsant ryddid ychwanegol i ddefnyddio rhybuddiadau amodol, a allai ddarparu rhai canfyddiadau ymchwil rhagarweiniol ynglŵn â cham-drin domestig.

Dylid nodi bod yr heddlu ar hyn o bryd yn gallu rhoi rhybuddiad syml (rhybuddiad nad yw'n mynnu bod y troseddwr yn cydymffurfio ag unrhyw amodau – rhybudd ffurfiol yn y bôn) mewn rhai achosion cam-drin domestig heb gymeradwyaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron.¹⁰⁷

Mae gennym ddi-ddordeb mewn casglu tystiolaeth bellach am effeithiolrwydd ymyriadau adsefydlu cynnar ar gyfer troseddwr cam-drin domestig, a datrys achosion yn gyflym i ddioddefwyr. Byddai mwy o astudiaethau rheoledig wedi'u monitro gan heddluoedd yn ategu hyn. Rydym yn deall ei bod yn annhebygol mai'r tro cyntaf i ddigwyddiad cam-drin domestig gael ei riportio i'r heddlu yw'r digwyddiad cyntaf go iawn, ac os cynhelir treialon pellach, dylent ystyried sut i gadw hyn mewn cof wrth benderfynu pwy sy'n gymwys i gael rhybuddiadau amodol.

53. Cwestiwn: A ydych yn cytuno y dylem archwilio (gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron) defnyddio mwy o rybuddiadau amodol rheoledig wedi'u monitro gyda rhaglenni adsefydlu nag a ganiateir ar hyn o bryd ar gyfer digwyddiadau cam-drin domestig llai difrifol, sydd y digwyddiad cyntaf fel arfer? Dewiswch un.

Ydw, disgrifiwch os gwelwch yn dda	<input type="checkbox"/>
Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

Os ydych, esboniwch eich ateb, gan awgrymu pa weithdrefnau a ddylai fod ar waith i sicrhau mai dim ond mewn achosion priodol, gydag amodau priodol ynghlwm, y câi rhybuddiad amodol ei roi.

Os nad ydych, esboniwch eich ateb

54. Cwestiwn: A oes gennych unrhyw dystiolaeth bellach am yr arferion presennol â rhybuddiadau amodol y dylem ei hystyried mewn cysylltiad â'r mater hwn? Dewiswch un.

Oes, disgrifiwch os gwelwch yn dda	<input type="text"/>
------------------------------------	----------------------

¹⁰⁶ Mae mwy o wybodaeth am y fframwaith syml Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys ar gael yn: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/out-of-court-disposals/>

¹⁰⁷ Mae mwy o wybodaeth am rybuddiadau syml i droseddwr sy'n oedolion ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/416068/cautions-guidance-2015.pdf

Nac oes	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

Rheoli troseddwy'r mynych ac ad-droseddwy'r

Rydym am atal ad-droseddwy'r a phobl sy'n cyflawni cam-drin domestig yn fynych rhag aildroseddu, a sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol yn amddiffyn dioddefwyr yn ddigonol, gan gynnwys lle bo'r troseddu'n cynnwys ymddygiad stelcio.¹⁰⁸

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol ill dau'n gyfrifol am gwblhau asesiadau risg a rheoli'r risg a berir gan droseddwy'r er mwyn gorfodi dedfryd llys. Mae hyn yn cynnwys rheoli troseddwy'r cam-drin domestig, yn y gymuned ac yn y ddalfa.

Gall yr heddlu a'r Gwasanaeth Prawf reoli rhai troseddwy'r o dan Drefniadau Amddiffyn Cyhoeddus Amlasiantaeth, os oes angen hyn oherwydd y risg a berir ganddynt. Gall hyn gynnwys troseddwy'r sydd wedi cyflawni troseddau treisgar megis ymosod neu fygwth lladd, sydd wedi cael dedfryd dros 12 mis, neu sydd wedi'u hasesu fel arall fel eu bod yn peri risg difrifol.

Rydym hefyd yn cynnig cyflwyno Gorchmynion Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig newydd i roi offeryn newydd i'r heddlu a'r llysoedd i roi amodau ar bobl sy'n peri risg o gam-drin pellach (fel y'u disgrifir ar dudalen 36 yn adran 2C: cynigion i gadw dioddefwyr yn ddiogel).

55. Cwestiwn: Pa newidiadau i bolisïau neu weithdrefnau presennol a fyddai'n helpu'r heddlu ac asiantaethau eraill i reoli camdrinwyr mynych ac ad-droseddwy'r yn well, yn enwedig rhai nad ydynt wedi cael dedfryd mewn llys? Gall hyn gynnwys y ffordd orau o:

- asesu risg camdriniwr a chynllunio i leihau'r risg
- ymgysylltu â chamdriniwr er mwyn annog cydymffurfiad â mesurau rheoli

Testun rhydd

Gweithio gyda drwgweithredwyr i newid eu hymddygiad

Mae nifer o raglenni ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig neu bobl sy'n meddwl eu bod mewn perygl o droseddu. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i newid eu hymddygiad, gan gynnwys atal troseddu yn y lle cyntaf, atal cam-drin rhag gwaethygu a/neu atal aildroseddu.

Mae Respect yn safon ansawdd a diogelwch a gydnabyddir yn genedlaethol yn y Deyrnas Unedig. Maent yn achredu sefydliadau sy'n cynnig ymyriadau diogel ac effeithiol â chyflawnwyr cam-drin domestig. Un enghraifft o raglen o'r fath yw'r 'Prosiect Drive' a ddatblygwyd gan SafeLives, Respect a Social Finance, ac a ariannwyd yn rhannol gan y

¹⁰⁸ Rydym yn gwybod bod tua 70% o bob erlyniad stelcio a gychwynnir yn ymwneud â cham-drin domestig <https://www.cps.gov.uk/Publications/equality/vaw/index.html>

llywodraeth. Mae Drive yn cefnogi ac yn herio drwgweithredwyr mynych a risg uchel i newid eu hymddygiad ac mae'n cynnwys cymorth cofleidiol i ddiodefwyr a phlant. Nid yw'r rhaglen hon yn dibynnu ar ymyriad cyfiawnder troseddol bob amser.

Mae rhai heddluoedd hefyd yn cynnig ymyriadau i ddrwgweithredwyr mynych ac addroseddwyr i unioni eu hymddygiad drwy gyfrwng cynlluniau Rheoli Troseddwyr Integredig lleol. Gall yr ymyriadau hyn ddechrau cyn euogfarn.

Ar ôl euogfarn, ceir nifer o raglenni ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig i leihau eu risg o aildroseddu. Y Panel Achredu a Chynghori Gwasanaethau Cywirol sy'n achredu'r rhaglenni hyn, ac mae eu hansawdd wedi'i sicrhau. Maent yn defnyddio tystiolaeth o ba ffactorau sy'n helpu i leihau aildroseddu, ac maent wedi'u targedu at ddrwgweithredwyr yn y ddalfa ac yn y gymuned. Dwy o'r rhaglenni achrededig hyn yw *Building Better Relationships* a Kaizen. Nod *Building Better Relationships* yw lleihau cam-drin domestig ymysg troseddwyr gwrywol â risg canolig i uchel. Mae Kaizen yn cael ei gyflwyno yn y ddalfa i ddynion sy'n cyflwyno lefel uchel neu uchel iawn o risg ac angen, ac sydd yn nodweddiadol wedi cael euogfarnau o naill ai droseddau rhywiol, troseddau treisgar, neu droseddau yng nghyd-destun cam-drin domestig. Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â chyflawnwyr troseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig.

Astudiaeth Achos: *Building Better Relationships*

Mae *Building Better Relationships (BBR)* yn rhaglen ar gyfer drwgweithredwyr risg canolig i uchel sy'n ddynion ac wedi cael euogfarn o drosedd yn ymwneud â Thrais yn erbyn Partner Agos yn erbyn partner benywol. Mae BBR wedi'i hachredu gan y Panel Achredu a Chynghori Gwasanaethau Cywirol. Fe'i darperir dros 29 o sesiynau grŵp a sesiynau unigol i ddynion sy'n bwrw dedfrydau mewn carchardai neu yn y gymuned. Mae BBR yn bodoli fel rhan o ymateb amlasiantaeth a gall asiantaethau eraill y tu allan i'r system cyfiawnder troseddol ddarparu cymorth pwysig i gyfranogwyr, tra eu bod ar y rhaglen ac yn cael eu goruchwylio a thu hwnt. Nod BBR yw lleihau'r risg o aildroseddu a hybu diogelwch partneriaid y presennol a'r dyfodol a phlant.

- 56. Cwestiwn: Sut y gellid gwneud mwy i weithio gyda drwgweithredwyr mewn carchardai, yn enwedig troseddwyr sy'n cael dedfryd o lai na 12 mis ac nad oes ganddynt ddigon o amser i gwblhau rhaglen cam-drin domestig yn y ddalfa? Mae gennym ddiddordeb mewn clywed am enghreifftiau penodol o arferion sydd wedi bod yn llwyddiannus.**

Testun rhydd

- 57. Cwestiwn: Sut y gellid gwneud mwy i weithio gyda drwgweithredwyr yn y gymuned (wedi cael euogfarn neu heb) i newid eu hymddygiad? Mae gennym ddiddordeb mewn clywed am enghreifftiau penodol o arferion sydd wedi bod yn llwyddiannus.**

Testun rhydd

Pennod 4: Gwella Perfformiad

"Rydym am wella perfformiad a chynyddu cysondeb yn y ffordd y mae pob sector yn ymateb i gam-drin domestig ar draws pob ardal ddaearyddol."

Rydym yn ceisio safbwyntiau ynglŷn â sut i gyflawni hyn. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym:

- yn cydnabod, er mwyn i ni ddeall yn well beth sy'n gweithio, bod angen data o safon uchel y gellir eu cydgysylltu i greu stori ystyrlon – rydym felly'n gofyn beth ddylai fod yn flaenoriaeth o ran casglu data yn well (tudalen 69)
- yn cynnig rhoi swyddogaeth allweddol i gomisiynydd cam-drin domestig i oruchwylio a monitro darpariaethau a gwasanaethau cam-drin domestig, yn ogystal â bod yn arweinydd cyhoeddus ar faterion cam-drin domestig (tudalen 71)
- yn ystyried beth yw'r ffordd orau o sicrhau ein bod yn dysgu o adolygiadau dynladdiadau domestig i gyflawni newid go iawn ar lawr gwlad (tudalen 73)
- yn archwilio sut y gallai'r llywodraeth ac awdurdodau lleol wneud mwy i rannu beth sy'n gweithio o ran comisiynu a darparu gwasanaethau i ddiodefwyr (tudalen 74)

Mae llawer o ddangosyddion o bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn dangos bod perfformiad o ran deilliannau cyfiawnder troseddol yn amrywio'n fawr ledled y wlad. Mae nifer y digwyddiadau a'r troseddau cysylltiedig â cham-drin domestig a gofnodir yn amrywio rhwng heddluoedd. Mae amrywiadau rhanbarthol hefyd i'w gweld o ran comisiynu cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar ddiodefwyr.¹⁰⁹ Rydym yn benderfynol o herio'r loteri cod post hon i sicrhau bod diodefwyr ledled y wlad yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt – yn y lle cywir, ar yr adeg gywir.

4A: Defnyddio data i wella perfformiad

Mae sicrhau bod gan ymarferwyr lleol ddealltwriaeth fanwl o sut y mae heddluoedd unigol a'r system cyfiawnder troseddol ehangach yn ymdrin â cham-drin domestig yn hanfodol i wella perfformiad ledled y wlad. Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y bwletin ystadegol¹¹⁰ a'r offeryn data¹¹¹ blynyddol cyntaf ar gyfer cam-drin domestig, ac maent newydd gyhoeddi'r ail.¹¹² Roedd y cyhoeddiadau hyn yn seiliedig ar argymhelliad gan Arolygiaeth Cwnstablaieth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, yn 2015, yn eu hadroddiad ailarylygu cam-drin domestig 'Mwy o fusnes i bawb'.¹¹³ Eu nod yw dod ag ystadegau cam-drin domestig at ei gilydd mewn un man i alluogi dadansoddiad mwy trwyadl o sut yr ymdrinnir â cham-drin domestig ar lefel leol yng Nghymru a Lloegr. Yn y cyfamser, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r

¹⁰⁹ Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017) Cam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn hyd at fis Mawrth 2017. Bwletin ystadegol.

¹¹⁰ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016). Cam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn hyd at fis Mawrth 2016. Bwletin ystadegol.

¹¹¹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016). Cam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr: Offeryn Data: blwyddyn hyd at fis Mawrth 2016

¹¹² Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016). Cam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn hyd at fis Mawrth 2017

¹¹³ HMIC (2015). Mwy o fusnes i bawb: Adroddiad am gynnydd ymateb yr heddlu i gam-drin domestig.

hyn sy'n gweithio, ac maent yn bwriadu sicrhau bod ffynonellau presennol gwybodaeth, data a thystiolaeth ar gael yn haws mewn un lle ar GOV.UK. Mae'r Adran Addysg hefyd yn edrych ar ffyrdd o gasglu a defnyddio data cam-drin domestig yn well yn eu cyfrifiad plant mewn angen i deuluoedd lle mae plant yn cael cymorth gofal cymdeithasol.

Rydym yn disgwyl i ymarferwyr lleol ar draws pob asiantaeth, gan gynnwys iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a'r system cyfiawnder troseddol, i ddefnyddio data o'r fath, ynghyd â gwybodaeth leol, i ofyn cwestiynau anodd a beirniadol am eu perfformiad ym maes cam-drin domestig er mwyn canfod meysydd i'w gwella.

Hoffem archwilio dichonoldeb casglu a defnyddio data'n well ar draws y system cyfiawnder. Gallai hyn gynnwys gwaith i adnabod troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn well ar adeg yr euogfarn, a chysylltu'r data a gesglir gan wahanol asiantaethau i wella prosesau olrhain deilliannau, ymyriadau, aildroseddu a rhyngweithiadau â mathau eraill o droseddu. Hefyd, gallai gwelliannau o ran casglu data a llunio adroddiadau arwain at well dadansoddiad o rywedd a pherthynas y drwgweithredwr a'r dioddefwr.

58. Cwestiwn: Dewiswch pa rai o'r canlynol y credwch y dylent fod yn flaenoriaethau ar gyfer casglu data'n well. Dewiswch hyd at 3.

Gwella prosesau casglu data a llunio adroddiadau i nodi a oes cam-drin domestig yn gysylltiedig ag achos/myriad	<input type="checkbox"/>
Gwella prosesau casglu data a llunio adroddiadau ynglwn â rhywedd a pherthynas y drwgweithredwr a'r dioddefwr	<input type="checkbox"/>
Gwella data er mwyn gallu olrhain deilliannau'n well mewn achosion/myriadau cam-drin domestig	<input type="checkbox"/>
Cysylltu data er mwyn gallu olrhain ymyriadau ac aildroseddu'n well	<input type="checkbox"/>
Cysylltu data er mwyn gallu cael gwell dealltwriaeth o'r rhyngweithiadau/cysylltiadau rhwng cam-drin domestig a mathau eraill o droseddu	<input type="checkbox"/>
Arall (testun rhydd)	<input type="checkbox"/>
Dim un o'r uchod	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod/ Dim ateb	<input type="checkbox"/>

4B: Sefydlu Comisiynydd Cam-drin Domestig yn y gyfraith

Rydym yn cynnig penodi Comisiynydd Cam-drin Domestig annibynnol a fyddai'n arwain y cyhoedd ar faterion yn ymwneud â cham-drin domestig ac yn chwarae rhan allweddol yn y broses o oruchwyllo a monitro darpariaeth gwasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr.

Mae llawer o'r bobl sy'n dioddef oherwydd cam-drin domestig yn defnyddio gwasanaethau a chefnogaeth a gomisiynir yn lleol. Darperir cyllid i'r gwasanaethau hyn yn bennaf drwy'r

awdurdod lleol, grant heddlu neu iechyd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau sydd yn y sefyllfa orau i asesu darpariaeth gwasanaethau lleol yn eu hardal. Er bod hyn yn rhoi hyblygrwydd i ddiwallu anghenion pobl sy'n dioddef oherwydd cam-drin domestig yn y ffordd orau bosibl, rydym yn deall y gall olygu y gall ansawdd a nifer y gwasanaethau amrywio ledled y wlad.

Mae cam-drin domestig hefyd yn dal i fod yn gudd gan fwyaf – dim ond tuag un o bob pump o ddiodefwyr cam-drin domestig sy'n ei riportio i'r heddlu¹¹⁴, ac o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gwnaeth yr heddlu lai o atgyfeiriadau i wasanaeth erlyn y goron yn 2016-17.¹¹⁵ Rydym yn gwybod bod angen i ni wneud mwy i ymgorffori canllawiau'r llywodraeth, megis y Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol¹¹⁶, rhannu arfer gorau a herio ardaloedd lleol lle mae'r ddarpariaeth yn annigonol. Gellid cyflawni hyn drwy gyflwyno Comisiynydd a fyddai'n sefyll dros ddiodefwyr cam-drin domestig a'u plant, yn codi ymwybyddiaeth o'r mater, ac yn monitro ac yn goruchwyllo'r gwasanaethau a ddarperir gan gynnwys y rhai a ddarperir i'r mwyafrif nad ydynt byth yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Gallai'r Comisiynydd weithio gydag ardaloedd lleol i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir, boed y gwasanaethau hynny'n gweithio gyda diodefwyr, drwgweithredwyr neu bobl sy'n wynebu risg, mor effeithiol, seiliedig ar dystiolaeth a diogel â phosibl. Byddai hefyd yn cydweithio â Chynghorydd Cenedlaethol Cymru ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, mathau eraill o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. I gyflawni hyn, gellid rhoi'r pwerau a'r adnoddau i'r Comisiynydd Cam-drin Domestig i wneud y canlynol:

- mapio a monitro darpariaeth gwasanaethau cam-drin domestig yn erbyn y Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol, a chyhoeddi gwybodaeth i arddangos a rhannu arfer gorau, yn ogystal â thynnu sylw at ddarpariaeth leol sy'n methu â bodloni'r disgwyliad
- mynnu bod cyrff cyhoeddus lleol yn cydweithio ac yn darparu gwybodaeth
- goruchwyllo proses Sicrhau Ansawdd yr Adolygiadau Dynladdiadau Domestig (gweler adran 4C), gan ddysgu gwersi a fyddai'n cyfrannu at ei argymhellion
- goruchwyllo cydymffurfriad â Llawlyfr Arbenigol y Llysoedd ar Gam-drin Domestig¹¹⁷
- cyhoeddi canfyddiadau mewn adroddiadau i'w cyflwyno gerbron y Senedd
- gwneud argymhellion i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth genedlaethol a lleol i wella'r ymateb i gam-drin domestig, a rhoi dyletswydd ar yr unigolyn/sefydliad cyfrifol i ymateb i'r argymhellion hyn

Mae'n bwysig ein bod yn taro cydbwysedd rhwng rhoi digon o bwerau i'r Comisiynydd Cam-drin Domestig i wella gwasanaethau'n genedlaethol, ac osgoi dyblygu'r trefnau arolygu sy'n bodoli a chynnal annibyniaeth ardaloedd lleol i gomisiynu gwasanaethau.

¹¹⁴ Troseddau yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn hyd at fis Medi 2015 Crynodeb: Trais a cham-drin yn erbyn partneriaid personol agos, Tabl 4.28

¹¹⁵ Gwasanaeth Erlyn y Goron (2016-17). Adroddiad trais yn erbyn menywod a genethod, 10^{fed} argraffiad

¹¹⁶ <https://www.gov.uk/government/publications/violence-against-women-and-girls-national-statement-of-expectations>

¹¹⁷ https://www.cps.gov.uk/publications/equality/vaw/sdvc_resource_manual_2011_v2.pdf

59. Cwestiwn: A ydych yn cytuno â'r model arfaethedig ar gyfer Comisiynydd Cam-drin Domestig a amlinellir uchod? Dewiswch un.

Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
Cytuno	<input type="checkbox"/>
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
Anghytuno	<input type="checkbox"/>
Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
Rhowch resymau [testun rhydd]	<input style="width: 100px; height: 20px;" type="text"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

60. Cwestiwn: O'r pwerau a'r adnoddau arfaethedig, pa rai yw'r pwysicaf i Gomisiynydd Cam-drin Domestig, yn eich tyb chi? Dewiswch hyd at 3.

Mapio a monitro darpariaeth gwasanaethau cam-drin domestig yn erbyn y Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol, a chyhoeddi'r wybodaeth hon i arddangos a rhannu arfer gorau, yn ogystal â thynnu sylw at ddarpariaeth leol sy'n methu â bodloni'r disgwyliad	<input type="checkbox"/>
Goruchwyllo cydymffurfiaid â Llawlyfr Arbenigol y Llysoedd ar Gam-drin Domestig	<input type="checkbox"/>
Goruchwyllo proses Sicrhau Ansawdd yr Adolygiadau Dynladdiadau Domestig, gan gynnwys unrhyw newidiadau a roddwyd ar waith ar ôl yr ymgynghoriad hwn, gan ddysgu gwersi a fyddai'n cyfrannu at ei argymhellion	<input type="checkbox"/>
Gwneud argymhellion i lywodraeth genedlaethol a lleol i wella'r ymateb i gam-drin domestig, a rhoi dyletswydd ar yr unigolyn/sefydliad cyfrifol i ymateb i'r argymhellion hyn	<input type="checkbox"/>
Cyhoeddi canfyddiadau mewn adroddiadau i'w cyflwyno gerbron y Senedd	<input type="checkbox"/>
Mynnu bod asiantaethau statudol lleol yn cydweithio ac yn darparu gwybodaeth	<input type="checkbox"/>
Arall (nodwch swyddogaethau eraill y dylai'r comisiynydd eu cyflawni)	<input type="checkbox"/>
Dim un o'r uchod	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod/dim ateb	<input type="checkbox"/>

61. **Cwestiwn i gyrrff cyhoeddus yn unig: Beth fyddai goblygiadau ymarferol cydymffurfio â phwerau'r Comisiynydd Cam-drin Domestig arfaethedig?**

Testun rhydd

4C: Dysgu o Adolygiadau Dynladdiadau Domestig

Rydym am wneud yn siur ein bod yn deall y gwersi a ddysgw'n o Adolygiadau Dynladdiadau Domestig ac yn gweithredu arnynt. Mae'r adolygiadau amlasiantaethol hyn yn edrych ar achosion lle mae marwolaeth wedi digwydd o ganlyniad i drais, cam-drin neu esgeuluso mewn lleoliad domestig, neu lle mae'n ymddangos felly. Diben yr adolygiadau yw canfod pa wersi y gellir eu dysgu er mwyn diogelu dioddefwyr ac atal dynladdiadau a thrais yn y dyfodol.

Mae'n hanfodol bod eu hargymhellion yn cael eu rhoi ar waith er mwyn osgoi dynladdiadau ac achosion o gam-drin domestig yn y dyfodol. Mae arferion gwael o ran rhannu gwybodaeth a diffyg dealltwriaeth o'r arwyddion o gam-drin domestig a'i effaith, a diffyg hyfforddiant yn y maes, i gyd yn themâu cyffredin sy'n deillio o adolygiadau dynladdiadau domestig.

Hoffem gynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn a ddysgir o Adolygiadau Dynladdiadau Domestig, yn lleol ac yn genedlaethol. Gallai hyn gynnwys gwneud yr adolygiadau'n fwy hygyrch, casglu a rhannu argymhellion yn rheolaidd a lledaenu'r wybodaeth ddiweddaraf, er enghraifft mewn cylchlythyron rheolaidd. Byddem yn croesawu syniadau a chynigion i sicrhau ein bod yn deall y gwersi a ddysgw'n o'r adolygiadau ac yn gweithredu arnynt.

62. **Cwestiwn: Un cynnig yw y gallai'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, fel mater o drefn, gasglu'r gwersi a ddysgir o Adolygiadau Dynladdiadau Domestig, sicrhau eu hansawdd a'u rhannu. Beth arall y gellid ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r hyn a ddysgir o'r adolygiadau hyn?**

Testun rhydd

63. **Cwestiwn: Beth yw'r ffordd orau i ardaloedd ddal eu hasiantaethau lleol eu hunain i gyfrif o ran monitro'r hyn a gyflawnir yn erbyn cynlluniau gweithredu Adolygiadau Dynladdiadau Domestig?**

Testun rhydd

4D: Rhannu arfer gorau ar draws y llywodraeth

Hoffem rannu arferion effeithiol yn eang (gan gynnwys gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig) ac felly mae'r Adran Addysg yn sefydlu Canolfan Beth sy'n Gweithio i ddatblygu sail dystiolaeth gref ar gyfer gofal cymdeithasol effeithiol i blant, a helpu i sicrhau bod gan weithwyr cymdeithasol yr offer cywir ar lawr gwlad.¹¹⁸ Mae'r llywodraeth yn diwygio'r trefniadau ar gyfer adolygu achosion difrifol sy'n ymwneud â phlant ac yn sefydlu Panel Adolygu Arferion Diogelu Plant i adolygu achosion difrifol o bwysigrwydd cenedlaethol; bydd y rhain yn cyfrannu at y Ganolfan Beth sy'n Gweithio. Yn yr un modd,

¹¹⁸ <https://www.nesta.org.uk/project/what-works-for-children>

mae'r Adran Datblygu Rhyngwladol yn rhannu tystiolaeth ac arfer gorau byd-eang drwy gyfrwng eu 'Rhaglen Beth sy'n Gweithio i Atal Trais' mewn 12 gwlad.¹¹⁹

Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn parhau i weithio gyda'r sector ac awdurdodau lleol i ledaenu arfer gorau ar gyfer y Rhaglen *Troubled Families* yn Lloegr, gan gynnwys cyngor am sut i oresgyn rhwystrau rhannu data yn ogystal â rhannu enghreifftiau o arfer gorau o ran comisiynu gan awdurdodau lleol.

Gan ddefnyddio rhywfaint o'r £20 miliwn a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y Gwanwyn, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ehangu cynllun braenaru'r Dreth Tamponau i sefydlu arferion iechyd cynhwysfawr mewn perthynas â cham-drin domestig ym mhob lleoliad gofal iechyd.

64. Cwestiwn: Sut y gall y llywodraeth rannu a hybu arferion effeithiol ym maes cam-drin domestig yn well ar draws pob gwasanaeth cyhoeddus, o ran comisiynu a darparu gwasanaethau?

Testun rhydd

65. Cwestiwn: Pa ran y dylai awdurdodau lleol ei chwarae o ran rhannu arfer da?

Testun rhydd

¹¹⁹ <http://www.whatworks.co.za/>

Holiadur

I'n helpu i ddadansoddi'r ymatebion, defnyddiwch y ffurflen ar-lein ganlynol i gyflwyno eich ymateb:

<https://consult.justice.gov.uk/homeoffice-moj/domestic-abuse-consultation>

Os na allwch ddefnyddio'r system ar-lein am resymau eithriadol, er enghraifft am eich bod yn defnyddio meddalwedd mynediad hwylus arbenigol sydd ddim yn gydnaws â'r system, cewch lwytho'r ffurflen i lawr ar fformat dogfen Word a'i hanfon drwy e-bost neu drwy'r post i:

Inter-Personal Violence Team
5th floor, Fry Building
Home Office
2 Marsham Street
London SW1P 4DF

E-bost: DomesticAbuseConsultation@justice.gov.uk

Hefyd, cysylltwch â'r timau Polisi Cam-drin Domestig (fel yr uchod) os oes angen gwybodaeth ar unrhyw fformat arall, megis Braille, sain neu iaith arall.

Byddem yn croesawu atebion i'r cwestiynau canlynol a amlinellir yn y papur ymgynghori hwn.

1. **A ydych yn cytuno â'r ffordd o gyflwyno'r diffiniad statudol arfaethedig?**
2. **A fydd y diffiniad newydd yn newid yr hyn y mae eich sefydliad yn ei wneud?**
3. **Sut y gallwn sicrhau bod y diffiniad wedi'i gynnwys mewn arferion ar y rheng flaen?**
4. **Pa effaith a gafodd y newidiadau i'r terfyn oedran yn y diffiniad o gam-drin domestig yn 201,2 yn eich tyb chi?**
5. **Rydym yn cynnig cadw'r terfyn oedran presennol o 16 mlwydd oed yn y diffiniad statudol – a ydych yn cytuno â'r syniad hwn?**
6. **Yn ogystal â'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i addysgu addysg perthynas mewn ysgolion, beth arall y gellir ei wneud i helpu plant a phobl ifanc i ddysgu am berthynas gadarnhaol a'u haddysgu am gam-drin?**
7. **Pa asiantaethau statudol neu grwpiau yr ydych yn meddwl y dylai llywodraeth y Deyrnas Unedig ganolbwyntio eu hymdrechion arnynt er mwyn gallu adnabod cam-drin domestig yn well?**
8. **Yn ogystal â gwella rhaglenni hyfforddiant a chyflwyno canllawiau, beth arall y gall y llywodraeth ei wneud i wella dealltwriaeth asiantaethau statudol o gam-drin domestig?**

9. Pa gefnogaeth bellach y gallwn ei darparu i'r cyhoedd (cyflogwyr, ffrindiau, teulu, ffigyrau cymunedol) fel y gallant adnabod cam-drin a chyfeirio dioddefwyr at gymorth yn effeithiol?
 10. Rydym yn y broses o ganfod meysydd o flaenoriaeth i gyllid llywodraeth ganolog ar gyfer cam-drin domestig. Pa rai o'r meysydd canlynol yr ydych yn meddwl y dylai llywodraeth y Deyrnas Unedig eu blaenoriaethu?
 11. Beth arall all y llywodraeth ei wneud i annog a chefnogi gwaith amlasiantaethol effeithiol, er mwyn cefnogi ac amddiffyn dioddefwyr yn llawn?
 12. Beth arall all y llywodraeth ei wneud i roi gwell cefnogaeth i ddioddefwyr sy'n wynebu amryw o rwystrau rhag cael cefnogaeth?
 13. Sut y gallwn weithio'n well gyda throseddwr benywol a menywod agored i niwed sydd mewn perygl o droseddu i ganfod eu cam-drin domestig yn gynt?
 14. Sut y gallwn ddefnyddio mwy o wasanaethau penodol i fenywod i ddarparu ymyriadau mewn amgylcheddau diogel, menywod-yn-unig?
 15. Yn ogystal ag adolygu pwy sy'n gymwys i gael y Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd, beth arall y gallai'r llywodraeth ei ystyried e rmwyn amddiffyn dioddefwyr cam-drin domestig na allant gael arian cyhoeddus?
 16. A ydych yn cytuno y dylai'r Hysbysiad Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig arfaethedig wedi'i gyflwyno gan yr heddlu weithio yn yr un ffordd yn fras â'r hysbysiad presennol (heblaw y gellid ei gyflwyno hefyd mewn achosion o gam-drin nad ydynt yn cynnwys trais neu fgythiad o drais)?
 17. Pa rai o'r unigolion/sefydliadau canlynol a ddylai allu ymgeisio am Orchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig?
 18. Pa unigolion neu gyrff y dylai rheoliadau eu pennu'n 'drydydd partïon perthnasol' a gaiff ymgeisio am Orchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig ar ran dioddefwr?
 19. Rydym yn cynnig y dylid caniatáu amryw o lwybrau i ymgeisio am Orchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig, gan gynnwys:
 - gan yr heddlu mewn llys ynadon ar ôl cyhoeddi Hysbysiad Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig neu ar unrhyw adeg arall
 - fel cais annibynnol gan, er enghraifft, y dioddefwr neu unigolyn neu sefydliad ar ran y dioddefwr mewn llys teulu
 - gan barti yn ystod unrhyw achos teulu, sifil neu droseddol
- A ydych yn cytuno?
20. A ydych yn cytuno y dylai llysoedd teulu, sifil a throseddol allu gwneud Gorchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig o'u dewis eu hun yn ystod unrhyw achos?

21. **A ydych yn cytuno y dylai'r llysoedd allu gosod gofynion cadarnhaol, yn ogystal â gwaharddiadau, fel rhan o'r amodau sydd ynghlwm wrth y gorchymyn arfaethedig?**
22. **A ydych yn cytuno y dylai'r llysoedd allu mynnu bod unigolion sy'n destun Gorchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig yn hysbysu'r heddlu am fanylion personol?**
23. **Os ydych, pa fanylion personol y dylai'r llysoedd allu mynnu bod unigolion yn eu rhoi i'r heddlu?**
24. **A ydych yn cytuno y dylai torri amodau'r gorchymyn arfaethedig fod yn drosedd?**
25. **Os ydych yn cytuno y dylai torri amodau'r gorchymyn arfaethedig fod yn drosedd, a ddylai fod yn bosibl cosbi'r tor amodau fel dirmyg llys?**
26. **A ydych yn cytuno y dylai'r llysoedd gael grym penodol i ddefnyddio monitro electronig fel un o amodau Gorchymyn Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig?**
27. **Pa fesurau diogelu statudol penodol ynglŷn â defnyddio monitro electronig gyda Gorchymynion Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig y dylid eu rhoi ar waith?**
28. **Faint yn haws fydd hi, yn eich tyb chi, i ddiodefwyr cam-drin domestig gofrestru i bleidleisio'n ddiennw, wedi i'r newidiadau a grynhoir uchod ddiogwydd?**
29. **Pa gefnogaeth bellach y gellid ei rhoi i oroeswyr i brofi y byddent mewn perygl pe bai eu henw a'u cyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol? Cyflwynwch un awgrym.**
30. **A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach ynglŷn â sut i'w gwneud yn haws i oroeswyr cam-drin domestig gofrestru i bleidleisio'n ddiennw?**
31. **Ar wahân i gofrestru'n ddiennw, sut arall y gallwn gadw cyfeiriadau diodefwyr yn ddiogel?**
32. **Cyn darllen yr ymgynghoriad hwn, a oeddech yn ymwybodol o'r Cynllun Datgelu Trais Domestig (Deddf Clare)?**
33. **A ydych yn cytuno y dylai'r canllawiau sy'n tanategu'r Cynllun Datgelu Trais Domestig gael eu rhoi ar sail statudol?**
34. **Beth yr ydych yn meddwl yw'r ffordd orau i ni hybu ymwybyddiaeth o'r cynllun Datgelu Trais Domestig ymysg y cyhoedd?**
35. **Pa rwystrau ymarferol sy'n wynebu diodefwyr cam-drin domestig o ran dianc rhag cam-drin economaidd neu wella pethau ar ôl cam-drin economaidd, a sut y gellid goresgyn y rhain?**
36. **Beth arall y gallwn ei wneud i frwydro yn erbyn cam-drin domestig sy'n digwydd ar-lein, neu drwy reoli technoleg?**

37. Sut y gallwn barhau i annog a chefnogi gwelliannau i ymateb yr heddlu i gam-drin domestig ar draws pob heddlu, a gwella'r canlyniadau i ddiodefwr?
38. A ydych yn meddwl y bydd creu tybiaeth ddeddfwriaethol y dylid ystyried bod pob diodefwr cam-drin domestig yn gymwys i gael cymorth ar sail ofn neu drallod (os oes ar y diodefwr eisiau cymorth o'r fath) yn cefnogi mwy o ddiodefwr i roi tystiolaeth?
39. A allai'r llywodraeth hon wneud mwy i esbonio amrediad a chwmpas y mesurau presennol i ddiodefwr i helpu i'w cefnogi yn y broses cyfiawnder troseddol?
40. A ydych yn gwybod am enghreifftiau mewn achosion troseddol lle mae cais i atal diffynnydd heb gynrychiolaeth rhag croesholi diodefwr wedi cael ei wrthod mewn achos cam-drin domestig? Lle bo'n bosibl, rhowch dystiolaeth neu fanylion o'r profiad i ategu eich ateb.
41. A ydych yn meddwl y byddai ymestyn y gwaharddiad rhag croesholi mewn achosion troseddol yn cefnogi mwy o ddiodefwr cam-drin domestig i roi tystiolaeth?
42. A oes gennych awgrymiadau ar gyfer sut y gallwn gefnogi erlyniadau'n well hyd at eu casgliad, gan gynnwys darparu gwell cefnogaeth i dystion sydd ar hyn o bryd yn cefnu ar y broses? Lle bo'n bosibl, rhowch dystiolaeth neu fanylion o'r profiad i ategu eich ateb.
43. Beth arall all yr heddlu, unedau gofalu am dystion a Gwasanaeth Erlyn y Goron ei wneud i gynorthwyo diodefwr drwy'r broses gyfiawnder o adeg riportio ymlaen? Lle bo'n bosibl, rhowch dystiolaeth neu fanylion o'r profiad i ategu eich ateb.
44. A allai'r llys teulu ddysgu o unrhyw agweddau eraill ar y ffordd y mae'r llys troseddol yn trin pobl agored i niwed?
45. A ydych yn meddwl y gallai'r llywodraeth gymryd camau pellach i gryfhau effeithiolrwydd y trosedd ymddygiad rheoli neu orfodi?
46. A ydych yn meddwl bod y dull presennol o ddefnyddio canllawiau dedfrydu, yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018, yn effeithiol o ran sicrhau bod y dedfrydau a roddir yn adlewyrchu difrifoldeb cam-drin domestig sy'n cynnwys plant?
47. A oes angen ffactor waethybol statudol er mwyn i'r llys adlewyrchu difrifoldeb troseddau sy'n cynnwys cam-drin domestig a phlant wrth ddedfrydu?
48. Rhannwch unrhyw farn arall ynglŷn â sut i sicrhau yr ystyrir cam-drin domestig a'i effaith ar blant wrth ddedfrydu.
49. A ydych yn cytuno bod cymryd awdurdodaeth alltiriogaethol dros y troseddau hyn yn ddigon i fodloni gofynion y Confensiwn?
50. Os nad ydych, pa droseddau ychwanegol yr ydych yn meddwl y dylem gymryd awdurdodaeth alltiriogaethol drostynt a pham?

51. A ydych yn cytuno bod dibynnu ar y rhwymedi cyfraith sifil yn Neddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997 yn ddigonol i fodloni gofynion y Confensiwn ar aflonyddu rhywiol?
52. Os nad ydych, beth ydych yn meddwl sydd ei angen i fodloni'r gofynion hynny?
53. A ydych yn cytuno y dylem archwilio (gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron) defnyddio mwy o rybuddiadau amodol rheoledig wedi'u monitro gyda rhaglenni adsefydlu nag a ganiateir ar hyn o bryd ar gyfer digwyddiadau cam-drin domestig llai difrifol, sydd y digwyddiad cyntaf fel arfer?
 - Os ydych, esboniwch eich ateb, gan awgrymu pa weithdrefnau a ddylai fod ar waith i sicrhau mai dim ond mewn achosion priodol, gydag amodau priodol ynghlwm, y câi rhybuddiad amodol ei roi.
 - Os nad ydych, esboniwch eich ateb
54. A oes gennych unrhyw dystiolaeth bellach am yr arferion presennol â rhybuddiadau amodol y dylem ei hystyried mewn cysylltiad â'r mater hwn?
55. Pa newidiadau i bolisiâu neu weithdrefnau presennol a fyddai'n helpu'r heddlu ac asiantaethau eraill i reoli camdrinwyr mynych ac ad-droseddwyr yn well, yn enwedig rhai nad ydynt wedi cael dedfryd mewn llys? Gall hyn gynnwys y ffordd orau o:
 - asesu risg camdriniwr a chynllunio i leihau'r risg
 - ymgysylltu â chamdriniwr er mwyn annog cydymffurfiad â mesurau rheoli
56. Sut y gellid gwneud mwy i weithio gyda drwgweithredwyr mewn carchardai, yn enwedig troseddwyr sy'n cael dedfryd o lai na 12 mis ac nad oes ganddynt ddigon o amser i gwblhau rhaglen cam-drin domestig yn y ddalfa? Mae gennym ddiddordeb mewn clywed am enghreifftiau penodol o arferion sydd wedi bod yn llwyddiannus.
57. Sut y gellid gwneud mwy i weithio gyda drwgweithredwyr yn y gymuned (wedi cael euogfarn neu heb) i newid eu hymddygiad? Mae gennym ddiddordeb mewn clywed am enghreifftiau penodol o arferion sydd wedi bod yn llwyddiannus.
58. Dewiswch pa rai o'r canlynol y credwch y dylent fod yn flaenoriaethau ar gyfer casglu data'n well.
59. A ydych yn cytuno â'r model arfaethedig ar gyfer Comisiynydd Cam-drin Domestig a amlinellir uchod?
60. O'r pwerau a'r adnoddau arfaethedig, pa rai yw'r pwysicaf i Gomisiynydd Cam-drin Domestig, yn eich tyb chi?
61. Cwestiwn i gyrff cyhoeddus yn unig: Beth fyddai goblygiadau ymarferol cydymffurfio â phwerau'r Comisiynydd Cam-drin Domestig arfaethedig?
62. Un cynnig yw y gallai'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, fel mater o drefn, gasglu'r gwersi a ddysgir o Adolygiadau Dynladdiadau Domestig, sicrhau eu hansawdd a'u rhannu. Beth arall y gellid ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r hyn a ddysgir o'r adolygiadau hyn?

63. **Beth yw'r ffordd orau i ardaloedd ddal eu hasiantaethau lleol eu hunain i gyfrif o ran monitro'r hyn a gyflawnir yn erbyn cynlluniau gweithredu Adolygiadau Dynladdiadau Domestig?**
64. **Sut y gall y llywodraeth rannu a hybu arferion effeithiol ym maes cam-drin domestig yn well ar draws pob gwasanaeth cyhoeddus, o ran comisiynu a darparu gwasanaethau?**
65. **Pa ran y dylai awdurdodau lleol ei chwarae o ran rhannu arfer da?**

Diolch am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi

<p>Ym mha ranbarth ydych chi?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gogledd Ddwyrain Lloegr • Gogledd Orllewin Lloegr • Swydd Efrog/Glannau Humber • Dwyrain Canolbarth Lloegr • Gorllewin Canolbarth Lloegr • Cymru • East Anglia • De Ddwyrain Lloegr • De Orllewin Lloegr • Llundain Fwyaf • Yr Alban • Gogledd Iwerddon • Arall (nodwch)
<p>A ydych yn ymateb ar ran sefydliad ynteu fel aelod o'r cyhoedd?</p>	
<p>Os yn berthnasol, pa un o'r rhain yw'r disgrifiad gorau ohonoch chi/eich sefydliad</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dioddefwr/ goroeswr cam-drin domestig • Teulu/ffrind i ddiodeffwr/ goroeswr • Drwgweithredwr (gan gynnwys cyn-ddrwgweithredwr) • Heddlu • Awdurdod lleol/llywodraeth leol/cyngor lleol • Partneriaeth diogelwch cymunedol • Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth • Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig neu Gynghorydd Arbenigol ar Gam-drin Domestig • Mudiad cam-drin domestig elusennol/gwirfoddol • Gweithiwr iechyd proffesiynol • Gweithiwr addysg proffesiynol • Gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol • Gwasanaethau i blant • Darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, adran Llywodraeth • Ymarferwr cyfreithiol • Staff llys • Ymchwilydd • Arall (nodwch)
<p>Os yn berthnasol, rhwch enw eich sefydliad/ proffesiwn</p>	
<p>Dyddiad</p>	

Datganiad Cydraddoldeb

Bydd y Bil Cam-drin Domestig drafft a'r rhaglen waith anneddfwriaethol yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiodefwyr a chyflawnwyr cam-drin domestig.

Mae'r Datganiad Cydraddoldeb hwn wedi'i gyfeirio at y poblogaethau targed hyn, ac mae'n rhoi sylw i'r dewisiadau a drafodwyd yn y ddogfen ymgynghori, sy'n perthyn yn fras i'r categorïau canlynol:

- **hybu ymwybyddiaeth** – helpu i roi cam-drin domestig ar ben agenda pawb
- **amddiffyn a chefnogi** – gofalu bod diodefwyr yn fwy diogel ac yn cael gwell cefnogaeth
- **ymlid a rhwystro** – ymateb yn effeithiol i ddrwgweithredwyr o ymateb cychwynol yr heddlu hyd at euogfarnu a rheoli troseddwyd, gan gynnwys adsefydlu
- **gwella perfformiad** – hybu cysondeb a gwell perfformiad yn yr ymateb i gam-drin domestig ar draws pob ardal ddaearyddol a phob sector

Dyletswydd Cydraddoldeb

Mae Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion a'r Adran, wrth gyflawni eu swyddogaethau, i 'ystyried yn briodol' yr angen i wneud y canlynol:

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
2. Sicrhau cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol (rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a rhai nad ydynt)
3. Meithrin perthynas dda rhwng grwpiau gwahanol (rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a rhai nad ydynt)

Yn unol â'n cyfrifoldebau o dan y Ddeddf, rydym wedi rhoi ystyriaeth gynnar i 9 nodwedd warchoddedig y grwpiau targed:

1. hil
2. rhyw
3. oed
4. anabled
5. cyfeiriadedd rhywiol
6. crefydd neu gred
7. beichiogrwydd a mamolaeth
8. ailbennu rhywedd
9. priodas/partneriaeth sifil

Yn unol â'n hymrwymadau statudol, ystyrir effaith y cynigion terfynol ar y naw nodwedd warchoddedig lle bynnag y bydd data ar gael. **Rydym yn annog atebwyr yr ymgynghoriad i dynnu sylw at unrhyw faterion cydraddoldeb a'n cyfeirio at unrhyw**

ddata a thystiolaeth bellach sydd ar gael. Yna, ystyrir y dystiolaeth am gydraddoldeb a gesglir drwy'r ymgynghoriad hwn wrth ddatblygu'r cynigion polisi terfynol.

Ystyriaethau cydraddoldeb

Gwahaniaethu uniongyrchol

Rydym yn credu nad yw'r cynigion yn gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn yr ystyr yn y Ddeddf, oherwydd maent yr un mor berthnasol i holl ddiodefwyr a chyflawnwyr cam-drin domestig, heb ystyried a oes ganddynt nodwedd warchoddedig – nid ydym o'r farn y byddai'r cynigion yn golygu y câi pobl eu trin yn llai ffafriol oherwydd y nodwedd warchoddedig.

Gwahaniaethu anuniongyrchol

Mae data am nodweddion gwarchoddedig y poblogaethau targed yn brin (yn enwedig ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig). Mae ein hasesiad cychwynnol o'r data'n awgrymu y gallai'r dewisiadau posibl gael effaith anghymesur ar:

- ddiodefwyr â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol – rhyw (benyw), oed (pobl iau), pobl o gyfeiriadedd rhywiol (pobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol), a statws priodasol (oedolion sydd wedi gwahanu neu gael ysgariad, neu fenywod sengl)^{120, 121, 122}
- troseddwy'r â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol – rhyw (gwryw), oed (pobl iau, neu ganol oed) a hil (gwyn)¹²³

Nid ydym, fodd bynnag, o'r farn y bydd y cynigion yn arwain at wahaniaethu anuniongyrchol anghyfreithlon yn erbyn pobl â'r nodweddion gwarchoddedig hyn. Hyd yn oed pe gellid sefydlu mewn rhai achosion bod yr effeithiau hyn yn gyfystyr ag anfantais benodol, mae rhoi'r diwygiadau ar waith yn ymateb cymesur i sicrhau gorfodi effeithiol ac mae'n cyfrannu at wneud mwy i amddiffyn diodefwyr cam-drin domestig.

Aflonyddu ac erledigaeth

Nid ydym yn credu bod y dewisiadau sydd ar gael yn y ddogfen ymgynghori'n peri risg o aflonyddu nac erledigaeth.

Hybu cyfle cyfartal

Ystyriwyd sut y mae'r cynigion hyn yn effeithio ar y ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal drwy ddiwallu anghenion diodefwyr cam-drin domestig a throseddwy'r â nodwedd benodol, lle bo'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd benodol honno.

¹²⁰ Swyddfa Ystadegau Gwladol 2017, Bwletin Ystadegol: Cam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn hyd at fis Mawrth 2017

¹²¹ Swyddfa Ystadegau Gwladol 2017, Cam-drin Domestig, Ymosod Rhywiol a Stelcio: canfyddiadau o'r flwyddyn hyd at 2016 Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr

¹²² Swyddfa Ystadegau Gwladol 2016, Mynychder trais yn erbyn partner agos ymysg oedolion 16 i 59 oed, yn ôl rhyw a hunaniaeth rywiol y diodefwyr, blwyddyn hyd at fis Mawrth 2015 a blwyddyn hyd at fis Mawrth 2016 Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr

¹²³ Gwasanaeth Erllyn y Goron 2017, Adroddiad Trais yn erbyn Menywod a Genethod: Degfed Argraffiad, 2016-17

Er y gallai'r dewisiadau posibl a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori gael effaith anghymesur yn anuniongyrchol ar rai nodweddion gwarchoddedig (gweler uchod), dylai'r dewisiadau hybu cyfle cyfartal oherwydd maent yn berthnasol i holl ddioddefwyr a chyflawnwyr cam-drin domestig, beth bynnag am unrhyw wahaniaethau rhwng eu nodweddion gwarchoddedig.

Meithrin perthynas dda

Ystyriwyd yr amcan hwn, a nodwyd ei fod yn annhebygol o fod yn arbennig o berthnasol i'r cynigion.

Manylion cyswllt/sut i ymateb

Dylech ymateb drwy ddefnyddio'r system ar-lein sydd ar gael yn:

<https://consult.justice.gov.uk/homeoffice-moj/domestic-abuse-consultation>

Cyflwynwch eich ymateb erbyn 31 Mai 2018.

Os na allwch ddefnyddio'r system ar-lein am resymau eithriadol, er enghraifft am eich bod chi'n defnyddio meddalwedd mynediad hwylus arbenigol sydd ddim yn gydnaws â'r system, cewch lwytho'r ffurflen i lawr ar fformat dogfen Word a'i hanfon drwy e-bost neu drwy'r post i:

Inter-Personal Violence Team
5th floor, Fry Building
Home Office
2 Marsham Street
London SW1P 4DF

E-bost: DomesticAbuseConsultation@justice.gsi.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Copïau ychwanegol

Mae copïau papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/homeoffice-moj/domestic-abuse-consultation>.

Gallwch ofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn ar fformatau amgen drwy e-bostio DomesticAbuseConsultation@justice.gsi.gov.uk neu drwy ysgrifennu i'r cyfeiriad uchod.

Cyhoeddi'r ymateb

Cyhoeddir papur i grynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

Cyfrinachedd

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir fel ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefnau mynediad at wybodaeth (y prif rai yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998).

Os hoffech i'r wybodaeth a ddarparwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech gofio bod y FOIA yn cynnwys Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymwneud, ymysg pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai o gymorth pe gallech egluro wrthym pam yr ydych yn ystyried bod y wybodaeth yr ydych wedi'i darparu yn gyfrinachol.

Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gallwn gynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiadau. Ni ystyrir bod ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchwyd gan eich system TG, ynddo'i hun, yn rhwymol ar y Swyddfa Gartref/ y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a, dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon y tu allan i'r llywodraeth, oni bai bod y gyfraith yn mynnu hynny.

Peidiwch â chynnwys enwau unrhyw unigolion; os gwnewch, byddwn yn dileu enw'r unigolyn o'ch ymateb ond ni fyddwn yn gwneud newidiadau materol eraill. Nid yw'n bosibl dechrau trafod achosion unigol yn yr Ymgynghoriad na'i ddefnyddio fel modd o apelio yn erbyn penderfyniadau y mae'r Llys wedi'u gwneud, ond mae mynegi barn gyffredinol yn dderbyniol.

Gellir defnyddio eich barn a rannwch â ni drwy gwblhau'r Ymgynghoriad fel sail i benderfyniadau'r llywodraeth am bolisiâu yn y dyfodol. I'r perwyl hwnnw, efallai y byddwn yn rhannu eich barn ag adrannau'r llywodraeth sy'n gyfrifol am y penderfyniad polisi.

Cedwir ymatebion a gwblheir naill ai ar-lein neu mewn ymateb ysgrifenedig ffurfiol am hyd at saith mlynedd ar ôl diwedd yr Ymgynghoriad i ganiatáu dadansoddiad ystadegol a rhoi penderfyniadau polisi ar waith.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion ymgynghori'n amlinellu'r egwyddorion y dylai adrannau'r llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid at ddiben datblygu polisiau a deddfwriaeth.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>



© Hawlfraint y Goron 2018

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu'n unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn destun hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau o'r adroddiad hwn ar fformatau amgen ar gael ar gais gan y tîm polisi Cam-drin Domestig.

E-bost: DomesticAbuseConsultation@justice.gsi.gov.uk

Cyfeiriad: Inter-Personal Violence Team
5th floor, Fry Building
Home Office
2 Marsham Street
London SW1P 4DF